



## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

#### **Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg**

**Bydd cyfarfod rhithwir o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn cael ei gynnal Dydd Iau, 22 Ebrill 2021 am 10.00 am**

**Dolen gyswllt:** Emma Wilkins

#### **MATERION I'W TRAFOD**

##### **1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw.
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

##### **2. COFNODION**

Derbyn cofnodion o gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2019.

**(Tudalennau 5 - 10)**

##### **3. GWASANAETHAU CYMRAEG - ADRODDIAD CYNNYDD AR STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG A'R CYNLLUN GWEITHREDU**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, sy'n darparu trosolwg i'r Aelodau o gyflawniad y Cyngor yng nghyd-destun Cynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg

**(Tudalennau 11 - 138)**

**4. ADRODDIAD CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG 2020-2021  
- I'W GYFLWYNO I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG**

Derbyn rhaglen waith ddrafft Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg i'r Aelodau wneud sylwadau arno.

**(Tudalennau 139 - 166)**

**5. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG –  
DIWEDDARIAD BLYNYDDOL 2020**

Derbyn adroddiad ar y cyd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n rhoi trosolwg i'r Aelodau o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno yng nghyfarfod y Cabinet ar 28 Ionawr 2021.

**(Tudalennau 167 - 244)**

**6. TROSOLWG O WAITH MENTER IAITH.**

Derbyn trosolwg o waith Menter Iaith.

**7. MATERION BRYD**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**CYLCHREDIAD: - All Members of the Steering Group, as follows:-**

**Y CYNGHORWYR**

Y Cynghorydd G Hopkins (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd J Rosser (Is-gadeirydd)  
Y Cynghorydd R Bevan  
Y Cynghorydd M Webber  
Y Cynghorydd J James  
Y Cynghorydd E Stephens

**SWYDDOGION:**

Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu  
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant  
Wendy Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned  
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

**MENTER IAITH**

Einir Sion

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

### GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

Cofnodion o gyfarfod y Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd Dydd Mercher, 9 Hydref 2019 am 10.00 am ym Ystafell Bwllgor 1, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

### Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd G Hopkins (Cadeirydd)

Y Cyngorydd J Rosser    Y Cyngorydd R Bevan  
Y Cyngorydd M Webber    Y Cyngorydd J James

### Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu  
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant  
Ms W Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned  
Mr S Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg  
Mr B Harries, Rheolwr y Gwasanaethau Ieuenctid  
E Siôn, Menter Iaith

#### 1        **Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol E. Stephens.

#### 2        **Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

#### 3        **Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion o gyfarfod y Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2019.

#### 4        **Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid – Cynnydd o ran cyflwyno'r Gymraeg**

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Ieuenctid drosolwg cynhwysfawr o'r cynnydd cadarnhaol a wnaed o fewn y

Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad leuenctid mewn perthynas â'r Gymraeg.

Cafodd y Grŵp Llywio wybodaeth ynglŷn â nifer y staff a'r rheiny sy'n rhugl yn y Gymraeg; y gweithgareddau a'r prosiectau dwyieithog a gynigir yn ystod y dydd, gyda'r nos ac yn ystod y gwyliau; a'r gwahanol lefelau o gefnogaeth a gynigir i bobl ifanc sy'n dymuno manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhoddodd y swyddog wybodaeth am gryfderau'r gwasanaeth, ac roedd y grŵp yn falch o glywed fod pob is-faes gwasanaeth yn cynnwys o leiaf un siaradwr Cymraeg. Roedd y swyddog hefyd yn falch o sôn am gyllid ychwanegol, a arweiniodd at benodi pedwar Swyddog Iechyd Meddwl a Lles newydd, gydag un ohonynt yn gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd yr Aelodau bwysigrwydd y rôl a'r angen i bobl ifanc gael gafael ar y gefnogaeth yn yr iaith sydd orau ganddyn nhw.

Tynnodd y swyddog sylw'r Grŵp at ganlyniadau'r arolwg 'Eich Llais', sy'n nodi bod 26.8% o'r disgyblion yn yr 17 ysgol yn RhCT yn gallu siarad Cymraeg. Serch hynny, dim ond 2.7% o'r rheiny sy'n defnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol. Cafwyd trafodaethau ynghylch y cwestiynau 'eang' a ofynnwyd yn ystod yr arolwg, gyda'r Fenter Iaith yn nodi bod cwestiynau wedi'u haralleirio neu gwestiynau dilynol yn aml yn darparu data mwy eglur a chryno. Ychwanegwyd bod ffigurau yn portreadu darlun mwy cadarnhaol o'r defnydd o'r Gymraeg gan bobl ifanc yn ystod arolygon diweddar a gynhaliwyd gan y Fenter Iaith. Fodd bynnag, cydnabuwyd pa mor anodd yw hi i goladu data o'r fath, gyda'r Aelodau a'r swyddogion yn cytuno bod diffyg hyder wrth hunan-ddadansoddi eu defnydd yn fater allweddol i lawer o ddysgwyr.

Trafododd yr Aelodau seicoleg cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan nodi bod pobl ifanc yn aml yn dewis cymdeithasu yn Saesneg, waeth faint o Gymraeg maen nhw'n ei wybod. Cytunon nhw fod diwylliant yr iaith mewn sawl rhan o'r de yn parhau i fod yn her wrth hyrwyddo'r iaith, gan fod llawer o bobl yn RhCT yn ystyried cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhwystr.

Serch hynny, roedd y Grŵp Llywio yn falch o nodi'r cynnydd o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn maes gwasanaeth mor allweddol. Manylodd y cyflwyniad ar lawer o gyfleoedd sydd ar gael, sy'n annog pobl ifanc i wella eu sgiliau iaith yn raddol ar ystod o wahanol oeddrannau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y cyflwyniad. **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

## 5 Newid i Drefn yr Agenda

Cytunodd y Grŵp Llywio y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

## 6 Strategaeth Hybu'r Gymraeg – Adroddiad Cynnydd

Darparodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau'r Gymuned drosolwg i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg o gyflawniad y Cyngor yng nghydestun Cynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a gafodd ei chymeradwyo ar 25 Ionawr 2017.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth gefndir y Strategaeth i'r Grŵp Llywio. Dywedodd fod y Cynllun wedi'i ddatblygu o dan Adran 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyhoeddi o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'i ddatblygu yn ystod 2016 mewn partneriaeth â Sbectwm, Menter Iaith, Gwasanaethau'r Cyngor ac Aelodau Etholedig.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod y Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n ddwy ran a bod yr holl weithgareddau a thargedau yn cael eu dyrannu ar draws nifer o wahanol themâu. Mae Rhan 1 o'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r gweithgareddau a'r targedau y mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cyflawni naill ai trwy ddarparu'n uniongyrchol neu drwy gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau partner. Mae Rhan 2 yn amlinellu'r gweithgareddau a'r targedau y mae aelodau'r Fforwm Iaith yn gyfrifol am eu cyflawni o dan eu cytundebau cyllido cyfredol gyda Llywodraeth Cymru.

Siaradodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y camau cadarnhaol a gafodd eu cymryd o fewn RhCT i fwrw'r targedau yn yr adroddiad, gan gyfeirio at Atodiad 1, lle mae'r cynnydd yn erbyn targedau ar gyfer pob maes gwasanaeth unigol wedi'u nodi'n fanwl. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed am y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud gyda rhai themâu, gyda rhai targedau wedi'u cyflawni eisoes o fewn eu hamserlenni. Roedd y Cadeirydd yn arbennig o falch o'r cynnydd a nodwyd mewn perthynas â'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg, a dywedodd ei fod wedi bod yn dyst i wers nofio a gafodd ei chynnal trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddiweddar.

Nodwyd bod gwella'r cynnig i staff a'u helpu i fanteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael yn elfen allweddol o'r strategaeth. Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn falch o gadarnhau bod llawer o staff yn manteisio ar yr hyfforddiant, p'un ai fel dysgwr newydd neu fel siaradwr â diffyg hyder. Esboniodd fod Llywodraeth Cymru bellach wedi cyflwyno hyfforddiant wedi'i ariannu ar gyfer Cymraeg Gwaith/Work Welsh.

Aeth yr aelodau ymlaen i drafod yr heriau y mae'r Cyngor yn dal i'w hwynebu, a chodwyd pryder ynglŷn â'r cam gweithredu sy'n caniatáu i'r Cyngor gyflwyno'r Gymraeg fel prif gyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen mewn rhai ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod llawer o'r targedau wedi'u cydnabod yn rhai uchelgeisiol yn ystod y cam datblygu, a bod rhai yn profi i fod felly yn ymarferol am amryw resymau. Cytunwyd bod angen aralleirio rhai nodau yn y Cynllun.

Cafwyd trafodaeth ynghylch datblygiadau cynllunio yn y dyfodol a'r angen am ysgolion newydd yn sgîl hynny. Siaradodd un Aelod am ei ward ei hun, gan nodi er ei bod hi'n gadarnhaol bod y cynlluniau'n cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg, roedd pryder bod galw uwch am ysgolion cyfrwng Saesneg neu ddwyieithog. Nodwyd bod yn rhaid i Gynllun Datblygu Lleol cyfredol yr Awdurdod roi sylw dyledus i nodyn cyngor technegol er mwyn ystyried effaith cynllunio ar y Gymraeg, ond gwnaeth nifer o Aelodau sylwadau am yr angen am sicrhau bod cydbwysedd a'r ddarpariaeth gywir ar gael i ateb y gofynion pob ardal unigol. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg ei bod hi'n anodd ystyried ffactorau annisgwyl, er bod rhagamcanion yn cael eu hystyried yn rhan o ddatblygiadau cynllunio.

Manteisiodd Rheolwr Gwasanaeth Uned Gwasanaethau'r Gymraeg ar y cyfle i roi gwybod i'r Grŵp Llywio am newidiadau diweddar i reoliadau'r Gymraeg, gyda

Llywodraeth Cymru yn cynnig ystod darged ar gyfer Awdurdodau Lleol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Gymraeg. Dywedodd y swyddog y byddai'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd yn cwmpasu cyfnod o ddeng mlynedd, a rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau y byddai'n cyd-fynd â'r Strategaeth Hybu er cysondeb.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad cynhwysfawr, gan ychwanegu ei bod yn bleser gweld faint o waith sydd wedi cael ei wneud i sicrhau bod y Cyngor yn bwrw'i darged. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

- a) Cydnabod cynnwys yr adroddiad;
- b) Cymeradwyo'r gwaith o fwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu yn amodol ar ychwanegu camau pellach i fynd i'r afael â meysydd o flaenoriaeth sydd angen eu gwella. Mae'r rhain wedi'u nodi yn yr adroddiad;
- c) Bod adroddiad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn y dyfodol.

## **7 Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Comisiynydd y Gymraeg**

Rhoddodd Rheolwr Gwasanaeth, Uned Gwasanaethau'r Gymraeg ragor o wybodaeth i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg am y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru a gafodd ei chyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2018, a chyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â hyn.

Aeth y Swyddog ati i atgoffa'r Aelodau o'r drafodaeth hir ynglŷn â'r materion cymhleth o ran mabwysiadu Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol y Comisiynodd a gafwyd yng nghyfarfod y Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar 10 Hydref 2018. Yn ystod y cyfarfod, cytunodd yr Aelodau, gyda chytundeb Aelodau'r Cabinet, y byddai Cadeirydd y Grŵp yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig gan Gomisiynydd y Gymraeg o'r rhesymeg y tu ôl i'r rhestr cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad â chymunedau lleol. Roedd gohebiaeth ddilynol gan swyddfa'r Comisiynydd yn gofyn i'r Cyngor oedi cyn dechrau unrhyw ymgynghoriad. Ymatebodd Cadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg gan gytuno na fyddai'n ddoeth bwrw ymlaen ag unrhyw ymgynghoriad ar sail y rhestr sydd wedi'i chyhoeddi ar hyn o bryd.

Hysbyswyd yr aelodau, yn dilyn y penderfyniad uchod, bod rhestr ddiwygiedig o enwau lleoedd safonol wedi'i chyhoeddi gan y Comisiynydd a'i bod ger eu bron. Mae'r rhestr yn cynnwys rhywfaint o fanylion a rhesymeg ynglŷn â'r argymhellion.

Roedd yr Aelodau'n unfrydol yn eu teimladau tuag at fabwysiadu unrhyw un o'r newidiadau a argymhellir i'r enwau lleoedd yn RhCT, gan nodi mai trigolion pob ardal unigol fyddai'n penderfynu ar ei enw. Teimlai'r Grŵp Llywio, er y gallai newid bach i enw lle fod yn fater dibwys i'r Aelodau, mae modd iddo fod yn fater arwyddocaol i'r unigolion sy'n byw yn yr ardal.

Yn dilyn ystyriaeth, **PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:**

- a) Argymhell bod y Cabinet yn gwrthod mabwysiadu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Cymru fel sy'n berthnasol i Rhondda Cynon Taf. Nes y caiff penderfyniad ei wneud ynglŷn â hyn, bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r enwau lleoedd sydd wedi'u nodi yn Rhestr Tir ac Eiddo Lleol Rhondda Cynon Taf.
- b) Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet i'r argymhelliad uchod, bydd Cadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn ysgrifennu at Gomisiynydd y Gymraeg yn amlinellu safbwynt yr Awdurdod Lleol ac yn gofyn i'r ffurfiau cyfredol o enwau lleoedd sy'n berthnasol i Rhondda Cynon Taf gael eu defnyddio ar wefan y Comisiynydd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 am**

**Cllr G Hopkins  
Cadeirydd.**

Tudalen wag



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**22 EBRILL 2021**

**GWASANAETHAU CYMRAEG - ADRODDIAD CYNNYDD AR STRATEGAETH  
HYBU'R GYMRAEG A'R CYNLLUN GWEITHREDU**

**ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y  
CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH GYDA  
DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. G. HOPKINS**

**AWDURON:** Wendy Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymuned  
(01443 425512)

Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 570002)

**1. DIBEN YR ADRODDIAD**

- 1.1 Diben yr adroddiad yma yw darparu trosolwg i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg o gyflawniad y Cyngor yng nghyd-destun Cynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a gafodd ei gymeradwyo ar 25 Ionawr 2017.

**2. ARGYMHELLION**

Dyma'r argymhellion i aelodau o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;
- 2.2 Ystyried a oes angen rhagor o wybodaeth;
- 2.3 Argymell i gymeradwyo parhau â'r Cynllun Gweithredu cyfredol hyd nes bod Cynllun Gweithredu newydd yn cael ei gymeradwyo i gwmpasu'r cyfnod 2021-2026.
- 2.4 Argymell i gymeradwyo gofyn am wasanaeth ymgynghorydd annibynnol i asesu i ba raddau y mae amcanion y Strategaeth 5 Mlynedd wedi'u cyflawni trwy weithredu Cynllun Gweithredu 2016-2021; ac i gynghori ar ddatblygu Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

### **3 RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION**

- 3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Strategaeth Bum Mlynedd i hwyluso a hybu'r Gymraeg yn y sir o dan Safon 145 yr Hysbysiad Cydymffurfio sydd wedi'i gyhoeddi dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd y Strategaeth Bum Mlynedd gyntaf ei chymeradwyo yn 2016 a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor ar 30 Hydref 2016.
- 3.2 Yn rhan o'r Strategaeth Bum Mlynedd, rhaid i'r Cyngor:
  - 3.2.1 gosod targed canrannol ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ein hardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw (sef +6.8% ar hyn o bryd fel y cytunwyd yng nghyfarfod o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ym Mai 2018);
  - 3.2.2 adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar ei gwefan o fewn 5 mlynedd o gyhoeddi strategaeth;
  - 3.2.3 asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu'r strategaeth ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd o ran canran y siaradwyr yn ein hardal;
  - 3.2.4 cyhoeddi'r asesiad uchod ar ein gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys a) nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal, a'u hoedran; a, b) rhestr o'r gweithgareddau rydyn ni wedi'u trefnu neu'u hariannu yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- 3.3 Cafodd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Hwyluso a Hyrwyddo'r Gymraeg ei gymeradwyo gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ym mis Ionawr 2017. Nodwyd mai Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg oedd y grŵp priodol ar gyfer monitro cyflawniad y Cynllun Gweithredu.
- 3.4 O ran amserlen, gan fod y Cynllun Gweithredu bron â chyrraedd terfyn ei flwyddyn olaf, mae'n briodol i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ystyried cynnydd y cynllun a'i gymharu â'r targedau a'r camau sydd wedi'u nodi, a chytuno ar unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i sicrhau bod y cynllun yn parhau â'r amcanion sydd wedi'u nodi ar gyfer y cyfnod 2021-2026.
- 3.5 Bydd troi at sefydliad allanol sy'n arbenigo mewn cynllunio iaith i gynnal gwerthusiad annibynnol o effaith Cynllun Gweithredu 2016 - 2021 yn darparu asesiad diduedd a gwrthrychol i'r Aelodau, gan hefyd ddarparu argymhellion

mewn perthynas â meysydd i'w datblygu ymhellach a / neu eu gwella y gall Aelodau o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg eu hystyried wrth i'r Cynllun Gweithredu nesaf gael ei lunio.

#### **4. CEFNDIR**

- 4.1 Cafodd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu (Atodiad 1) eu datblygu yn ystod 2016 ar y cyd â Sbectrwm, sefydliad â phrofiad helaeth o gynllunio ieithyddol; Menter Iaith ac aelodau o Fforwm Iaith, Gwasanaethau'r Cyngor a Chynghorwyr.
- 4.2 Ymgynghorwyd â thrigolion er mwyn deall yr hyn a fyddai'n eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg a pha wasanaethau roedden nhw o'r farn yw'r rhai mwyaf pwysig o ran hybu'r iaith. Cawson nhw eu gwahodd i roi'u barn ynglŷn â pha weithgareddau fyddai'n cefnogi'r defnydd o'r iaith orau. Cafodd yr ymgynghoriad yma ei gynnal rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2016.
- 4.3 Roedd adborth yr ymgynghoriad yn hanfodol i ddatblygiad Cynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg, sy'n canolbwyntio ar:
- cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg 6.8% i 29,670 erbyn 2021;
  - cynyddu ei defnydd ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus
  - codi ymwybyddiaeth o'i phwysigrwydd yn rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad cymoedd De Cymru
- 4.4 Cafodd pwysigrwydd llunio Cynllun Gweithredu effeithiol i sicrhau gweithrediad llwyddiannus y strategaeth ei atgyfnerthu pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr iaith, Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, ym mis Gorffennaf 2017.
- 4.5 Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n ddwy ran:
- Mae Rhan 1 yn amlinellu'r gweithgareddau a'r targedau mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cyflawni naill ai drwy eu darparu'n uniongyrchol neu drwy gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau partner;
  - Mae Rhan 2 yn amlinellu'r gweithgareddau a'r targedau mae aelodau Fforwm Iaith yn gyfrifol am eu cyflawni yn unol â'u cytundebau cyllido gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth ar gyfer Hwyluso a Hybu'r Gymraeg.
- 4.6 Mae pob gweithgaredd a phob targed wedi'u pennu dan y themâu canlynol:

- Addysg - o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth uwchradd
  - Trosglwyddo'r iaith yn y cartref
  - Plant, phobl ifainc a theuluoedd
  - Gweithgareddau yn y Gymuned
  - Cymraeg yn y Gweithle
- 4.7 Cafodd ei gytuno gan Grŵp Llywio'r Gymraeg y Prif Swyddogion ar ddechrau Gorffennaf 2016 y dylai Prif Swyddog gael ei nodi ar gyfer pob cam gweithredu er mwyn sicrhau atebolrwydd.
- 4.8 Mae'r cynnydd sy'n ymwneud â llawer o'r targedau yma yn cael eu cofnodi yn ystod proses hunanwerthuso'r Cyngor, sy'n sicrhau cysondeb ar draws cynlluniau'r gwasanaethau heb ychwanegu at lwyth gwaith y gwasanaethau. Mae'r wybodaeth yna'n cael ei chynnwys yn rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

## **5. Y SEFYLLFA BRESENNOL A'R CYNNYDD**

- 5.1 Mae Atodiad 1 yn cynnwys gwybodaeth am y cynnydd hyd yma yn erbyn y targedau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu. Yn ystod cyfnod y cynllun, cafwyd cynnydd sylweddol ym meysydd rhai themâu, gyda rhai targedau eisoes wedi'u cyflawni o fewn eu hamserlenni.
- 5.2 Oherwydd effaith Covid-19, mae'n ddealladwy bod y cynnydd yn ystod 2020-2021 wedi bod yn gyfyngedig gydag adrannau yn canolbwyntio ar addasu'n gyflym i fodolau newydd o ddarparu gwasanaeth.
- 5.3 Fel yr oedd wedi'i nodi yn adroddiad y llynedd, mae'r targedau a gafodd eu cyflawni yn eu cyfanrwydd a/neu'r targedau sydd wedi'u hymgorffori ar gyfer y tymor hirach yn cynnwys y canlynol:
- Adleoli ysgolion cynradd neu adeiladu estyniadau i ysgolion cynradd er mwyn cynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion;
  - Llunio deunyddiau i annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant;
  - Arweiniodd datblygu Strategaeth ar y Cyd at y Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn defnyddio'r Gymraeg yn iaith ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a hamdden;
  - Sefydlu cyfres o weithdai, e.e. drama, ar gyfer gwahanol ddiddordebau ac ati;
  - Sefydlu Fforymau Defnyddio Iaith yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg;
  - Trefnu cyfres o weithgareddau cymdeithasol drwy'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg;

- Mae gweithgareddau Cymraeg wedi'u cynnwys yn rhan o'r arlwy dros wyliau ysgol e.e. drwy Wasanaeth y Llyfrgelloedd a Gwasanaeth y Celfyddydau;
- Mae hyfforddiant Hyrwyddwyr Iaith ar gael i staff Canolfannau Hamdden;
- Mae adroddiadau rheolaidd am gydymffurfiaid y Cyngor â Safonau'r Gymraeg yn cael eu llunio gan Swyddog Cydymffurfio – y Gymraeg
- Mae Strategaeth Sgiliau Iaith wedi'i datblygu ac yn cael ei rhoi ar waith;
- Cafodd archwiliad sgiliau iaith ei gynnal o fewn yr amserlen ofynnol. Cafodd rhaglen hyfforddi ei gweithredu ac mae'n cael ei darparu yn barhaus;
- Mae deunyddiau hyrwyddo, adnoddau ac ati wedi'u datblygu ac yn parhau i gael eu datblygu er mwyn meithrin parch tuag at ddwyieithrwydd;
- Mae mewnwyd y Cyngor yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio staff at adnoddau ac mae pob aelod o staff yn derbyn deunyddiau hyrwyddo drwy sawl cyfrwng - bydd hyn yn parhau;
- Mae dewis iaith pob aelod o staff y Cyngor wedi'i gofnodi, ac mae dewis iaith pob aelod staff newydd yn cael eu cofnodi wrth iddyn nhw ddechrau ar eu gyrfaedd gyda'r Cyngor;
- Mae cynlluniau sy'n meithrin amgylchedd lle mae defnyddio'r Gymraeg yn cael ei annog yn amlwg ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor ac mae llofnod e-bost ac ati yn ddwyieithog;
- Mae cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer cyfarfodydd mewnol. Mae cyfieithwyr y Cyngor wedi'u hyfforddi i ddarparu'r gwasanaeth yma a bydd penodiadau newydd i Wasanaethau Cymraeg yn cael eu hyfforddi.

5.4 Er gwaethaf effaith Covid-19, gwnaed rhywfaint o gynnydd da mewn perthynas â nifer o gamau gweithredu yn 2020-2021, gan gynnwys y canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin i gyflwyno 'Croesi'r Bont,' sy'n gynllun iaith i wella sgiliau iaith mewn meithrinfeydd. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod staff mewn cylchoedd chwarae ac athrawon ysgolion cynradd yn defnyddio'r un patrymau iaith. Y nod yw hwyluso'r broses bontio i addysg Gymraeg i blant o deuluoedd di-Gymraeg.

- Yn ogystal â hyn, gweithiodd Mudiad Meithrin gyda lleoliadau Blynyddoedd Cynnar i gyflwyno 'Clebran', sef pecyn cymorth iaith ar gyfer darparwyr addysg cofrestredig sy'n siarad Saesneg;
- Mae 12 o ymarferwyr Dechrau'n Deg bellach wedi cwblhau cyrsiau Dysgu Agored Cymraeg a 'Cymraeg Babi' ym Mhrifysgol De Cymru;
- Mae canran y lleoliadau Dechrau'n Deg sy'n darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg wedi dyblu
- Arweiniodd Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor ar y gwaith adolygu'r llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' i gyd-fynd â'n hymgyrch newydd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg statudol.
- Bydd Ysgol Gynradd Gymunedol Penderyn yn dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn llwyr o fis Medi 2021;
- Yn ddiweddar, ymgynghorodd y Cyngor ar agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ym Mhontypridd a fyddai'n golygu cynnydd o 93 o leoedd ar gyfer disgyblion yn y sector cyfrwng Cymraeg.
- Mae egwyddorion y Siarter Iaith yn gwreiddio'n dda mewn ysgolion. Mae pob ysgol gynradd Gymraeg wedi cael y wobwr efydd am y Siarter Iaith. Roedd 8 ohonyn nhw wedi cael y wobwr arian erbyn dechrau mis Mawrth 2020.
- Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, mae 15 ysgol wedi cael y wobwr efydd.
- Mae adnoddau wedi'u creu gan gonsortia rhanbarthol fel rhan o raglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu' Llywodraeth Cymru i gefnogi defnyddio Cymraeg anffurfiol ar yr aelwyd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau.
- Mae ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i chyfraniad at hanes a diwylliant Cymru yn cael ei hybu ym mhob ysgol trwy'r consortia.
- Mae Gwasanaethau Cyflogaeth wedi gweithio gyda menter Cymraeg i Oedolion i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hybu cyfleoedd i deuluoedd ymgysylltu â chyfleoedd i ddysgu Cymraeg.
- Mae Menter Iaith wedi ymgysylltu â 490 o deuluoedd i godi'u hymwybyddiaeth o'r iaith

- Mae gwirfoddolwyr Menter Iaith hefyd wedi darparu 4,450 o oriau gwirfoddoli
- Mae darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau ysgolion cynradd wedi parhau i gael ei hehangu dros y 12 mis diwethaf. Mae dau leoliad cyfrwng Cymraeg wedi symud i gyfleusterau pwrpasol newydd sbon
- Symudodd Gwasanaeth y Llyfrgelloedd nifer o'i weithgareddau cyfrwng Cymraeg ar-lein yn llwyddiannus yn ystod y pandemig, ac mae'r Gwasanaeth yn mynd ati'n rhagweithiol i hybu ei lyfrau Cymraeg i blant iau. Cynyddodd nifer y math yma o lyfrau a gafodd eu benthyg o 6,923 yn 2018/19 i 8,621 yn 2019/20.
- Yng Ngholeg y Cymoedd, gall staff fynychu'r Cynllun CYMRAEG GWAITH (pedair awr yr wythnos) neu'r sesiynau DPP arferol ar ystod o lefelau (dwy awr yr wythnos) yn ychwanegol at y ddau gwrs ar-lein mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn eu cynnig.
- Yn 2017-2018 roedd 5.69% o staff y Cyngor yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Yn 2018-2019 cododd y ffigur yma i 6.95% ac yn 2019-2020 cododd y ffigur yma i 7.92%.
- Cafodd ymgyrch Dysgu Cymraeg ei lansio ym mis Gorffennaf ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r adborth wedi bod yn dda ac mae'r niferoedd wedi bod yn galonogol. Bydd yr ymgyrch yma'n cael ei defnyddio'n dempled ar gyfer ymgyrchoedd eraill. Mae ein hymgyrch Dysgu Cymraeg yn cynnwys rhestr o gyrsiau i'w hyrwyddo i'r holl staff sydd ar gael yn y Cyngor ac yn y Gymuned. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff gyfleoedd i fanteisio ar gynifer o opsiynau ar gyfer dysgu Cymraeg â phosibl;
- Mae Gwasanaethau Cymraeg wedi gweithio gyda charfan RCT Source i baratoi'r modiwl e-ddysgu gorfodol sy'n trafod yr hyn mae angen i staff ei wneud mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau.
- Bellach mae Gwasanaethau Cymraeg hefyd wedi'u cynnwys yn rhan o'r sesiwn ymsefydlu rithwir ar gyfer staff newydd, a hynny drwy gyflwyniad byr i'r gwasanaeth i bawb sy'n cymryd rhan. Mae hyn yn

dangos y statws sy'n cael ei roi i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn ein sefydliad

## **6. CAMAU NESAF**

6.1 Mae'n werth nodi bod llawer iawn o waith wedi'i wneud gan wasanaethau'r Cyngor a Phartneriaid i geisio cyflawni'r targedau uchelgeisiol sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu. Yn rhan o'r Cynllun Gweithredu nesaf sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2021-2026, bydd angen canolbwyntio'n fanylach ar y meysydd lle mae llai o gynnydd wedi bod. Mae'n bosibl bydd angen:

- adolygu rhai o'r camau gweithredu sy'n bodoli eisoes i adlewyrchu amgylchiadau sydd wedi newid;
- sicrhau bod y Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu newidiadau a weithredwyd gan y Cyngor a / neu bartneriaid mewn perthynas â strwythur neu gyfrifoldebau sefydliadol;
- trafod ffyrdd i'r elfennau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid gael eu harolygu gyda Fforwm Iaith, a chytuno ar broses i fonitro cynnydd.

6.2 Byddai'r gwaith hwn yn cael ei wella'n fawr trwy benodi sefydliad allanol sydd â gwybodaeth a phrofiad arbenigol o gynllunio iaith a all gynnal asesiad o effaith y camau gweithredu a wnaed eisoes ac ystyried a oes angen gwneud mwy o waith, ac ym mha faes, gan y Cyngor a phartneriaid os ydyn ni am gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn y Strategaeth Hybu'r Gymraeg. Cafwyd budd mawr o weithio gyda chwmni Sbectrwm wrth ddatblygu a llunio'r Strategaeth wreiddiol a Chynllun Gweithredu 2016-21. Mae'n bwysig bod dull tebyg yn cael ei fabwysiadu wrth i ni edrych ymlaen tuag at y pum mlynedd nesaf.

## **7 GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

7.1 Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad yma.

## **8 YMGYNGHORI**

8.1 Cafodd proses ymgynghori ei chynnal cyn i Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu gael eu cymeradwyo yn 2017.

## **9 GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL**

9.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, fe fydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu. Byddai costau hefyd o ran penodi ymgynghorwyr allanol i werthuso'r cynllun, pe bai hynny'n cael ei gymeradwyo.



Gallai peidio â chydymffurfio â Safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

## **10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio maes y gwaith yma.

## **11. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â'R DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL.**

- 11.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016.
- 11.2 Mae Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg yn amlinellu'r gwaith gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau statudol o ran y Gymraeg a fydd yn cyfrannu at nod tymor hir Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r gwaith i gyflawni'r safonau hyn yn golygu cydweithio gyda phartneriaid a thrigolion i hwyluso ystod eang o gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau ledled y sir.
- 11.3 Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o Nod 6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at greu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg, os ydyn nhw'n dymuno.

## **12. CASGLIAD**

- 12.1 Mae'r gwaith yn erbyn meysydd allweddol o Gynllun Gweithredu Hyrwyddo'r Gymraeg yn mynd rhagddo'n dda, fel sydd wedi'i nodi yn adran 5 uchod. Fodd bynnag, canfuwyd bod rhai targedau yn heriol, a rhwystrowyd gwaith mewn rhai meysydd oherwydd effaith pandemig Covid-19 a chyflwyno cyfyngiadau symud lleol a chenedlaethol yn ystod 2020 - 21.
- 12.2 Byddai'n fuddiol cael gwerthusiad annibynnol o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma a thynnu sylw at feysydd y mae angen eu datblygu ymhellach wrth i ni weithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd nesaf.

Tudalen wag

## Cynllun Gweithredu i Hybu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf

Nod y Cynllun Gweithredu canlynol yw datblygu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid yn datblygu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf dros flynyddoedd lawer. Mae'n gynllun pum mlynedd sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg 3%
- cynyddu ei defnydd ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus
- codi ymwybyddiaeth o'i phwysigrwydd yn rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad cymoedd De Cymru

Mae'r Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu'r dull partneriaeth sy'n hanfodol i gyflawni'r nodau hyn. Mae dwy ran i'r Cynllun fel bod eglurder o ran swyddogaeth a chyfrifoldeb y Cyngor, a swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau o'r Fforwm Iaith ar gyfer cyflawni targedau.

**Mae Rhan 1** yn nodi'n fras y gweithgareddau a'r targedau y mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cyflawni, un ai drwy'u cyflenwi'n uniongyrchol neu drwy gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau partner;

**Mae Rhan 2** yn nodi'n fras y gweithgareddau a'r targedau y mae'r Fforwm Iaith yn gyfrifol am eu cyflawni o dan ei gytundebau ariannu gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

Cydnabyddir nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros weithgareddau a chyflawniad partneriaid fel y nodir yn Rhan 2 ond fe all y Cyngor fod mewn sefyllfa i gydweithio a chomisiynu aelodau o'r Fforwm Iaith i gyflenwi gweithgareddau ychwanegol er mwyn bwrw targedau'r Cyngor fel y nodir yn Rhan 1 o'r Cynllun Gweithredu.

Dylid nodi mai cyfrifoldeb y Cyngor yw'r strategaeth 5 mlynedd yn bennaf a'r Cyngor sy'n gyfrifol am ei rhoi hi ar waith yn unol â Safon 145 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg 2015.

## RHAN 1

| Maes Polisi  | Amcanion  | Gweithgaredd   | Targed erbyn 2021  | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl                  | Cynnydd hyd yn hyn   |
|--|---|--|--|-----------------------|-------------------------------------|--|
| Addysg –<br>Darpariaeth y<br>Blynyddoedd<br>Cynnar | Darparu<br>hyfforddiant<br>Cymraeg a gofal<br>plant priodol ar<br>gyfer ymarferwyr<br>y blynyddoedd<br>cynnar er mwyn<br>cynyddu<br>darpariaeth | Gweithio gyda<br>phrosiect <i>Cam<br/>wrth Gam</i> sy'n<br>cyflwyno Diploma<br>Lefel 3 mewn<br>Gofal, Dysg a<br>Datblygiad Plant | Sicrhau bod 10<br>gweithiwr gofal<br>plant o RCT a'r<br>ardal gyfagos<br>yn cael eu<br>hyfforddi'n<br>flynyddol ac yn<br>cael<br>cymwysterau | Dechrau'n Deg         | 'Cam wrth Gam'<br>(Mudiad Meithrin) | <u>Cam wrth Gam</u><br><br>Ar hyn o bryd dyw<br>Cam Wrth Gam<br>ddim yn gweithio<br>gydag ysgolion<br>RhCT - mae cost<br>yn gysylltiedig â'r<br>cynllun ac efallai<br>bod angen<br>darparu cymorth<br>ariannol<br>ychwanegol i'r |

| Maes Polisi | Amcanion           | Gweithgaredd | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|--------------------|--------------|-------------------|-----------------------|--------------------|--|
|             | cyfrwng<br>Cymraeg |              | perthnasol        |                       |                    | <p>ysgolion er mwyn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i gymhwyso.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae un prentis o RCT ar hyn o bryd ar y Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol a chynlluniau hyfforddi Cam Wrth Gam.</li> </ul> <p><u>Cynllun Croesi'r Bont / Clebran</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dechreuodd RhCT Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda Mudiad Meithrin yn ystod 2019 ar gyfer hyfforddi</li> </ul> |

| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd | Targed erbyn<br>2021 | Gwasanaethau'r<br>Cyngor | Partneriaid<br>posibl | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|----------|--------------|----------------------|--------------------------|-----------------------|--|
|             |          |              |                      |                          |                       | <p>RCT REPS<br/>(Darparwyr<br/>Addysg<br/>Gofrestredig).<br/>Mae'r fethodoleg<br/>yn defnyddio<br/>patrymau iaith<br/>pendant ar gyfer<br/>arferion<br/>beunyddiol a<br/>meysydd dysgu,<br/>caneuon gyda<br/>phatrymau iaith<br/>clir ac asesiadau<br/>sylfaenol gydag<br/>asesiadau pob<br/>tymor o sgiliau<br/>deall, dysgu a<br/>lleferydd plant.</p> |

| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|----------|--------------|-------------------|-----------------------|--------------------|--|
|             |          |              |                   |                       |                    | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn ogystal â hynny, darparwyd cefnogaeth iaith ar gyfer REPS Saesneg trwy gynllun 'Clebran' Mudiad Meithrin.</li> <li>• Mae COVID 19 wedi effeithio ar y ddau gynllun iaith. Rydyn ni'n trafod parhad y ddau gynllun gyda Swyddogion RhCT ar hyn o bryd.</li> </ul> |

| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|----------|--------------|-------------------|-----------------------|--------------------|---|
|             |          |              |                   |                       |                    | <ul style="list-style-type: none"> <li data-bbox="1749 352 2024 783">• Cyrhaeddodd 10 darparwr wedi'i gomisiynu trwy raglen Dechrau'n Deg (Cyfrwng Cymraeg) gwrs Croesi'r Bont a gyflwynwyd gan Mudiad Meithrin.</li> <li data-bbox="1749 863 2024 1294">• Mae 12 o ymarferwyr Dechrau'n Deg bellach wedi cwblhau cyrsiau Dysgu Agored Cymraeg a 'Cymraeg Babi' ym Mhrifysgol De</li> </ul> |



| Maes Polisi | Amcanion   | Gweithgaredd  | Targed erbyn 2021  | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl  | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|--|---|--|-----------------------|---|--|
|             |  |   |  |                       |   | Cymru.   |
|             | Cynyddu nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth blynyddoedd cynnar gyfrwng Cymraeg (CC) | Gweithio gyda'r Mudiad Meithrin a Dechrau'n Deg i hybu manteision addysg ac addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg. | Cynyddu nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg (CC) 50% | Dechrau'n Deg         | Mudiad Meithrin Cymraeg i Blant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Mudiad Meithrin yn archwilio cysylltiadau agosach â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a charfan Dechrau'n Deg yn RhCT er mwyn gweithio ar y cyd, yn benodol i ddelio â hyrwyddo manteision gofal plant ac addysg</li> </ul> |

| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|----------|--------------|-------------------|-----------------------|--------------------|---|
|             |          |              |                   |                       |                    | <p>cyfrwng Cymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li data-bbox="1749 400 2051 1193">Cynhaliwyd cyfarfodydd rhithwir rhwng Mudiad Meithrin a swyddogion RhCT i drafod gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Cylchoedd Meithrin newydd o fewn RhCT gan ddefnyddio Grantiau Cyfalaf Cymraeg 2050 a Chynllun 'SAS' Mudiad Meithrin.</li> <li data-bbox="1749 1267 1921 1299">Canran y</li> </ul> |

| Maes Polisi | Amcanion   | Gweithgaredd   | Targed erbyn 2021  | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl                                       | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|--|--|--|-----------------------|--|---|
|             |  |  |  |                       |  | <p>Ileoliadau Dechrau'n Deg sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi o:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 12% yn 2016/17 i</li> <li>• 24% yn 2018/19</li> <li>• Cynnydd o 100% rhwng 2016/17 a 2019/20.</li> </ul> |
|             | Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn grwpiau chwarae a meithrinfeydd | Cynnwys y Gymraeg mewn gweithgareddau chwarae i sefydlu patrymau | Nodi o leiaf 10 grŵp chwarae / meithrinfa oriau dydd sy'n gallu cyflwyno | Dechrau'n Deg         | CPA Cymru (Blynyddoedd Cynnar Cymru); PACEY, NDNA Cymru; | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall Mudiad Meithrin gynnis cefnogaeth 'Clebran' i leoliadau</li> </ul>  |

| Maes Polisi             | Amcanion   | Gweithgaredd   | Targed erbyn 2021   | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl                                    | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------------------|--|--|---|-----------------------|---|---|
|                         | oriau dydd cyfrwng Saesneg yn bennaf                           | llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn Gymraeg                            | geiriau, brawddegau a phatrymau a chaneuon sylfaenol yn Gymraeg |                       |   | Dechrau'n Deg yn ôl yr angen (gweler manylion y Cymorth a roddir o dan CLG ar gyfer REPS uchod) - 8 Cychwynnodd darparwyr Dechrau'n Deg (Dwyieithog) a gomisiynwyd y ddarpariaeth hon ym 19/20. |
| Addysg – Sector Cynradd | Lansio ymgyrch marchnata eang i hybu manteision addysg cyfrwng | Dosbarthu taflen 'Bod yn Ddwyieithog' a chreu offer marchnata eraill i | Lansio ymgyrch marchnata ar ddechrau 2017 a chynllunio          | Gwasanaethau Cymraeg  | Menter Iaith Yr Urdd RhAG; Fforwm Iaith; Bwrdd Iechyd | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn arwain ar y gwaith</li> </ul>   |

| Maes Polisi | Amcanion                        | Gweithgaredd  | Targed erbyn 2021   | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|---------------------------------|---|---|-----------------------|--------------------|--|
|             | Cymraeg a buddion dwyieithrwydd | gynyddu'r niferoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg | cyfres o ddigwyddiadau cyhoedduswydd a gweithgareddau parhaus o un flwyddyn i'r llall |                       | Cwm Taf Morgannwg  | adolygu'r llyfryn fel ei fod yn ddwyieithog i gydfynd â'n hymgyrch newydd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg statudol. Mae Gwasanaethau Cymraeg wedi ymgynghori â phartneriaid cymunedol trwy ein Fforwm Iaith i gael eu mewnbwn ynghyd â sicrhau cymorth y Gwasanaethau Cofrestru ym |

| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd  | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|----------|---------------|-------------------|-----------------------|--------------------|--|
|             |          |               |                   |                       |                    | <p>Merthyr Tudful a RhCT i ddosbarthu'r llyfryn i bob plentyn sydd wedi'i gofrestru yn eu hardaloedd.</p> <p>Mae Menter Iaith hefyd wedi cynnig cefnogaeth i gynrychiolwyr y Cyngor ar ail-ddylunio'r llyfryn presennol cyn mynd ati i'w ddosbarthu eto.</p> |
|             | Cynyddu  | Adleoli Ysgol | 60 lle            | Addysg                | Ysgol              | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Tonyrefail</li> </ul>   |

| Maes Polisi | Amcanion   | Gweithgaredd  | Targed erbyn 2021          | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|--|---|----------------------------|-----------------------|--------------------|--|
|             | capasiti ysgolion cynradd<br>Cymraeg mewn lleoliadau allweddol         | Gymraeg<br>Tonyrefail i safle presennol Ysgol Gynradd<br>Tonyrefail                   | ychwanegol                 |                       |                    | wedi bod yn manteisio ar gyfleusterau newydd eu hadnewyddu a gwell ers mis Medi 2018. Cynyddodd y capasiti 120 (ffynhonnell: Adroddiad y Cabinet 9/4/19)<br><br>Wedi'i gwblhau |
|             | Cynyddu capasiti ysgolion cynradd<br>Cymraeg mewn lleoliadau allweddol | Ymestyn Ysgol Gymraeg<br>Llwyncelyn i safle Ysgol Babanod<br>Llwyncelyn sydd gyferbyn | 100 lle ychwanegol o leiaf | Addysg                | Ysgol              | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhawyd yr estyniad yn 2018 fel y cynlluniwyd. Gwnaed gwelliannau pellach yn haf 2019.</li> </ul>                                     |

| Maes Polisi | Amcanion  | Gweithgaredd   | Targed erbyn 2021  | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl   | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|---|--|--|-----------------------|----------------------|---|
|             |   |  |  |                       |                      | <p>Cynyddodd y capasiti 100 (ffynhonnell: Adroddiad y Cabinet 9/4/19)</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>   |
|             | Ystyried effeithiau datblygiadau tai newydd ar dwf addysg cyfrwng Cymraeg | Cynllunio ar gyfer y cynnydd tebygol yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd datblygu | Llunio cynlluniau wrth gefn mewn ardaloedd wedi eu targedu yn arbennig yn ne'r sir | Addysg                | Adfywio a Chynllunio | <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y Gwasanaeth Addysg yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr o'r adran Rheoli Datblygu i sicrhau ein bod yn cymryd rhan yn y camau</li> </ul> |



| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd | Targed erbyn<br>2021 | Gwasanaethau'r<br>Cyngor | Partneriaid<br>posibl | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|----------|--------------|----------------------|--------------------------|-----------------------|---|
|             |          |              |                      |                          |                       | <p>cynllunio ar gyfer datblygu tai newydd ar y cyfle cyntaf posibl. Unwaith ein bod ni'n sicr bod datblygiad yn mynd rhagddo a bod cytundeb o ran nifer y cartrefi sy'n cael eu hadeiladu, mae asesiad o'r effaith ar yr ysgolion presennol yn yr ardal yn cael ei gynnal, er mwyn deall a fydd diffyg llefydd mewn</p> |

| Maes Polisi | Amcanion                     | Gweithgaredd                                | Targed erbyn 2021                     | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|------------------------------|---|---------------------------------------|-----------------------|--------------------|--|
|             |                              |   |                                       |                       |                    | <p>ysgolion, ac ym mha sector addysg y bydd hynny. Yna, bydd yr achos busnes gofynnol ar gyfer y cyllid i ddarparu llefydd ysgol newydd, a all fod yn estyniadau i'r ysgolion presennol neu ddarparu rhai newydd, yn cael eu paratoi.</p> <p><b>Yn parhau.</b></p> |
|             | Ymateb i ymgyrch Llywodraeth | Cyflwyno'r Gymraeg fel prif gyfrwng addysgu | Trafod y posibiliadau o gynnal peilot | Addysg                | Ysgolion           | <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd Ysgol Gynradd Gymunedol</li> </ul>   |

| Maes Polisi | Amcanion   | Gweithgaredd   | Targed erbyn 2021  | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|--|--|--|-----------------------|--------------------|---|
|             | Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 | yn y Cyfnod Sylfaen mewn rhai ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg | o'r cynllun mewn 5 ysgol gynradd i ddatblygu sgiliau dwyieithog plant yn y Cyfnod Sylfaen dros y 5 mlynedd nesaf |                       |                    | <p>Penderyn yn dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn llwyr o fis Medi 2021;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae RhCT hefyd yn cynyddu cyfanswm capasiti Ysgol Gynradd Dolau (ysgol ddwy iaith) i 921, ynghyd â 124 o leoedd meithrin rhan-amser, gan ddyblu'r lleoedd ar gyfer addysg Gymraeg, yn dibynnu ar ddewis rhieni.</li> </ul> |

| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|----------|--------------|-------------------|-----------------------|--------------------|---|
|             |          |              |                   |                       |                    | <ul style="list-style-type: none"> <li data-bbox="1749 352 2033 1043">• Mae Swyddogion Addysg yn y broses o gwblhau dyluniad yr estyniad newydd hwn gyda'r datblygwr tai Persimmon, ac mae disgwyl i gydsyniad cynllunio gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio yn fuan.</li> <li data-bbox="1749 1118 2033 1302">• Yn ddiweddar, ymgynghorodd y Cyngor hefyd ar agor ysgol</li> </ul> |

| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd | Targed erbyn<br>2021 | Gwasanaethau'r<br>Cyngor | Partneriaid<br>posibl | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|----------|--------------|----------------------|--------------------------|-----------------------|---|
|             |          |              |                      |                          |                       | <p>gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ym Mhontypridd fel rhan o gynigion ehangach i drefniadaeth ysgolion. Byddai hyn yn gweld cynnydd yng nghapasiti ysgolion cynradd, gan ychwanegu 93 o leoedd i ddisgyblion ac yn gwella'r cynnig cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn sylweddol. Mae'r cynigion hyn yn</p> |

| Maes Polisi | Amcanion  | Gweithgaredd   | Targed erbyn 2021  | Gwasanaethau'r Cyngor       | Partneriaid posibl                                     | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|---|--|--|-----------------------------|--|---|
|             |   |  |  |                             |  | <p>destun her gyfreithiol ar hyn o bryd ac felly byddwn ni'n darparu diweddariad pellach ar hyn maes o law.</p>   |
|             | <p>Datblygu Siarter iaith sydd yn annog y defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ac yn y gymuned</p> | <p>Addasu'r Siarter iaith lwyddiannus a weithredwyd gan AALlau Gwynedd a Sir Gaerfyrddin</p> | <p>Datblygu Siarter iaith ar gyfer disgyblion sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith</p> | <p>Gwasanaethau Cymraeg</p> | <p>Consortiwm Canolbarth y De Menter iaith Yr Urdd</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae egwyddorion y Siarter iaith yn gwreiddio'n dda mewn ysgolion. Mae pob ysgol gynradd Gymraeg wedi cael y wobr efydd. Roedd 8 ohonyn nhw wedi</li> </ul> |

| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd | Targed erbyn<br>2021 | Gwasanaethau'r<br>Cyngor | Partneriaid<br>posibl | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|----------|--------------|----------------------|--------------------------|-----------------------|---|
|             |          |              |                      |                          |                       | <p>cael y wobr arian erbyn dechrau mis Mawrth 2020.</p> <p>Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, mae 15 ysgol wedi cael y wobr efydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i hyrwyddo'r siarter mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, ac mae pob un wedi derbyn hyfforddiant cychwynnol. Mae Ysgol Gymunedol</p> |

| Maes Polisi | Amcanion                                  | Gweithgaredd                                  | Targed erbyn 2021             | Gwasanaethau'r Cyngor                 | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|---|---|-------------------------------|---------------------------------------|--------------------|--|
|             |   |   |                               |                                       |                    | ymgyrch gymunedol hefyd, ar ôl gwaith partneriaeth helaeth gyda'n partner cymunedol strategol Dysgu Cymraeg Morgannwg , ond chafodd hyn mo'i hyrwyddo gan y Garfan Cyfryngau Cymdeithasol Corfforaethol. |
|             | Galluogi staff ac Aelodau Etholedig i fod | Trefnu rhaglen o hyfforddiant Ymwybyddiaeth a | Cytuno ar raglen hyfforddiant | Gwasanaethau Cymraeg Gwasanaethau i'r | Pob gwasanaeth     | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Gwasanaethau Cymraeg wedi</li> </ul>  |

| Maes Polisi | Amcanion   | Gweithgaredd  | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor     | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|--|---|-------------------|---------------------------|--------------------|--|
|             | yn ymwybodol o hanes a diwylliant y Gymraeg yn cynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg | Chydymffurfio yn ymwneud â'r Gymraeg a'i chynnwys wrth sefydlu staff newydd | erbyn Ionawr 2017 | Aelodau<br>Adnoddau Dynol |                    | <p>gweithio gyda charfan RCT Source i baratoi'r modiwl e-ddysgu gorfodol mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau. Mae hwn i'w lansio yn ystod Chwarter 2/3.</p> <p><b>Bellach mae Gwasanaethau Cymraeg hefyd wedi'u cynnwys yn rhan o'r sesiwn ymsefydlu rithwir ar gyfer staff</b></p> |

| Maes Polisi | Amcanion   | Gweithgaredd   | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|--|--|-------------------|-----------------------|--------------------|---|
|             |  |  |                   |                       |                    | newydd, a hynny drwy gyflwyniad byr i'r gwasanaeth i bawb sy'n cymryd rhan.   |
|             | Creu amgylchedd sydd yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg | Creu adnoddau, deunydd hyrwyddo ac effeithiau gweledol sy'n hybu'r defnydd o'r iaith ac yn meithrin parch tuag at ddwyieithrwydd | Parhaus           | Pob gwasanaeth        |                    | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae adnoddau mewn sawl ffurf wedi cael eu datblygu i annog pobl i ddefnyddio eu sgiliau dwyieithog. Yn ystod 2019-2020 cynhyrchwyd y canlynol - Llawlyfr Arwyddion Ystadau a Gwaith Cyngor RhCT</li> </ul> |

| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|----------|--------------|-------------------|-----------------------|--------------------|---|
|             |          |              |                   |                       |                    | <p>- Cyflwynwyd ap Gofalu trwy'r Gymraeg i holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i helpu gyda'u sgiliau iaith.</p> <p>- Dathlwyd Diwrnod Shwmae a Dydd Gŵyl Dewi gyda boreau coffi ar safleoedd y Cyngor gyda chefnogaeth fawr gan bobl ddi-Gymraeg a siaradwyr Cymraeg.</p> |

| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|----------|--------------|-------------------|-----------------------|--------------------|--|
|             |          |              |                   |                       |                    | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dathlwyd Diwrnod Owain Glyndwr trwy wahodd bron i 200 o blant ysgol i'n llyfrgelloedd i ddysgu am hanes Glyndwr trwy sesiynau adrodd straeon yn Gymraeg a Saesneg. 'BOG Standards' – cyfres o ymadroddion sylfaenol sydd wedi'u sillafu'n ffonetig i bobl eu hymarfer wedi'u lleoli mewn</li> </ul> |

| Maes Polisi | Amcanion   | Gweithgaredd       | Targed erbyn 2021  | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl   | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|--|--------------------|--------------------|-----------------------|----------------------|---|
|             |  |                    |                    |                       |                      | <p>toiledau ar draws yr awdurdod lleol.</p> <p>Posterï - Cofiwch ddechrau eich sgwrs gyda 'Shwmae, Bore Da neu Prynawn Da' i atgoffa staff yn ddyddiol.</p> |
|             | Darparu cymorth mewnwyd ar gyfer siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg | ac offer cyfieithu | ac offer cyfieithu | Gwasanaethau Cymraeg  | Technoleg Gwybodaeth | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r fewnwyd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd i gynnwys y canllawiau a'r adnoddau diweddaraf.</li> </ul>           |

| Maes Polisi | Amcanion   | Gweithgaredd  | Targed erbyn 2021  | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl  | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|--|---|--|-----------------------|---|--|
|             |  |   |  |                       |   |  |
|             | Darparu cymorth mewnwyd ar gyfer siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg | Datblygu'r fewnrwyd i gyfeirio staff i gyrsiau a gweithgareddau Cymraeg yn y gymuned. | Wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2017 a'i ddiweddarau'n barhaus | Gwasanaethau Cymraeg  | Menter Iaith Prifysgol De Cymru Canolfan Cymraeg i Oedolion | <ul style="list-style-type: none"> <li>Roedd ein hymgyrch Dysgu Cymraeg yn cynnwys rhestr o gyrsiau a gafodd ei hyrwyddo i'r holl staff. Roedd y rhestr yn gwbl integredig, gan gynnwys y Cyngor a'r Gymuned yn rhan ohoni. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod modd i'r staff gyrchu cynifer o wersi â</li> </ul> |



| Maes Polisi | Amcanion   | Gweithgaredd   | Targed erbyn 2021                     | Gwasanaethau'r Cyngor          | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|--|--|---------------------------------------|--------------------------------|--------------------|---|
|             |  |  |                                       |                                |                    | phosib.   |
|             | Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle | Asesu hoffterau iaith mewn perthynas â gweithrediadau mewnol:-<br>gohebiaeth;<br>ffurflenni;<br>cwynion;<br>adolygiadau perfformiad;<br>anghenion hyfforddiant;<br>polisiau staff, cyfarfodydd mewnol ac ati | Asesiad i'w gwblhau erbyn Mawrth 2017 | Adnoddau Dynol                 | Pob gwasanaeth     | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dewis iaith staff presennol ar gof a chadw'r rhwydwaith mewnol ac yn cael ei nodi'n syth bin yn achos staff newydd.</li> </ul> |
|             | Hybu cynlluniau sydd yn dangos yn weledol bod y  | Parhau i ddatblygu mentrau sy'n creu   | Parhaus                               | Gwasanaethau Cymraeg Technoleg | Pob gwasanaeth     | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Mail-tip wedi cael ei awdurdodi gan TGCh a'n</li> </ul>  |

| Maes Polisi | Amcanion                                   | Gweithgaredd  | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|--|---|-------------------|-----------------------|--------------------|--|
|             | Gymraeg yn cael ei chroesawu yn y gweithle | amgylchedd sy'n meithrin y defnydd o'r Gymraeg gan staff, e.e. bathodynau, posteri, cortynnau gweddf, logo defnyddio <i>Cymraeg</i> ar gyfer e-bost a mewnrwyd, llofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa |                   | Gwybodaeth            |                    | cydweithwyr GDPR a bydd yn cael ei gyflwyno yn ystod Chwarter 3. Bydd yr holl ddechreuwyd newydd yn cael eu hychwanegu trwy gais i wasanaeth TGCh gan Wasanaethau Cymraeg. |
|             | Dosbarthu deunydd hybu'r Gymraeg ymysg     | <ul style="list-style-type: none"> <li>Sut i gael cyfieithiad</li> <li>Llyfryn</li> </ul>   | Parhaus           | Gwasanaethau Cymraeg  |                    | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ein mewnrwyd yn cynnwys lefel</li> </ul>  |

| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd   | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|----------|--|-------------------|-----------------------|--------------------|--|
|             | staff    | <p>canllawiau staff – <i>Welsh Beth sydd wedi newid?</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bathodynau, cortynnau gwddf, posteri</li> <li>• Llyfryn TGCh: <i>Cymorth ar flaen dy fysedd</i></li> <li>• Prosbectws Cymraeg i Oedolion</li> <li>• Matiau llygoden</li> <li>• Llyfryn 'Bod yn ddwyieithog'</li> </ul> |                   |                       |                    | <p>Sgiliau Cymraeg wrth ymyl enw'r person yn y cyfeirlyfr staff.</p> <p>Efallai y bydd y Gwasanaeth yn ceisio datblygu cylchlythyr chwarterol, mewn ymateb i'n hamgylcheddau gwaith newydd a'r diffyg lleoliadau i hyrwyddo gweithgareddau ynddynt, er mwyn cyfathrebu'n well â'n staff.</p> |

| Maes Polisi | Amcanion  | Gweithgaredd   | Targed erbyn 2021   | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|---|--|---|-----------------------|--------------------|---|
|             |   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Taflen gryo negeseuon corfforaethol</li> </ul>                                    |   |                       |                    |   |
|             | Datblygu hyder yn defnyddio Cymraeg ysgrifenedig                                    | Gosod Cysill a Chysgeir (gwirwyr iaith a gramadeg Cymraeg) ar gyfrifiaduron ac iPads yr holl staff a'r Aelodau Etholedig | Pob pecyn cyfrifiadurol wedi ei osod ac yn weithredol erbyn mis Mawrth 2017 | Technoleg Gwybodaeth  | Pob gwasanaeth     | WEDI'I GWBLHAU  |
|             | Datblygu rhyngwyneb a dewislenni dwyieithog ar y fewnwyd a rhyngwyneb dwyieithog ar | Cysylltu ag awdurdodau lleol eraill i ymchwilio i fuddsoddiad ar y cyd i ddatblygu rhyngwynebau dwyieithog               | Gosod rhyngwynebau dwyieithog erbyn Medi 2017                               | Technoleg Gwybodaeth  | Gofal i Gwsmeriaid | <ul style="list-style-type: none"> <li>Lansiwyd Inform yn ddiweddar ynghyd â sgriniau dewis iaith ar ein holl wefannau corfforaethol</li> </ul> <p>Wedi'i gwblhau</p> |

| Maes Polisi | Amcanion  | Gweithgaredd   | Targed erbyn 2021                              | Gwasanaethau'r Cyngor  | Partneriaid posibl                              | Cynnydd hyd yn hyn   |
|-------------|---|--|--|--|---|--|
|             | gyfer rhaglenni'r we  |  |  |  |   | Mae'r gwaith eto i'w gwblhau gyda phartneriaid allanol i sicrhau bod yr holl gynnwys a gwasanaethau yn ddwyieithog.  |
|             | Annog staff ac Aelodau Etholedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol ac mewn cyflwyniadau | Darparu hyfforddiant ar sgiliau cyflwyno yn Gymraeg ac archwilio elfennau ymarferol darparu cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd mewnol | Llunio rhaglen hyfforddi erbyn mis Mawrth 2017 | Gwasanaethau Cymraeg<br>Gwasanaethau i'r Aelodau<br>Adnoddau Dynol | Canolfan Cymraeg i Oedolion, Prifysgol De Cymru | <ul style="list-style-type: none"> <li>Hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i Gynghorwyr newydd a staff yn ystod rhaglenni ymsefydlu yn parhau.</li> </ul> <p>Cyfieithu ar y pryd ar gael mewn</p> |

| Maes Polisi | Amcanion | Gweithgaredd | Targed erbyn 2021 | Gwasanaethau'r Cyngor | Partneriaid posibl | Cynnydd hyd yn hyn  |
|-------------|----------|--------------|-------------------|-----------------------|--------------------|---|
|             |          |              |                   |                       |                    | cyfarfodydd<br>Pwyllgor y Cyngor<br>a chyfarfodydd<br>eraill yn ôl y gofyn. |

## RHAN 2

| Maes Polisi  | Amcanion  | Gweithgaredd   | Targed erbyn 2021  | Partner Arweiniol | Partneriaid posibl  | Cynnydd hyd yma (Awst 2019)   |
|--|---|--|--|-------------------|---|---|
| Addysg –<br>Darpariaeth y<br>Blynyddoedd<br>Cynnar | Cynyddu nifer y<br>Cylchoedd Ti a<br>Fi a'r Cylchoedd<br>Meithrin | Gweithio gyda'r<br>Mudiad Meithrin a<br>Dechrau'n Deg i<br>sicrhau bod<br>darpariaeth ar<br>gael ac yn hawdd<br>ei chyrraedd i'r<br>holl brif<br>ganolfannau | Cynyddu nifer<br>y Cylchoedd Ti<br>a Fi a'r<br>Cylchoedd<br>Meithrin 50% | Mudiad Meithrin   | Dechrau'n Deg;<br>Gwasanaeth<br>Gwybodaeth i<br>Deuluoedd | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn cynnal trafodaethau â Mudiad Meithrin i agor meithrinfa newydd yn RhCT fel rhan o'u prosiect Sefydlu a</li> </ul> |

|  |  |            |  |  |  |  |
|--|--|------------|--|--|--|--|
|  |  | poblogaeth |  |  |  | <p>Symud - Sefydlu a Llwyddo (SAS).</p> <p><b><u>Mudiad Meithrin</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r bwriad o weithio mewn partneriaeth â Swyddogion RhCT i ddatblygu Cylchoedd Meithrin newydd o dan y Cynllun SAS a ariennir gan Lywodraeth Cymru.</li> <li>• Rydym ni'n gweithio gyda darparwr Cyfrwng Saesneg sy'n</li> </ul> |
|--|--|------------|--|--|--|--|

|  |  |  |  |  |  |   |
|--|--|--|--|--|--|---|
|  |  |  |  |  |  | <p>dymuno datblygu Cylch Meithrin newydd mewn RhCT.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Oherwydd Covid 19, dyw Cylchoedd Ti a Fi ddim yn rhedeg ar hyn o bryd. Mae gennym ni Swyddog Ti a Fi peripatetig yn RhCT. Anogir preswylwyr RhCT i ddilyn sesiynau rhithwir 'Ti a Fi Rhithiol De Ddwyrain' a Swyddog Ti a Fi Teithiol Rhondda Cynon Taf (Emma</li></ul> |
|--|--|--|--|--|--|---|



|  |   |   |   |                                |                        |   |
|--|---|---|---|--------------------------------|------------------------|---|
|  |   |   |   |                                |                        | <p>Williams (Ti a Fi RCT) ar Facebook.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Ti a Fi Am Dro - (sesiynau awyr agored) wedi'u cynnal yn ystod Hydref 2020 yn RhCT</li> </ul> |
|  | <p>Cynyddu nifer y Sesiynau Rhianta/Teuluoedd sy'n cael eu cynnal gan gynllun 'Cymraeg i Blant'</p> | <p>Cynyddu nifer y rhieni sy'n anfon eu plant i addysg CC</p> | <p>Cynyddu nifer y Sesiynau Rhianta / Teuluoedd 50%</p> | <p>Cynllun Cymraeg i Blant</p> | <p>Mudiad Meithrin</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweler y wybodaeth isod o dan drosglwyddo iaith</li> </ul>   |
|  | <p>Darparu</p>  | <p>Trefnu sesiynau</p>  | <p>Pob cylch</p>  | <p>Canolfan</p>                | <p>CPA Cymru</p>       | <p>Cynhaliodd Dysgu</p>   |

|  |   |  |   |  |  |   |
|--|---|--|---|--|--|---|
|  | hyfforddiant iaith sylfaenol ar gyfer gweithwyr mewn lleoliadau Saesneg yn bennaf | iaith sy'n briodol ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar | chwarae a meithrinfa gofal oriau dydd i gael cyfle i fynychu hyfforddiant iaith | Cymraeg i Oedolion, Prifysgol De Cymru | (Blynyddoedd Cynnar Cymru); PACEY, NDNA Cymru; Dechrau'n Deg | <p>Cymraeg Morgannwg brosiect yn 2018/19 mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin, 'Mentor Meithrin' lle cynigiwyd hyfforddiant iaith i staff plant meithrin lleol ynghyd â mentora ar y safle.</p> <p>Disodlodd y prosiect hwn y prosiect, '1,2,3 Hwyl a Sbri' a gydlynwyd gan Dysgu Cymraeg Morgannwg a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru lle darparwyd cyrsiau Cymraeg 10 wythnos i ymarferwyr meithrinfeydd ledled Cymru sy'n ymdrin ag iaith a themâu sylfaenol addysg y</p> |
|--|---|--|---|--|--|---|

|                       |  |  |   |                 |               |  |
|-----------------------|--|--|---|-----------------|---------------|--|
|                       |  |  |   |                 |               | blynyddoedd cynnar.  |
|                       | Gwella cynnydd iaith o Gylchoedd Meithrin i addysg Cyfrwng Cymraeg | Rhoi gwybodaeth i rieni am fuddion addysg cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer staff Meithrin | Cynyddu dilyniant iaith o Gylchoedd Meithrin i ysgolion CC i 90%                                      | Mudiad Meithrin | Dechrau'n Deg | Graddfa gynnydd yn RhCT:<br>2016-2017 : 68.9%<br>2017-2018 : 68.0%<br>2018-2019 : 70.5%<br>2019-2020: 72.1%  |
| Sector Addysg Bellach | Cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Ngholeg y Cymoedd          | Datblygu unedau 'Iaith ar Waith' ym maes Gofal i Gwsmeriaid ar gyfer meysydd dysgu eraill                      | Cysoni darpariaeth mewn Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Arlwy a Thwristiaeth a'i hymestyn i | Coleg y Cymoedd | Colegau Cymru | <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn 2019 - 20, darparwyd unedau Iaith ar Waith (Gofal Cwsmeriaid Cymraeg) mewn Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Arlwy, Busnes,</li> </ul> |

|  |  |  |  |  |  |  |
|--|--|--|--|--|--|--|
|  |  |  | Ddiwydiannau<br>Creadigol,<br>Peirianeg ac<br>Adeiladu |  |  | Teithio a<br>Thwristiaeth, Y<br>Diwydiannau<br>Creadigol,<br>Peirianeg,<br>Adeiladu, Trin<br>Gwallt, Harddwch,<br>Gwasanaethau<br>Cyhoeddus a<br>Chwaraeon<br>cyrsiau. Er<br>gwaethaf cau'n<br>gynnar oherwydd<br>COVID, enillodd<br>542 o ddysgwyr<br>gymhwyster uned<br>achrededig CBAC<br>ar Lefel Mynediad<br>3, Lefel 1 neu<br>Lefel 2 yn y<br>cyrsiau hyn. |
|--|--|--|--|--|--|--|

|  |   |   |   |                 |               |   |
|--|---|---|---|-----------------|---------------|---|
|  |   |   |   |                 |               | Mae cludo wedi'i drefnu ar gyfer y cyrsiau uchod ynghyd â Pheirianneg Modurol yn '20 - 21.  |
|  | Cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Ngholeg y Cymoedd | Datblygu darpariaeth ddwyieithog mewn rhai cyrsiau prif ffrwd e.e. Busnes, Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Sicrhau bod unedau CC ar gael mewn pum maes pwnc o leiaf erbyn 2021 | Coleg y Cymoedd | Colegau Cymru | <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn 2019-20, cyflwynodd y Gymraeg wersi Bagloriaeth Cymru trwy gyfrwng UG ac A2 yn y Ganolfan Lefel 'A') gan arwain at gymhwyster Dwyieithog yn gyffredinol). Rhedodd dosbarth ail-sefyll Mathemateg</li> </ul> |

|  |  |   |  |                 |                  |   |
|--|--|---|--|-----------------|------------------|---|
|  |  |   |  |                 |                  | TGAU cyfrwng Cymraeg yn 2019-20 hefyd.<br>Cytunir ar waith datblygu gyda Choleg Cymraeg Cenedlaethol yn '20 - 21.   |
|  | Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis modiwlau neu unedau cyfrwng Cymraeg yng Ngholeg y Cymoedd | Codi mwy o ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr sy'n siarad Cymraeg o ddarpariaeth ddwyieithog sydd ar gael a chyfleoedd am swyddi sydd yn gofyn am sgiliau dwyieithog | Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio rhan o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg 50% | Coleg y Cymoedd | Colegau Cymru    | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gostyngiad bach o 628 o ddysgwyr yn cyrraedd unedau Gofal Cwsmeriaid Cymraeg yn 2018-19 i 542 yn 2019-20 oherwydd cau'n sydyn oherwydd COVID.</li> </ul> |
|  | Datblygu'r   | Archwilio'r   | Cytuno ar  | Coleg y Cymoedd | Ysgolion cyfrwng | <ul style="list-style-type: none"> <li>Arweiniodd</li> </ul>  |

|  |   |   |   |                 |   |   |
|--|---|---|---|-----------------|---|---|
|  | cysylltiadau rhwng Coleg y Cymoedd ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg | posibiliadau o gydweithredu ar ddarpariaeth CC, yn cynnwys cyrsiau TGAU | raglen gyflenwi cydweithrediad ôl erbyn Medi 2017 |                 | Cymraeg<br>Gwasanaeth Addysg a Dysgu<br>Gydol Oes | cydweithredu ag Ysgol Gyfun Rhydywaun at drefnu lle i staff yr ysgol ar gyfer cyrsiau Cymorth Cyntaf trwy gyfrwng Cymru yng Ngholeg y Cymoedd fel cyrsiau cyfoethogi i gefnogi cyrsiau HSC. Bu'n rhaid canslo hyn oherwydd COVID ynghyd â'r holl weithgareddau ar y cyd allanol eraill. |
|  | Darparu cyfleoedd   | Trefnu rhaglen flynyddol o  | Cyhoeddi rhaglen o                                | Coleg y Cymoedd | Menter Iaith                                      | <ul style="list-style-type: none"> <li>Darperir llyfryn (ar-lein ac ar ffurf</li> </ul>   |

|  |   |  |  |  |  |   |
|--|---|--|--|--|--|---|
|  | <p>cymdeithasol i fyfyrwyr coleg gyfarfod a defnyddio'r Gymraeg</p> | <p>ddigwyddiadau sy'n boblogaidd ac yn bellgyrhaeddol o ran apêl</p> | <p>ddigwyddiadau ar ddechrau pob tymor a'i dosbarthu trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd</p> |  |  | <p>copi caled) ar gyfer dysgwyr yng Ngholeg y Cymoedd, o'r enw <i>Cymraeg yn y Coleg</i>. Fe'i cyhoeddwyd yn 2019-20 a bydd yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd ei hangen ar siaradwyr Cymraeg ar ddewisiadau cwricwlwm, eu hawliau o dan</p> |
|--|---|--|--|--|--|---|



|                                  |   |  |                                     |                         |   |   |
|----------------------------------|---|--|-------------------------------------|-------------------------|---|---|
|                                  |   |  |                                     |                         |   | <p>Safonau Cymraeg, help a chefnogaeth sydd ar gael iddynt a gwybodaeth am weithgareddau ar thema Gymraeg a Chymreig trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys 2 Glwb Cymraeg ar-lein (1 ar gyfer siaradwyr Cymraeg ac 1 ar gyfer dysgwyr Cymraeg).</p> |
| Trosglwyddo'r iaith yn y Cartref | Sicrhau bod mwy o rieni'n defnyddio'r Gymraeg yn brif iaith yr aelwyd | Cynyddu nifer y gweithgareddau sy'n cael eu trefnu gan gynllun 'Cymraeg i Blant' | Cynyddu nifer y gweithgareddau 100% | Cynllun Cymraeg i Blant | Mudiad Meithrin Canolfan Cymraeg i Oedolion, Prifysgol De | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae 'Clwb Cwtsh' Mudiad Meithrin wedi ail-ddechrau yng ngogledd RhCT Hydref</li> </ul>   |

|  |  |   |  |  |       |  |
|--|--|---|--|--|-------|--|
|  |  | sydd yn annog rhieni i siarad Cymraeg â'u plant |  |  | Cymru | <p>2020. Mae'r cynllun yn dibynnu ar gyllid gan Lywodraeth Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Cymraeg i Blant yn gweithio'n agos gyda'r timau iechyd lleol i rannu gwybodaeth am ei grwpiau cymorth lleol ar gyfer rhieni newydd. Y nod yw eu gwneud yn ymwybodol o'r siwrnai ddwyieithog iddyn nhw a'u plentyn a'u hannog i ddechrau defnyddio'r</li> </ul> |
|--|--|---|--|--|-------|--|

|  |  |  |  |  |  |  |
|--|--|--|--|--|--|--|
|  |  |  |  |  |  | <p>Gymraeg gartref o'r cychwyn cyntaf oll.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r grwpiau'n cynnwys tylino babanod, ioga babanod, grwpiau odli Cymru ac arwyddion ac yn cael eu cynnal yn Aberdâr, Treorci, Pontypridd, Pentre'r Eglwys a Phont-y-clun. (ar hyn o bryd mae pob grŵp yn cael ei gynnal ar-lein tan ddiwedd y flwyddyn)</li></ul> |
|--|--|--|--|--|--|--|

|  |   |  |  |                 |  |  |
|--|---|--|--|-----------------|--|--|
|  | Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trosglwyddo'r iaith ymysg oedolion ifanc Cymraeg eu hiaith | Cynnwys rhaglenni ymwybyddiaeth iaith cyffredinol mewn cyrsiau ABCh mewn ysgolion a cholegau | Y Coleg i drefnu cyrsiau ymwybyddiaeth erbyn 2017-18 | Coleg y Cymoedd | Menter Iaith Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan yr unedau Gofal Cwsmeriaid Cymraeg a astudiwyd yng Ngholeg y Cymoedd elfen o ymwybyddiaeth iaith wedi'i hymgorffori ynddynt lle trafodir trosglwyddo iaith ymhlith llawer o agweddau eraill megis y budd o allu siarad Cymraeg yn y gweithle a'r manteision a ddaw yn sgil hyn o ran</li> </ul> |
|--|---|--|--|-----------------|--|--|

|                       |  |  |  |   |   |   |
|-----------------------|--|--|--|---|---|---|
|                       |  |  |  |   |   | cyflogadwyedd<br>posibl.  |
| Cymraeg i<br>Oedolion | Cynyddu nifer yr<br>oedolion sy'n<br>dysgu Cymraeg | Cynyddu'r<br>gweithgaredd<br>marchnata ac<br>ymestyn y cyrsiau<br>sydd ar gael ar<br>bob lefel | Cynyddu nifer<br>yr<br>ymrestriadau<br>30% | Canolfan<br>Cymraeg i<br>Oedolion,<br>Prifysgol De<br>Cymru | Canolfan<br>Gymraeg<br>Genedlaethol i<br>Oedolion | <ul style="list-style-type: none"> <li>Er gwaethaf<br/>effeithiau Covid<br/>19, ym mis Medi<br/>2020, rydyn ni<br/>eisoes wedi<br/>cyrraedd 1000 o<br/>gofrestriadau dyw<br/>hyn ddim yn<br/>cynnwys y cyrsiau<br/>cychwynnol<br/>newydd sy'n<br/>dechrau Hydref<br/>12, 2020. Bydd yr<br/>holl ddarpariaeth<br/>ar-lein nes ei bod<br/>yn ddiogel<br/>dychwelyd i'r<br/>ystafell ddosbarth.</li> </ul> |

|  |  |   |  |   |  |  |
|--|--|---|--|---|--|--|
|  | Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n datblygu o lefelau Mynediad a Sylfaen i gyrsiau lefel Uwch                                      | Rhoi cymorth ac arweiniad wedi ei dargedu i annog dysgwyr i ddatblygu i lefelau rhuglder uwch                         | Cynyddu cyfraddau dilyniant i lefelau uwch 20% | Canolfan Cymraeg i Oedolion, Prifysgol De Cymru | Canolfan Gymraeg Genedlaethol i Oedolion | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cyfraddau dilyniant yn gwella i gyrsiau lefel uwch er gwaethaf effeithiau Covid 19.</li> </ul>  |
|  | Darparu mwy o gyrsiau iaith yn y gweithle ar lefelau medrusrwydd amrywiol i alluogi mwy o gyflogeion i weithio'n ddwyieithog | Cynyddu darpariaeth yn y gweithle yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol ar gyfer dechreuwyr a siaradwyr Cymraeg petrus | Cynyddu darpariaeth yn y gweithle 100%         | Canolfan Cymraeg i Oedolion, Prifysgol De Cymru | Canolfan Gymraeg Genedlaethol i Oedolion | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn cynnig hyfforddiant pwrpasol Cymraeg yng ngweithleoedd RhCT, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr. Oherwydd COVID19, mae Cymraeg Gwaith</li> </ul> |

|  |  |   |  |  |                     |  |
|--|--|---|--|--|---------------------|--|
|  |  |   |  |  |                     | <p>ar y lefel<br/>Genedlaethol wedi<br/>colli rhywfaint o<br/>arian ond mae'r<br/>gwasanaeth yn<br/>dal i gael ei gynnig<br/>gyda llawer o<br/>gyrsiau blasu ar<br/>gael ar-lein.</p>  |
|  | <p>Rhoi cyfleoedd<br/>anffurfiol i<br/>ddysgwyr<br/>Cymraeg<br/>gyfarfod ac<br/>ymarfer eu<br/>sgiliau iaith</p> | <p>Trefnu<br/>gweithgareddau<br/>cymdeithasol<br/>wythnosol a<br/>'sesiynau sgwrs' i<br/>gynyddu hyder a<br/>lefelau rhuglder</p> | <p>Sefydlu 5<br/>lleoliad yn yr<br/>ardal i gynnal<br/>cyfleoedd<br/>wythnosol ar<br/>gyfer defnydd<br/>anffurfiol o'r<br/>Gymraeg</p> | <p>Canolfan<br/>Cymraeg i<br/>Oedolion,<br/>Prifysgol De<br/>Cymru</p> | <p>Menter Iaith</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Dysgu Morgannwg Cymraeg yn gweithio gyda'r Mentrau i gynnig digwyddiadau dysgu anffurfiol i gefnogi'r dysgwyr a datblygu eu hyder. Mae'r ddarpariaeth hon yn mynd law yn</li> </ul> |

|  |  |  |  |  |  |   |
|--|--|--|--|--|--|---|
|  |  |  |  |  |  | <p>llaw â'r gwersi ffurfiol. Ers Covid 19, mae'r digwyddiadau hyn wedi symud ar-lein nes ei bod yn ddiogel dychwelyd i'r ystafell ddosbarth a'r lleoliadau cymdeithasol a ddefnyddir.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae Menter Iaith wedi cynllunio digwyddiadau mewn partneriaeth â'r Swyddog Cymraeg, wedi gwneud cyflwyniadau yn</li></ul> |
|--|--|--|--|--|--|---|



|  |                  |                   |                |          |              |   |
|--|------------------|-------------------|----------------|----------|--------------|---|
|  |                  |                   |                |          |              | <p>ystod digwyddiadau perthnasol ac yn sefydlu TIM yn UCW</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Hen Lyfrgell a Menter Iaith wedi cytuno ar raglen sgwrsio anffurfiol wythnosol gyda'r Ganolfan Gymraeg i Oedolion yn UCW ac maen nhw'n cyd-hyrwyddo digwyddiadau a chyfleoedd gyda dysgwyr.</li> </ul> |
|  | Rhoi cyfleoedd i | Cynllunio rhaglen | Llunio calendr | Canolfan | Menter Iaith | <ul style="list-style-type: none"> <li>Fel uchod, mae</li> </ul>  |

|  |   |  |  |   |  |  |
|--|---|--|--|---|--|--|
|  | <p>ddysgwyr Cymraeg integreiddio i rwydweithiau a sefydliadau Cymraeg eu hiaith</p> | <p>amrywiol o weithgareddau cymdeithasol i ddod â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ynghyd</p> | <p>blynyddol o ddigwyddiadau a darparu cymorth marchnata</p> | <p>Cymraeg i Oedolion, Prifysgol De Cymru</p> |  | <p>Dysgu Cymraeg Morgannwg yn trefnu ac yn cynnal nifer o ddigwyddiadau i gefnogi'r dysgwyr gan gynnwys boreau coffi, grwpiau darllen, grwpiau llenyddiaeth, sesiynau coginio, siaradwyr gwadd, dramâu, teithiau cerdded ac ati.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg hefyd yn rhedeg prosiect o'r enw 'Siarad' lle</li> </ul> |
|--|---|--|--|---|--|--|

|  |  |  |  |  |  |   |
|--|--|--|--|--|--|---|
|  |  |  |  |  |  | <p>mae 20 o ddysgwyr yn Canolradd + yn cael eu paru â siaradwr Cymraeg rhugl ac yn cwrdd am 10 awr i ymarfer a defnyddio'r Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r ddarpariaeth hon wedi symud ar-lein yn dilyn effeithiau Covid-19 nes y gallwn ddychwelyd yn ddiogel i'r ystafell ddosbarth / cymuned.</li></ul> |
|--|--|--|--|--|--|---|

|  |   |  |                                 |   |              |  |
|--|---|--|---------------------------------|---|--------------|--|
|  |   |  |                                 |   |              | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae 25 o ddysgwyr wedi gwirfoddoli gyda Menter Iaith yn ystod digwyddiadau, ac mae un dysgwr bellach yn aelod o'i bwyllgor rheoli</li> </ul>  |
|  | Darparu cyfleoedd ar-lein i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg | Sefydlu ystafell sgwrs/fforwm neilltuol ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn yr ardal | I'w sefydlu erbyn mis Medi 2017 | Canolfan Cymraeg i Oedolion, Prifysgol De Cymru | Menter Iaith | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r holl ddarpariaeth ar-lein ar hyn o bryd a gall dysgwyr sgwrsio ar-lein â'i gilydd neu gyda siaradwyr rhugl fel rhan o'r prosiect 'Siarad'. Anogir dysgwyr i anfon negeseuon yn Gymraeg rhwng</li> </ul> |

|                             |   |  |  |              |   |   |
|-----------------------------|---|--|--|--------------|---|---|
|                             |   |  |  |              |   | <p><b>gwersi.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Hen Lyfrgell a Menter Iaith wedi cytuno ar raglen sgwrsio anffurfiol wythnosol gyda'r Ganolfan Gymraeg i Oedolion yn UCW ac maen nhw'n cyd-hyrwyddo digwyddiadau a chyfleoedd gyda dysgwyr.</li> </ul> |
| Gweithgareddau yn y Gymuned | Defnyddio technoleg gyfathrebu fel llwyfan gwybodaeth a rhwydweithio ar | Datblygu 'Echlysur' ymhellach fel rhwydwaith cyfathrebu sy'n darparu | Ymestyn y gwaith o farchnata'r rhwydwaith a gosod targed pum mlynedd o | Menter Iaith | Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Ysgolion cyfrwng Cymraeg | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Menter Iaith wedi datblygu llwyfannau newydd - Sianel TIM ar YouTube; Sianel Clwb Carco</li> </ul>   |

|  |  |  |                                      |              |   |  |
|--|--|--|--------------------------------------|--------------|---|--|
|  | gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr  | gwybodaeth i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr am weithgareddau, cyfleoedd am swyddi ac ati                | 5,000 o gysylltiadau                 |              |   | <p>ar YouTube; Sianel TIM ar AMAM.cymru/TIM; Sesiwn Sul ar GTFM; Mailchimp</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth ychwanegol ar y Wefan</li> <li>• Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym ni wedi ymgysylltu â dros 20,000 trwy ein platfformau</li> </ul> |
|  | Defnyddio technoleg gyfathrebu i gadw mewn cysylltiad â disgyblion ar ôl iddynt adael ysgolion | Sicrhau bod manylion cyswllt cymaint o ymadawyr ysgol â phosibl yn cael eu hychwanegu i'r rhwydwaith | Casglu manylion cyswllt yn flynyddol | Menter Iaith | Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Ysgolion cyfrwng Cymraeg | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Menter Iaith yn cadw mewn cysylltiad â grwpiau sefydledig os yw unigolion yn dymuno, cynigir iddynt barhau i ymgysylltu trwy</li> </ul>   |

|  |  |   |  |             |  |   |
|--|--|---|--|-------------|--|---|
|  | uwchradd CC  |   |  |             |  | <p>ein cyfleoedd. Parhaodd 36 o'r rheiny a adawodd yr ysgol i ymgysylltu â Menter Iaith dros y flwyddyn ddiwethaf</p>   |
|  | <p>Ailfywiogi Clwb y Bont ym Mhontypridd fel Canolfan Gymraeg sy'n ffynnu ar gyfer ystod o wahanol bartneriaid</p> | <p>Gweithio gydag ymddiriedolwyr Clwb y Bont i gynnal astudiaeth ddichonolrwydd, yn cynnwys achos busnes, i ddatblygu'r ganolfan fel hwb ar gyfer adfywio'r iaith</p> | <p>Chwilio am gyllid a chynnal astudiaeth ddichonolrwydd erbyn Ionawr 2018</p> | Clwb y Bont | <p>Menter Iaith Cyngor Llywodraeth Cymru</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun Busnes a Chynllun Adeiladu wedi'i ddatblygu – dal i chwilio am gyllid ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb.</li> </ul> |

## Gweithredu a monitro

Bydd gofyn i wasanaethau Cyngor ddatblygu eu Cynlluniau Gweithredu Lleol eu hunain er mwyn nodi sut y byddan nhw'n bwrw'r targedau hynny sy'n ofynnol os yw'r Strategaeth i gael ei gweithredu'n llwyddiannus erbyn 2021.

Bydd cynnydd yn erbyn targedau yn cael ei fonitro ar lefel weithredol gan Brif Swyddogion y Gymraeg a bydd diweddariadau yn cael eu darparu ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli bob chwe mis.

Bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu darparu ar gyfer Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn ôl yr angen, ddwywaith y flwyddyn fan lleiaf. Bydd gwybodaeth ynglŷn â chyflawniad gwasanaethau'r Cyngor yna'n cael ei rhoi i Aelodau o'r Fforwm Iaith.

Bydd aelodau o'r Fforwm Iaith yn rhoi'r newyddion diweddaraf am y targedau sydd wedi'u nodi yn Rhan 2 o'r Cynllun Gweithredu yn eu cyfarfodydd, a bydd Cadeirydd y Fforwm Iaith yn rhoi adborth i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg er gwybodaeth.

Yn y modd yma, y gobaith yw y bydd y Cyngor ac aelodau o'r Fforwm Iaith yn gallu gweithio mewn ffordd gydweithrediadol er mwyn bwrw'r targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir erbyn 2021, a mynd i'r afael ag unrhyw anawsterau ar y cyfle cyntaf fel bydd modd datrys problemau yn ddiymdroi a sicrhau cynnydd.



## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

### GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

22 EBRILL 2021

### ADRODDIAD CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG - I'W GYFLWYNO I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG 2020 – 2021

#### ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH GYDA DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. GERAINT HOPKINS

**AWDURON:** Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned (01443 425512)  
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 570002)

#### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno copi o Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2020 - 2021 i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

#### 2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;
- 2.2 Cymeradwyo'r adroddiad i'w gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a chymeradwyo'r gwaith o sicrhau ei fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2021 fan bellaf, fel bod modd i'r cyhoedd ei weld;
- 2.3 Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo'r ffaith bod yr adroddiad blynyddol wedi cael ei gyhoeddi.

#### 3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan safon 158, 164 a 170 ei Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyhoeddi o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i baratoi adroddiad ("adroddiad blynyddol") mewn

perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n amlinellu'r ffordd mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r canlynol:

- y Safonau Darparu Gwasanaethau roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- y Safonau Llundio Polisiâu roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- y Safonau Gweithredol roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw.

#### **4. CEFNDIR**

- 4.1 Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gafodd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 4.2 Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Arweiniodd hyn at y dyddiad gosod ar gyfer cyflawni agweddau o'r 3 safon (52, 58 a 64<sup>1</sup>) ei ohirio tan 31<sup>ain</sup> Mawrth 2018.
- 4.3 Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 yn cwmpasu'r bumed flwyddyn lawn o weithredu'r safonau - o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021. Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan, rhaid iddo fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2021, fan bellaf.
- 4.4 Mae'r Cyngor o dan ddyletswydd statudol i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.
- 4.5. Yn ogystal â chydymffurfio â'r Safonau uchod yn 3.1, rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y canlynol:

---

<sup>1</sup> Safon 52 - doedd dim gofyn i gydymffurfio'n llawn mewn perthynas â gwefannau ac eithrio'r wefan corfforaethol tan 31/3/2018.

Safon 58 - cafodd y gofyn i gydymffurfio'n llawn mewn perthynas â chyfryngau cymdeithasol ac eithrio prif gyfrif y Cyngor ei symud i 31/3/2018.

Safon 64 - cafodd ardaloedd a ddiffinnir fel 'gwasanaeth derbynfa' (er enghraifft, Llyfrgelloedd,

Canolfannau Hamdden ac ati) ac eithrio prif gwasanethau derbynfa'r Cyngor ei symud i 31/8/18.

- nifer y cwynion a gafodd eu derbyn yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r canlynol: (i) darparu gwasanaethau (ii) llunio polisïau (iii) safonau gweithredu yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw;
- nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw;
- nifer yr aelodau o staff a gymerodd ran yn y cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- canran yr aelodau o staff a gymerodd ran mewn cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu hysbysebu gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn lle - (i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol, (ii) roedd hi'n ofynnol dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl dechrau yn y swydd, (iii) roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu (iv) doedd dim angen sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## 5. Y SEFYLLFA BRESENNOL

- 5.1 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn Atodiad 1 yn amlinellu gwaith y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf o ran cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg. Dros y blynyddoedd, mae'r camau mae meysydd gwasanaeth wedi'u cymryd o ran cydymffurfio wedi cael eu cofnodi mewn Hunanwerthusiadau i'w cyhoeddi yn atodiad i'r adroddiad yma. Ond oherwydd pandemig Covid-19, penderfynwyd atal Hunanwerthusiadau ar gyfer 2020 - 2021 er mwyn galluogi gwasanaethau ganolbwyntio'n llwyr ar gynnal gwasanaethau yng nghydestun effeithiau'r pandemig.
- 5.2 Ar ben hynny, oedodd y Comisiynydd Iaith ei ymchwiliadau i ddiffyg cydymffurfio rhwng 1<sup>af</sup> Ebrill 2020 a'r 1<sup>af</sup> Awst 2020 yn gydnabyddiaeth o'r camau roedd rhaid i gyrff y sector cyhoeddus eu rhoi ar waith yng ngoleuni'r pandemig.
- 5.2 Er gwaethaf yr holl gythrwfl mae'r pandemig wedi'i achosi, bu llwyddiannau nodedig o ran cydymffurfio â'r safonau a rhaid llongyfarch meysydd gwasanaeth am eu hymdrechion parhaus yn ystod yr argyfwng. Dyma rai o'r prosiectau sy'n werth eu nodi:
- Ein hymgyrch Dysgu Cymraeg yn hyrwyddo dosbarthiadau Cymraeg yn fewnol a thrwy bartneriaid allanol.
  - Trefnu a darparu hyfforddiant Cymraeg i 212 aelod o staff (diwedd Mawrth 2021) ar bob lefel trwy ein Tiwtor Cymraeg mewnol.

- Cyflwyno e-fodiwl gorfodol ar gyfer pob dechreuwr newydd sy'n cyflwyno'r safonau a'u goblygiadau i staff mewn ffordd fwy rhyngweithiol gan ddefnyddio ffeithluniau ac animeiddio.
- Comisiynu artistiaid lleol, mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Celfyddydau RhCT, i gynhyrchu Cân Dydd Gŵyl Dewi i bob Ysgol RhCT ei dysgu yn ystod 2021-2022.
- Cyflwyniadau ym mhob sesiwn sefydlu gorfforaethol - gan dynnu sylw at bwysigrwydd y Gymraeg yn y Cyngor.
- Cyflwyno system 'Mail-tips' er mwyn hyrwyddo mwy o Gymraeg ysgrifenedig rhwng swyddogion y Cyngor.
- Cyflwyno'r rhestr o Enwau Lleoedd safonol sy'n berthnasol i Rionda Cynon Taf i Uwch Swyddogion y Cyngor a holl staff y Cyngor.
- Prif-ffrydio'r Gymraeg yn nhrefniadau gwaith beunyddiol ar draws y sefydliad cyfan, h.y. fideos gwasanaeth-benodol, e.e. fideos teithiau tywys, fideos Inspire2work, fideos hamdden a ffitrwydd, a chyflwyniadau a fideos PowerPoint ar ran Gwasanaethau'r Blynnyddoedd Cynnar i sicrhau rhyngweithio a chefnogaeth barhaus i rieni a phlant ifanc.
- Cyflwyno darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar-lein, trwy Zoom. Cymerodd y Cyngor gamau gweithredu ar unwaith i sicrhau darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer Cynghorwyr erbyn Gorffennaf 2020. Cafodd hyn ei groesawu'n fawr.
- Yn ogystal â'r uchod, mae darpariaeth cyfieithu ar yr un pryd wedi bod ar gael yn hwylus i bob maes gwasanaeth er mwyn sicrhau cydymffurfio'n llawn â Safonau. Mae sesiynau ymgynghori corfforaethol ar-lein a chyfweliadau penodi wedi'u cynnal yn llwyddiannus trwy gydol y cyfnod hwn.
- Cefnogaeth i Eisteddfod y Rhondda, Eisteddfod newydd dan arweiniad gwirfoddolwyr a sefydlwyd yn ystod y pandemig ac a gynhaliwyd ar-lein.
- Cynna ffair swyddi rhithwir ledled y Sir, gan ddefnyddio meddalwedd arbennig a oedd yn prif ffrydio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau.
- Cydlynu, yn fewnol a chyda rhanddeiliaid allanol, llyfryn Bod yn Ddwyieithog newydd sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg.
- Hyrwyddwyd Diwrnod Shwmae, Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Hawliau'r Gymraeg yn rhan o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

- Cwblhau 3 archwiliad, gan ganolbwyntio ar Gyfryngau Cymdeithasol, Gwefannau a Recriwtio.
  - Mae'r holl arwyddion swyddogol a ffurflenni ar-lein sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau.
  - Cyflwyniadau yn Ffair Gyrfaedd Gyrfa Cymru i dynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau Cymraeg i'r Cyngor RhCT.
  - Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig cymorth o ran cydymffurfio i Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn ogystal â llawer o sefydliadau eraill os mai'r Cyngor yw'r awdurdod arweiniol - megis Gwasanaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf, Consortiwm Comisiynu Plant Cymru, Gwasanaeth Seicoleg Addysg ar y Cyd, Ysgolion. Gwasanaeth AD, Cynllun Cadw'n Iach yn y Gwaith.
- 5.2 Er gwaethaf y cynnydd da mae'r Cyngor wedi'i wneud, rydyn ni'n dal i wynebu heriau wrth geisio sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Ymhlith y meysydd penodol sy'n parhau i fod yn heriol mae'r canlynol:
- Yr angen parhaus i gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg;
  - Monitro elfennau partneriaeth y Strategaeth 5 Mlynedd;
  - Ymateb i'r galw parhaus am gyfieithu ar yr un pryd;
  - Y gallu i ymateb i'r galw parhaus am wasanaethau cyfieithu a natur y gwaith sy'n ofynnol gan feysydd gwasanaeth - e.e. gwaith sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau cymdeithasol sy'n mynnu sylw ar unwaith;
  - Ymateb i'r angen cynyddol i gynghori ar gynigion polisi yng ngoleuni canllawiau Comisiynydd y Gymraeg a gyhoeddwyd ym fis Tachwedd 2020;
  - Prif ffrydio'r Fframwaith Polisi Strategol Mwy na Geiriau i ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol;
  - Heriau ynghylch argaeledd a chaffael systemau technoleg gwybodaeth Cymraeg;
  - Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth barhaus ynghylch y safonau.
- 5.3 Mae safon 37, a safonau 83 i 93 yn arbennig o heriol gan fod angen adnoddau sylweddol arnynt. Amlinellir y safonau hyn yn Atodiad 2.
- 5.4 Hyd yn oed yn wyneb rhai o'r heriau a nodwyd yn 5.2 ar ben heriau argyfwng Covid-19, mae adborth gan y Comisiynydd Cymraeg yn ystod

y cyfarfod blynyddol yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn o ran y cynnydd yn Rhondda Cynon Taf.

**6. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**7. YMGYNGHORIAD**

Doedd cynnal proses ymgynghori ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad yma, er i'r holl feysydd gwasanaeth gyfrannu data at yr adroddiad drwy eu prosesau hunanwerthuso.

**8. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL**

Does dim goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, mae'n bosibl bydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu unrhyw argymhellion gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â pharhau i weithredu'r 171 o Safonau. Gallai peidio â chydymffurfio â Safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

**9. GOBLYGIAD(AU) CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio maes y gwaith yma.

**10. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â'R DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL.**

10.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016.

10.2 Mae'r Adroddiad Cydymffurfio yn amlinellu gwaith y Cyngor o ran cydymffurfio â safonau statudol o ran y Gymraeg a fydd yn cyfrannu at nod tymor hir Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r gwaith i gyflawni'r safonau hyn yn golygu cydweithio gyda phartneriaid a thrigolion i hwyluso ystod eang o gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau ledled y sir. Bydd cyflawni'r safonau yn atal cwynion gan drigolion sy'n methu â manteisio ar wasanaethau o du'r Cyngor yn y Gymraeg.

10.3 Mae cynnwys yr adroddiad yn perthyn yn uniongyrchol i Nod 7 o'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd cydymffurfio â'r Safonau'n gefn i normaleiddio'r Gymraeg a sicrhau na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at greu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg, os ydyn nhw'n dymuno.

## 11. CASGLIAD

11.1 Dyma'r chweched adroddiad monitro blynyddol sydd wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor sy'n nodi sut mae wedi cydymffurfio â'r Safonau statudol y mae dyletswydd arno i gydymffurfio â nhw o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd da yn y Cyngor wrth ymgorffori trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau trwy gyfrwng Cymraeg.

11.2 Cydnabyddir bod angen gwneud rhagor o waith, yn enwedig o ystyried goblygiadau'r safonau 37<sup>1</sup> a 83>93<sup>2</sup>, sy'n heriol. Serch hynny, mae'r Cyngor yn hyderus bod y systemau a ddatblygwyd i fonitro cydymffurfiad yn gadarn a bod cymorth ar gael i feysydd gwasanaeth wella eu perfformiad ymhellach lle bo angen.

### **Gwybodaeth Arall:**

#### ***Pwyllgor Craffu Perthnasol:***

*Trosolwg a Chraffu / Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg*

**Swyddog Cyswllt** - Wendy Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaethau yn y Gymuned

Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

Tudalen wag





**RHONDDA CYNON TAF**

# **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**

## **RHONDDA CYNON TAF**

Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

2020 – 2021

Wedi'i baratoi yn unol â gofynion

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ebrill 2021

# CYNNWYS

Cyflwyniad

tudalen 3

Uned Gwasanaethau Cymraeg

tudalen 4

Cwynion

tudalen 8

Sgiliau Cymraeg Staff

tudalen 11

Hyfforddiant

tudalen 13

Llenwi Swyddi Gwag

tudalen 13

Manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth

tudalen 13

## **CYFLWYNIAD: Safonau'r Gymraeg**

Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Yn dilyn ystyriaeth ac ymgynghori pellach, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na ddylid cymhwyso unrhyw gamau i 9 o'r Safonau oedd yn destun her ac y dylid cymhwyso amrywiad i 5 o'r Safonau oedd yn destun her. Cafodd yr Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 9 Medi 2016. Mae modd ei weld yn llawn [yma](#)

### **Gweledigaeth**

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i greu amgylchedd sy'n annog ei drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi'i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn ogystal â gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â gofynion Safonau'r Gymraeg, bydd y Cyngor yn gwneud ei orau glas i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau yn unol â holl bolisïau a strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg.

### **Llywodraethu ac atebolrwydd**

Yn 2014, sefydlodd y Cyngor Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn is-bwyllgor o Gabinet y Cyngor. Grŵp traws-bleidiol yw hwn sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned. Mae'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn goruchwylio datblygiadau strategol, yn trafod adroddiadau gan adrannau perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn cyflwyno argymhellion i Gabinet y Cyngor ac yn monitro datblygiadau Cyngor cyfan. Mae cyfrifoldeb arno i asesu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, a monitro cynnydd y Cyngor wrth iddo geisio cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

### **Dolenni cyswllt i Bolisïau a Blaenoriaethau'r Cyngor**

Mae ymrwymiadau'r Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnwys ym mhrif ddogfennau sefydliadol yr awdurdod gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol (Gwneud Gwahaniaeth) a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Yn ogystal â hyn, mae polisïau mewnol, megis polisïau Adnoddau Dynol, hefyd yn prif ffrydio materion y Gymraeg sy'n fwy effeithiol na pharatoi polisïau unigol i fynd i'r afael â materion y Gymraeg. Mae blaenoriaethau'r Cyngor hefyd yn cael eu llywio gan ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2016, sy'n gosod dyletswydd ar y Cyngor i gryfhau'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf gyntaf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus weithio tuag at saith nod llesiant. Un o'r rhain yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r ail Ddeddf yn gofyn i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ystyried a diwallu anghenion ieithyddol eu defnyddwyr yn rhan o'u gwasanaethau gofal a chymorth.

### **Rhoi Gwybod**

Dyma'r bumed flwyddyn lawn o roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r adroddiad, a fydd yn cael eu cyhoeddi erbyn 30 Mehefin, yn bodloni Safonau 158 a 164 ac yn nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Safonau Atodol canlynol:

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
- Safonau Gweithredu

- Safonau Llundain Polisïau

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion gofynnol, hynny yw:

- nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg (Safon 151)
- nifer y staff a fynychodd y cyrsiau hyfforddi a restrir yn Safon 128 os cawson nhw eu cynnig yn Gymraeg (Safonau 152)
- canran cyfanswm y staff a fynychodd unrhyw gyrsiau a restrir yn Safon 128 (Safonau 152)
- nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gafodd eu categorio fel swyddi sy'n gofyn (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y bydd rhywun yn cael ei benodi i'r swydd; (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol
- nifer y cwynion y cafodd y Cyngor

## Yr Uned Gwasanaethau Cymraeg

Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i Safonau'r Gymraeg oherwydd y risgiau sydd ynghlwm â pheidio â chydymffurfio â nhw ac hefyd oherwydd ei ymrwymiad i greu amgylchedd sy'n annog ei drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor ac i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'n cydnabod bod angen cefnogaeth y Cyngor cyfan i allu cynnig a hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg o'r cyswllt cyntaf.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn Uned Gwasanaethau Cymraeg gadarn sy'n cynnwys 18 o weithwyr. Mae'r Uned yn gweithio i gefnogi holl wasanaethau'r Cyngor drwy wneud y canlynol:

- rhoi cyngor a chymorth i'r holl wasanaethau ynglŷn â'u cyfrifoldebau statudol o dan y Safonau
- cyfieithu dogfennau ar gyfer y cyhoedd
- darparu tiwtor Cymraeg mewnol
- nodi meysydd lle ma diffyg cydymffurfiaeth posibl
- cofnodi cwynion cwsmeriaid
- adrodd ar ddatblygiadau i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg
- cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ac mewn cyfarfodydd eraill sy'n agored i Aelodau (e.e. pwyllgorau craffu)
- rhoi cymorth cyfieithu ar y pryd i bob maes gwasanaeth arall fel gwasanaethau cyfreithiol, adnoddau dynol
- bod yn bresennol yn y Fforwm Iaith
- cydweithio â sefydliadau Cymraeg yn y gymuned fel sy'n briodol
- cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd allanol a bod yn brif gyswllt â Chomisiynydd y Gymraeg ac Adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru.
- Cymorth ar draws adrannau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol
- Cydlynu a chysylltu â materion sy'n ymwneud â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Cefnogaeth bwrpasol i'r Eisteddfod Genedlaethol i'w chynnal yn RhCT yn 2024

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn Uned fel ymateb rhagweithiol i'r amgylchedd statudol newydd a'r math o waith y mae angen ei wneud i geisio cynorthwyo holl wasanaethau'r Cyngor i fodloni'r Safonau mewn modd mwy cost-effeithiol.

Mae Swyddog Cydymffurfio yn monitro cyflawniad y gwasanaethau ar draws y Cyngor ac yn sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r Safonau hynny sy'n berthnasol iddyn nhw. O ganlyniad i hyn, mae'r rôl yn rhoi cyfle i'r Cyngor ddarparu cymorth lliniaru pellach i wasanaethau ar nodi unrhyw wendidau posibl am fodloni gofynion y Safonau, yn ogystal â pharhau â rhai o ddyletswyddau mwy traddodiadol yr hen swydd Swyddog y Gymraeg. Mae Swyddog Comisiynydd y Gymraeg wedi bod

yn hael o ran rhoi adborth cadarnhaol am y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cyflawni'i ddyletswyddau o ran y Safonau. Mae'r bartneriaeth gadarnhaol yma wedi annog sgysiau mwy agored ac adeiladol os ydy'r Comisiynydd o'r farn nad yw'r Cyngor wedi cyrraedd y nod ar rai achlysuron.

Mae Tiwtor y Gymraeg rhan-amser hefyd yn trefnu a chyflwyno cyrsiau a sesiynau dysgu Cymraeg i holl weithwyr y Cyngor. Yn y gorffennol, bu'r Cyngor yn talu darparwyr allanol (e.e. Canolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol De Cymru) i gyflwyno sesiynau i staff mewnol ond doedd y rhain ddim yn llwyddiannus gan nad oedden nhw'n berthnasol i'r meysydd gwasanaeth priodol. Hyd yn hyn (31 Mawrth 2020), mae'r tiwtor mewnol wedi tiwtora **212** o aelodau o staff ar bob lefel. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phrosiect Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru gan sicrhau bod modd i staff y Cyngor fanteisio ar gymorth a thiwora ar-lein. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor, ar nifer o achlysuron, wedi cefnogi unigolion i gyflawni cwrs preswyl am wythnos yn Nantgwytheryn – un o'r prif ganolfannau ar gyfer dysgu Cymraeg yn ddwys, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn cydnabod y flaenoriaeth wedi'i rhoi i'r Gymraeg gan y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddfa'r Cabinet, mae gan Uned Gwasanaethau Cymraeg uwch-gyfieithwyr penodol i ddarparu cymorth cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd i Aelodau ac Uwch Swyddogion o ran cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau. Mae hyn yn rhagori ar yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y Safonau. Er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau posibl a chefnogi aelodau eraill o staff, mae dau aelod o staff wedi dechrau tystysgrif ôl-radd mewn cyfieithu ar y pryd.

Yn 2019-2020 penodwyd Swyddog Prosiect yr Eisteddfod. Prif gyfrifoldeb y swydd fydd cysylltu â swyddogion yr Eisteddfod a Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith ar ran y cyngor o ran cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol (Rhondda Cynon Taf 2024) Bydd ein Swyddog yn gweithio gyda swyddogion yr Eisteddfod a'r Pwyllgor Gwaith, ysgolion, grwpiau cymunedol a'r sector preifat ar gyfer datblygu rhaglen o weithgareddau a fydd yn cefnogi'r awdurdod lleol i gyrraedd ei darged cyfrannu penodol o £350,000 tuag at gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2024 (Rhondda Cynon Taf 2024). Bydd y Swyddog yn gweithio ar draws holl adrannau'r Cyngor sy'n cyfrannu at waith a chost cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol, gan gynnwys cyfrannu at y targed cyfrannu.

Fe barhaon ni i baratoi a dosbarthu dogfennau ac adnoddau cyfarwyddyd yn ystod 2020-21, er enghraifft:

## **Cofrestr o Enwau Strydoedd ac Enwau Lleoedd Dwyieithog Cyngor RhCT**

Yn dilyn cytundeb y Cabinet i gymeradwyo rhestr lawn o enwau lleoedd Cymraeg a Saesneg, mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg, mae cofrestr wedi'i rhannu â swyddogion y Cyngor trwy ein mewnwrwyd. Roedd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys cyhoeddi fersiynau Cymraeg o'n henwau strydoedd. Er ei fod yn brosiect mawr ynndo'i hun, bydd yr adnodd hwn yn helpu i safoni dull y Cyngor a lleihau maint yr arwyddion yn y dyfodol. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan holl wasanaethau'r cyngor ar gyfer gohebiaeth, ymgynghoriadau, mapiau, cyhoeddiadau, tystysgrifau a thrwyddedau a chân nhw eu hintegreiddio â rhestr y Cyngor i'w defnyddio gan raglenni meddalwedd a ddefnyddir gan y cyngor i sicrhau cysondeb.

## **Fideos y Rhaglen Ymsefydlu Corfforaethol**

Mae Cyngor RhCT wedi llunio fideos ymsefydlu corfforaethol sy'n trafod y safonau a'u goblygiadau i staff mewn ffordd fwy rhagweithiol trwy ddefnyddio ffeithluniau ac animeiddiadau.

## **Bod Yn Ddwyieithog**

Bod yn Ddwyieithog yw llyfryn gwybodaeth y Cyngor sy'n annog rhieni i ddewis Addysg gyfrwng Cymraeg i'w plant. Yn ystod 2020-2021 mae'r llyfryn hwn wedi cael ei ail-ddylunio'n helaeth i gyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) statudol newydd y Cyngor. Bydd lansiad ffurfiol yn rhan o strategaeth farchnata WESP y Cyngor y cytunwyd arni yn ystod 2021-2022.

## **Ymgyrch Dysgu Cymraeg**

Eleni gwelwyd yr ymgyrch ffurfiol, integredig gyntaf i annog staff i ddysgu Cymraeg yng Nghyngor RhCT. Anfonwyd ein poster a'n llyfryn gwybodaeth a oedd yn rhestru'r holl ddarpariaeth gymunedol a rhithwir at holl staff y cyngor, a'r canlyniad oedd bod yr holl gyrsiau a gynhelir gan y Cyngor wedi'u llenwi'n llawn yn ystod yr wythnosau cyntaf. Rydym ni'n bwriadu lansio ymgyrch debyg bob blwyddyn i sicrhau bod mwy o bobl yn cael eu hannog i ddysgu - ac mewn ffordd y maen nhw'n hapus â hi - ar-lein, mewn ystafell ddosbarth, neu'n annibynnol.

Mae Uned Gwasanaethau Cymraeg wedi arwain ar nifer o brosiectau llwyddiannus. Dyma rai o'r prosiectau sy'n werth eu nodi:

### **Mail-tips**

Yn dilyn arfer da cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, mae Cyngor RhCT wedi defnyddio'r defnydd o gynghorion post/mail-tips ar gyfer proffiliau defnyddwyr yn Outlook sy'n rhoi gwybod i staff mewnol eraill a ydyn nhw'n siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr. Nod hyn yw cynyddu defnydd a hyder staff i ddefnyddio Cymraeg ysgrifenedig yn y gweithle.

### **Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd Ar-lein**

Mae Gwasanaethau Cymraeg wedi cefnogi swyddogion TGCh a Gwasanaethau Democrataidd yn llwyddiannus i sicrhau bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu bodloni trwy sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd a'n Cynghorwyr yn gallu cyfrannu at gyfarfodydd yn Gymraeg os dyna yw eu dymuniad. Mae TGCh, trwy ddefnyddio Zoom, wedi galluogi modd ar gyfer ychwanegu sianeli iaith at gyfarfodydd Zoom i ganiatáu i bobl wrando yn y Gymraeg neu gael cyfieithu-ar-y-pryd i'r Saesneg, gan ddibynnu ar eu dewis.

## **Ymgyrchoedd Diwylliant**

Hyrwyddodd Gwasanaethau Cymraeg yr Ymgyrchoedd Diwylliant canlynol 2020-2021.

### **Dydd Gŵyl Dewi**

Mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Celfyddydau RhCT, comisiynodd yr adran Gwasanaethau Cymraeg artistiaid lleol i greu cân i'n hysgolion ei dysgu yn ystod 2021-2022 a fydd yn cael ei recordio a'i defnyddio i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn 2022. Roedd hynny yn rhan o'r dathliadau a oedd hefyd yn cynnwys negeseuon i'n cymunedau ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a chwis ar-lein a gwblhawyd gan bron i 500 aelod o staff.

### **Diwrnod Hawliau'r Gymraeg**

Mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg, hyrwyddodd Gwasanaethau'r Gymraeg Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg trwy ofyn i holl wasanaethau'r Cyngor sydd â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol feddwl am 2 neu 3 maes y gallen nhw dynnu sylw atyn nhw lle maen nhw'n darparu gwasanaeth Cymraeg eithriadol. Arweiniodd hyn at sylw gwych ar draws llwyfannau'r Cyngor - mae'n werth nodi bod ein Gwasanaethau Addysg a Chyfranogiad leuenctid yn tynnu sylw at y ffaith bod 25% o'u staff yn siarad Cymraeg ac felly bod eu darpariaeth ar gael yn Gymraeg bob amser.

## **Strategaeth 5 mlynedd i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg**

Mae'r Uned wedi parhau i arwain ar Strategaeth 5 mlynedd y Cyngor i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n canolbwyntio ar wneud cynnydd o 6.8% yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg i 29,670 erbyn 2021, gan gynyddu defnydd y Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd y cyhoedd a bywyd y gymuned, a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad cymoedd De Cymru.

Mae adroddiad sy'n amlinellu cynnydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ei drafod. Yn ystod 2021-2022, bydd gwerthusiad ffurfiol cyn cynllunio a chyhoeddi ein strategaeth 5 mlynedd newydd

## **Cynllun Cyfoedion Cymraeg**

Mae'r adran Gwasanaethau Cymraeg yn derbyn adborth yn rheolaidd mai ychydig iawn o gyfleoedd sydd ar gyfer staff i ymarfer eu Cymraeg yn y gweithle proffesiynol, yn enwedig y staff hynny ar Lefel 3 a 4. Rydym ni wedi ceisio mynd i'r afael â hyn trwy sefydlu Cynllun Cyfoedion lle mae staff yn cwrdd yn fisol, i helpu i annog mwy o ddefnydd a hyder - fodd bynnag mae angen mwy o waith i ailsefydlu hyn yng ngoleuni'r pandemig gyda'r cyfarfodydd yn cael eu gohirio dros dro.

## **Meysydd gwasanaeth eraill**

Byddai Adroddiadau Blynyddol blaenorol yn cynnwys atodiad yn manylu ar y camau mae adrannau eraill wedi'u cymryd i ddatblygu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg fel y'u cofnodwyd yn eu Hunanwerthusiadau Gwasanaeth. O ystyried bod y Cyngor yn dal i ddelio â phandemig Covid-19, cytunwyd y byddai Hunanwerthusiadau Gwasanaeth yn cael eu hoedi am eleni. Dylai hyn ailddechrau'r flwyddyn nesaf pan fyddwn ni yn gallu nodi mwy o fanylion gan bob maes gwasanaeth ar sut y maen nhw wedi parhau i ddatblygu gwasanaethau Cymru a chydymffurfio â'r Safonau perthnasol.

**CWYNION: SAFON 158(2) 164(2) 170(2)(d)**

Cafodd y cwynion canlynol eu derbyn, neu parhawyd i ymchwilio iddyn nhw, yn ystod/ yn 2020-2021:

| Dyddiad y gwyn                                   | Natur  | Drwy law                       | Deilliant/Ymateb   |
|--|--|--------------------------------|--|
| Mai 2019<br>(cwyn wrthi'n cael ei hymchwilio)    | Gwasanaethau Addysg:<br>Honiad o fethu â chydymffurfio â safonau ymgynghori wrth ymgynghori ar ad-drefnu arfaethedig ysgolion yn ardal Pontypridd.                                       | Comisiynydd y Gymraeg (CSG548) | Mae'r Cyngor wedi cyflwyno papurau apêl i Dribiwnlys y Gymraeg eu hystyried gan nad yw'r cyngor yn cytuno â chanfyddiadau'r Comisiynydd .  |
| Hydref 2019<br>(cwyn wrthi'n cael ei hymchwilio) | Yr Adain Weithredol:<br>Honiad nad yw'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau wedi ystyried gofynion Safon 88 a 89 wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag ad-drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd. | Comisiynydd y Gymraeg (CSG633) | Derbyniodd y Cyngor yr Adroddiad a'r Hysbysiad o Benderfyniad arfaethedig ar 13 Awst 2020. Ymatebodd i gyflwyno materion ychwanegol i'w hystyried ar 24 Medi 2020 a 25 Chwefror 2021. Mae'r Cyngor yn aros am ohebiaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd. |
| Tachwedd 2019<br>(dan ymchwiliad)                | Refeniw a Budd-daliadau:<br>Darpariaeth gwefan yn Saesneg yn unig.   | Aelod cyhoedd.                 | Prosesau e-gyfrif ar gael yn Saesneg yn unig. Mae'r adran yn ymrwmo i sicrhau cysondeb yn gynnar yn 2020 yn ein hymateb i'r cwsmer.  |
| Mawrth 2020                                      | Priffyrdd a Thraffig:<br>Arwyddion ffordd ym Mhontypridd gyda fersiynau Cymraeg anghywir.  | Aelod cyhoedd.                 | Cwyn ddilys. Adolygwyd a diwygiwyd yr holl arwyddion yn ôl yr angen.   |
| Ebrill 2020                                      | Gwasanaethau Gwastraff:<br>Arwyddion Saesneg yn unig ynghylch manau casglu biniau gwastraff.   | Aelod cyhoedd.                 | Cwyn ddilys. Adran i gyhoeddi arwyddion dwyieithog newydd.   |
| Ebrill 2020                                      | Gwasanaethau'r Parciau:<br>Arwyddion Saesneg yn unig ynghylch cau parciau oherwydd Covid-19.   | Aelod cyhoedd.                 | Cwyn ddilys. Yn ddiweddarach, cyhoeddodd yr Adran arwyddion dwyieithog newydd.   |



|             |   |                                 |   |
|-------------|---|---------------------------------|---|
| Ebrill 2020 | Cyfathrebu:<br>E-bost Saesneg yn unig yn ymwneud â'r Diwrnod Coffa.   | Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol. | Cwyn ddilys. Atgoffwyd yr Adran i anfon yn ddwyieithog o hynny ymlaen.  |
| Mai 2020    | Gwasanaethau Cynllunio:<br>Roedd sawl camgymeriad yn fersiwn Gymraeg o hysbysiad cyhoeddus ynghylch cais cynllunio.                       | Aelod cyhoedd.                  | Diweddarodd yr Adran eu templedi safonol i gynnwys fersiwn Gymraeg gywir.   |
| Mai 2020    | Priffyrdd a Thraffig:<br>Arwyddion ffyrdd gyda fersiwn Gymraeg anghywir.  | Aelod cyhoedd.                  | Cwyn ddilys. Arwyddion cywir wedi'u gosod.  |
| Mai 2020    | Gwasanaethau Cyflogres:<br>Gohebiaeth i aelod newydd o staff yn Saesneg yn unig.  | Aelod cyhoedd.                  | Pob ffurflen wedi'i chyfieithu a'i hanfon yn ddwyieithog, oni bai bod dewis iaith eisoes wedi'i gofnodi.  |
| Mai 2020    | Cyfathrebu:<br>Trydar gyda sillafu Cymraeg anghywir.  | Aelod cyhoedd.                  | Diweddarwyd yr holl negeseuon newydd i gynnwys fersiwn newydd.  |
| Mai 2020    | Gwasanaethau Addysg:<br>E-bost parthed: Darpariaeth gwefan yn Saesneg yn unig.  | Aelod cyhoedd.                  | Atgoffwyd yr Adran am yr angen i sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n mynd i'r ysgolion yn cael ei hanfon yn ddwyieithog.   |
| Mai 2020    | Cyfathrebu:<br>Negeseuon Trydar/Twitter gan y Gwasanaethau Gwastraff yn Saesneg yn unig ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol. | Aelod cyhoedd.                  | Yn dilyn archwiliad mewnol atgoffwyd yr adran o'u dyletswyddau statudol i gydymffurfio a defnyddio'r adnoddau sydd eisoes ar gael.  |
| Mehfin 2020 | Refeniw a Budd-daliadau:<br>Gohebiaeth yn cael ei hanfon yn Gymraeg <b>ac yn</b> Saesneg.   | Aelod cyhoedd.                  | Hysbyswyd yr achwynydd o'n dyletswyddau statudol i ddarparu'r holl ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg pan fydd yn cael ei hanfon at fwy nag un person ar y tro. Does dim modd anfon gohebiaeth uniaith yn unig pan fydd yn cael ei hanfon at fwy nag un person ar yr un pryd. |
| Mehfin 2020 | Gwasanaethau Addysg:<br>Mae'r arwyddion yn cynnwys cyfieithiad  | Aelod cyhoedd.                  | Cytunir bod <i>clytiau</i> yn cyfleu cadachau yn y cyd-destun hwn ac mae'n iawn i barhau i ddefnyddio.  |

|                 |  |                                |   |
|-----------------|--|--------------------------------|---|
|                 | anarferol ar gyfer y gair 'wipes'.   |                                |   |
| Gorffennaf 2020 | Gwasanaethau Addysg:<br>Peidio â chaniatáu i blant y tu allan i'r sir fynychu eu gwasanaethau addysg mwyaf lleol - sydd o fewn ffiniau RhCT. | Aelod cyhoedd.                 | o'r<br>Diwygiwyd y polisi i adlewyrchu ymrwymiad y cyngor i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru fel rhan o bolisi Cymraeg 2050 Llywodraethau Cymru a'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.                     |
| Awst 2020       | Prifffyrdd a Thraffig:<br>Dyw'r arwydd Twristiaeth Brown ddim yn cynnwys fersiwn Gymraeg lawn o'r gyrchfan.                                  | Aelod cyhoedd.                 | o'r<br>Doedd y gŵyn ddim yn ddilys. O ystyried oedran yr arwydd, byddai wedi cael ei chodi cyn cyflwyno Safonau'r Gymraeg. Cwsmer bellach yn gwybod y bydd, ar ôl ei adnewyddu, yn cydymffurfio'n llawn, Cymraeg yn gyntaf. |
| Awst 2020       | Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd:<br>Methu â darparu Gwasanaeth gohebiaeth Gymraeg i aelod o'r Cyhoedd.  | Comisiynydd y Gymraeg (CSG751) | Derbyniodd y Cyngor fai ond llwyddwyd i osgoi ymchwiliad ffurfiol trwy ddangos y camau rhagweithiol y mae swyddogion wedi'u cymryd i ddelio â natur y gŵyn a sicrhau hyfforddiant gloywi i'r holl staff perthnasol.         |
| Awst 2020       | Gofal i Gwsmeriaid:<br>Dyw recordiadau llinell talu yn Gymraeg ddim yn dda o ran eu hansawdd.  | Aelod cyhoedd.                 | o'r<br>Cafodd yr holl recordiadau eu gwneud eto, a phrofodd staff y dull newydd.  |
| Awst 2020       | Prifffyrdd a Thraffig:<br>Roedd fersiwn Gymraeg anghywir ar arwydd a osodwyd gan bartner a gomisiynwyd.                                      | 2 Aelod cyhoedd.               | o'r<br>Tynnwyd arwyddion gan y contractwr. Gohiriwyd y gwaith gan y Cyngor. Atgoffwyd y contractwr i wirio gyda'r Cyngor am hysbysiadau sydd wedi'u paratoi ar ein rhan yn y dyfodol.                                       |
| Awst 2020       | Prifffyrdd a Thraffig:<br>Arwyddion ffyrdd dros dro gyda fersiwn Gymraeg anghywir.   | Aelod cyhoedd.                 | o'r<br>Diwygiwyd arwyddion ac atgoffwyd y contractwr i wirio a chydymffurfio â'r Safonau bob amser.   |
| Medi 2020       | Cyfathrebu:<br>Sillafu anghywir mewn neges Trydar yn Gymraeg.  | Aelod cyhoedd.                 | o'r<br>Newidiwyd negeseuon y dyfodol i adlewyrchu'r newid gofynnol.   |
| Hydref 2020     | Gwasanaethau Addysg:<br>Neges ebost yn Saesneg yn unig.  | Aelod cyhoedd.                 | o'r<br>Atgoffwyd yr Adran i anfon yr holl wybodaeth yn ddwyieithog o hynny ymlaen.  |

|  |   |                                 |     |   |
|--|---|---------------------------------|-----|---|
| Hydref 2020  | Gwasanaeth Celfyddydau RhCT: Negeseuon Trydar ar ran Gwasanaeth a gomisiynwyd gyda sillafu anghywir yn Gymraeg. | Aelod cyhoedd.                  | o'r | Rhybuddiodd artistiaid am y gwall gan gyflwyno rhai newydd.   |
| Hydref 2020  | Y Garfan Ymgynghori: Dolen wedi torri i'r ymgynghoriad Cymraeg.   | Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol. | y   | Diweddarodd yr Adran y ddolen a chafodd y Cynghorydd wybod am hynny.  |
| Hydref 2020  | Credydwyr: Neges ebost yn Saesneg yn unig.  | Aelod cyhoedd.                  | o'r | Cyfieithodd yr Adran dempledi a'u cyhoeddi'n ddwyieithog erbyn hyn.   |
| Hydref 2020  | Gwasanaethau Cyfreithiol: Mae Rhyddid Gwybodaeth yn gofyn am ymateb yn Saesneg yn unig i ymholiad dwyieithog.   | Aelod cyhoedd.                  | o'r | Cwyn ddilys. Cyhoeddwyd ymddiheuriad ffurfiol i'r aelod o'r cyhoedd ac atgoffwyd staff o'r angen i ymateb i bob gohebiaeth Gymraeg yn unig a dwyieithog gydag ymateb yn Gymraeg. Derbyniodd staff hyfforddiant gloywi a choeden benderfynu ar gyfer materion gohebiaeth er mwyn cyfeirio ati yn y dyfodol. Ailgyhoeddwyd copi o'r ohebiaeth wreiddiol yn Gymraeg i'r aelod o'r Cyhoedd. |
| Hydref 2020 (gweler mater parhaus tebyg o fis Tachwedd 2019) | Refeniw a Budd-daliadau: Gwasanaethau Treth y Cyngor ar-lein ddim ar gael yn Gymraeg.                           | Aelod cyhoedd.                  | o'r | Prosesau e-gyfrif ar gael yn Saesneg yn unig. Mae'r adran yn ymrwmo i sicrhau cysondeb yn gynnar yn 2020 yn ein hymateb i'r cwsmer. Mae hyn bellach wedi'i ymestyn ddwywaith i Haf 2021.  |
| Tachwedd 2020  | Gwasanaethau Adnoddau Dynol: Mae dyddiadau cau Cymraeg a Saesneg yn wahanol ar gyfer ymatebion i arolwg staff.  | Aelod cyhoedd.                  | o'r | Cyhoeddodd yr Adran e-bost arall i egluro i bawb beth oedd y dyddiadau cywir.   |
| Tachwedd 2020  | Priffyrdd a Thraffig: Arwydd ffordd gyda fersiwn Gymraeg anghywir.  | Aelod cyhoedd.                  | o'r | Ymgynghorodd aelod o'r cyhoedd ar fersiwn Gymraeg, ychwanegwyd diweddariad at ein cronfa ddata a chyhoeddwyd arwydd newydd oherwydd bod angen ailosod yr hen arwydd.  |
| Ionawr 2021  | Gwasanaethau'r Parciau: Arwyddion gyda  | Aelod cyhoedd.                  | o'r | Roedd y gŵyn hon am arwydd ar dir a rentwyd gan drydydd parti. Darparodd y Cyngor y cyfieithiad Cymraeg cywir fel arwydd o ewyllys da i'n tenant.   |

|               |  |                                 |   |
|---------------|--|---------------------------------|---|
|               | fersiwn Gymraeg anghywir.  |                                 |   |
| Ionawr 2021   | Gwasanaethau lechyd a Diogelwch y Cyhoedd: Gohebiaeth â chyfeiriad Cymraeg yn unig yn ffenestr yr amlen. | Aelod cyhoedd.                  | o'r Hysbyswyd yr achwynydd o'n dyletswyddau statudol i ddarparu'r holl ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg pan fydd yn cael ei hanfon at fwy nag un person ar y tro ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a dyna pam mae'r cyfeiriad Cymraeg yn ymddangos yn gyntaf. |
| Ionawr 2021   | Gwasanaethau i Blant: Gohebiaeth am Frechlyn i Gynhalwyr (Gofalwyr) personol yn Saesneg yn unig.         | Aelod cyhoedd.                  | o'r Cwyn ddilys. Atgoffwyd yr Adran o'r angen i anfon yr holl ohebiaeth at fwy nag un person ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg.  |
| Chwefror 2021 | Gwasanaethau Cynhwysiant: Ateb yn Saesneg yn unig.   | Aelod cyhoedd.                  | o'r Cwyn ddilys. Rhoddwyd ymddiheuriad llawn. Cofnod personol wedi'i ddiweddarau i nodi dewis iaith. Gohebiaeth wedi'i hail-anfon yn Gymraeg.   |
| Chwefror 2021 | Adran Eiddo'r Cyngor: Arwyddion dim ysmegu ar gyfer ysgolion gyda Chymraeg anghywir                      | Aelod cyhoedd.                  | o'r Templedi wedi'u diweddarau a'u rhannu gyda'r holl ysgolion.   |
| Mawrth 2021   | Priffyrdd a Thraffig: Arwyddion traffig ffordd dros dro yn Saesneg yn unig.                              | Aelod cyhoedd.                  | o'r Hysbyswyd y contractwr o'r angen i gyflenwi fersiynau Dwyieithog o'r holl arwyddion a godwyd ar gyfer y Cyhoedd.  |
| Mawrth 2021   | Priffyrdd a Thraffig: Arwyddion ffyrdd dros dro gyda fersiwn Gymraeg anghywir.                           | Aelod cyhoedd.                  | o'r Roedd yr arwyddion wedi'u tynnu cyn i ni allu ymchwilio ymhellach.  |
| Mawrth 2021   | Yr Adran Weithredol: Neges ebost yn Saesneg yn unig.   | Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol. | Atgoffwyd yr Adran i anfon yr holl negeseuon e-bost eglurhaol ynghyd â gohebiaeth wedi'i hatodi yn Gymraeg a Saesneg wrth eu hanfon at fwy nag un person (neu'r Cynghorwyr) ar yr un pryd.  |
| Mawrth 2021   | Gwasanaethau Gwastraff: Arwyddion cyhoeddus mewn Canolfan Ailgylchu gyda fersiwn Gymraeg anghywir.       | Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol. | Mae arwyddion yn cael eu diwygio i gynnwys y fersiwn Gymraeg gywir.   |

|                        |   |                       |                                  |
|------------------------|---|-----------------------|----------------------------------|
| Rhagfyr 2020 - Parhaus | Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion:<br>Honiad y gwrthodwyd cais am wasanaeth Cymraeg. | Comisiynydd y Gymraeg | Mae ymchwiliad mewnol yn parhau. |
|------------------------|---|-----------------------|----------------------------------|

## SGILIAU CYMRAEG Y STAFF: SAFON 170(2)(a)

Mae'r adran yma'n nodi nifer y gweithwyr/deiliaid swyddi oedd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2019-2020 (Mawrth 2020). Mae'r ffigurau yma'n seiliedig ar y cofnodion sy'n cael eu cadw yn unol â Safon 151, yn seiliedig ar ofynion Safon 127.

| Blwyddyn       | Staff*      | Math o staff                                     | Dim sgiliau**   | %             |
|----------------|-------------|--|-----------------|---------------|
| 17 - 18        | 7061        | Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion        | 4730            | 66.99%        |
| 18 - 19        | 7067        | Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion        | 3871            | 54.78%        |
| 19 - 20        | 7181        | Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion        | 3134            | 43.64%        |
| <b>20 – 21</b> | <b>7351</b> | <b>Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion</b> | <b>3264</b>     | <b>44.40%</b> |
| Blwyddyn       | Staff*      | Math o staff                                     | Rhugl           | %             |
| 17 - 18        | 7061        | Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion        | 402             | 5.69%         |
| 18 - 19        | 7067        | Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion        | 491             | 6.95%         |
| 19 - 20        | 7181        | Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion        | 569             | 7.92%         |
| <b>20 – 21</b> | <b>7351</b> | <b>Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion</b> | <b>622</b>      | <b>8.69%</b>  |
| Blwyddyn       | Staff*      | Math o staff                                     | Cymraeg Lefel 1 | %             |
| 17 - 18        | 7061        | Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion        | 1562            | 22.12%        |
| 18 - 19        | 7067        | Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion        | 2261            | 31.99%        |
| 19 - 20        | 7181        | Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion        | 2658            | 37.01%        |

|                |             |   |             |               |
|----------------|-------------|---|-------------|---------------|
| <b>20 – 21</b> | <b>7351</b> | <b>Staff sydd ddim yn<br/>gweithio<br/>ysgolion</b> | <b>2914</b> | <b>39.64%</b> |
|----------------|-------------|---|-------------|---------------|

|                |             |  | <b>Cymraeg Lefel 2</b> | <b>%</b>     |
|----------------|-------------|--|------------------------|--------------|
| 18 - 19        | 7067        | Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn        | 315                    | 4.46%        |
| 19 - 20        | 7181        | Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn        | 349                    | 4.86%        |
| <b>20 – 21</b> | <b>7351</b> | <b>Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn</b> | <b>363</b>             | <b>4.93%</b> |
|                |             |  | <b>Cymraeg Lefel 3</b> | <b>%</b>     |
| 18 - 19        | 7067        | Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn        | 129                    | 1.83%        |
| 19 - 20        | 7181        | Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn        | 137                    | 1.90%        |
| <b>20 – 21</b> | <b>7351</b> | <b>Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn</b> | <b>146</b>             | <b>1.98%</b> |
|                |             |  | <b>Cymraeg Lefel 4</b> | <b>%</b>     |
| 18 - 19        | 7067        | Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn        | 119                    | 1.68%        |
| 19 - 20        | 7181        | Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn        | 143                    | 1.99%        |
| <b>20 – 21</b> | <b>7351</b> | <b>Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn</b> | <b>162</b>             | <b>2.20%</b> |
|                |             |  | <b>Cymraeg Lefel 5</b> | <b>%</b>     |
| 18 - 19        | 7067        | Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn        | 372                    | 5.26%        |
| 19 - 20        | 7181        | Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn        | 426                    | 5.93%        |
| <b>20 – 21</b> | <b>7351</b> | <b>Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn</b> | <b>460</b>             | <b>6.25%</b> |



\*Dydy'r nifer yma ddim yn cynrychioli nifer y gweithwyr - mae'n cynnwys cyflogaeth luosog, hynny yw, mae un gweithiwr wedi'i gyfrif ar gyfer pob swydd sydd gydag ef. Mae'n cynnwys gweithwyr achlysurol hefyd.

\*\*Mae'r ffigur hefyd yn cynnwys staff sydd heb ymateb i'r holiadur eto.

## **HYFFORDDIANT AR GYFER STAFF: SAFON 170 (2)(b) ac (c)**

Does dim newid wedi bod ers y sefyllfa yn 2019-20 o ran hyfforddiant ar gyfer Recriwtio a Hysbysebu, Rheoli Cyflawniad, Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu, Ymsefydlu, Delio â'r Cyhoedd ac Iechyd a Diogelwch, yn seiliedig ar y cofnodion a gafodd eu cadw yn unol â Safon 152 sy'n seiliedig ar ofynion Safon 128.

## **LLENWI SWYDDI GWAG: SAFON 170 (ch)**

Caiff y ffigurau canlynol eu cadw yn unol â Safon 154, yn seiliedig ar ofynion Safon 136. Ers mis Medi 2017, mae'n hanfodol bod pob swydd newydd yn gofyn am Gymraeg Lefel 1 (Cymraeg sylfaenol) gydag opsiynau i reolwyr recriwtio ar lefel 2 i lefel 5 gan ddibynnu ar y swydd. Mae nifer y swyddi ar y lefel rhwng 2 a 5 fel a ganlyn:

|                 |    |            |
|-----------------|----|------------|
| Sgiliau Cymraeg | L1 | <b>254</b> |
| Sgiliau Cymraeg | L2 | <b>4</b>   |
| Sgiliau Cymraeg | L3 | <b>1</b>   |
| Sgiliau Cymraeg | L4 | <b>0</b>   |
| Sgiliau Cymraeg | L5 | <b>3</b>   |

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn araf gan ystyried y ffigurau y llynedd a'r ffaith bod meysydd gwasanaeth wedi cyfaddef bod angen rhagor o sgiliau siarad Cymraeg. Mae angen cynnal rhagor o waith i godi ymwybyddiaeth rheolwyr o bwysigrwydd asesiadau recriwtio yn rhan hanfodol o waith cynllunio'r gweithlu. O'r herwydd, cynhaliwyd archwiliad er mwyn rhoi sylw i'r mater. Bydd cynyddu nifer y swyddogion sy'n siaradwyr Cymraeg yn lliniaru unrhyw bryderon ynglŷn â chynnal gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Rhagor o wybodaeth:**

Uned Gwasanaethau Cymraeg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Pafiliwn D

Cwm Clydach

Tonypandy

Rhondda Cynon Taf

CF40 2XX

Ffôn: 01443 570001

## Atodiad 2

### Safon 37

Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

### Safonau 83>93

83 Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

84 Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.

Rhaid cydymffurfio â safon 84 ymhob amgylchiad, ac eithrio:

- pan fo asesiad a gynhaliwyd yn unol â safon 86 yn dod i'r casgliad nad oes angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg.

86 Os byddwch yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid ichi asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid ichi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan..

87 Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.

88 Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar -

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

89 Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

90 Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasupolisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

91 Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar -

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

92 Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

93 Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**22 EBRILL 2021**

#### **CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL 2020**

#### **ADRODDIAD AR Y CYD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A'R CYFARWYDDWR ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT**

#### **1. DIBEN YR ADRODDIAD**

- 1.1 Rhoi trosolwg i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor a gafodd ei gyflwyno a'i gytuno yng nghyfarfod y Cabinet ar 28 Ionawr 2021.

#### **2. ARGYMHELLION**

Dyma'r argymhellion i'r Aelodau:

- 2.1 Nodi'r wybodaeth sydd wedi'i darparu o ran Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor.

#### **3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION**

- 3.1 Mae angen rhoi diweddariad i Aelodau'r Grŵp Llywio ynglŷn â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ar ôl i'r Cabinet ei drafod.

#### **4. CEFNDIR**

- 4.1 Yng nghyfarfod y Cabinet ar 28 Ionawr 2021, cafodd Aelodau'r Cabinet eu diweddarau ynglŷn â'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y cyfnod 2017–2020, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mawrth 2018.
- 4.2 Y disgwyl oedd mai diweddariad blynyddol 2019–2020 fyddai'r un olaf ar gyfer y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn, ond oherwydd y pandemig Covid-19, mae'r Cynllun wedi'i ymestyn ar gyfer cyfnod 2020–2021.

- 4.3 Mae'r ddolen i'r adroddiad Cabinet a gafodd ei drafod ar gael yma: [Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg](#). Yn ogystal â hynny, mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn amlinellu'r Diweddariad Cynnydd – Rhagfyr 2020 a'r cynllun cynnydd cysylltiedig.
- 4.4 Cynhaliwyd gwaith craffu ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gan y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn ei gyfarfod ar [27 Ionawr, 2021](#).
- 4.5 Ar ôl trafod yr wybodaeth a ddarparwyd, [cytunodd](#) y Cabinet ar y diweddariad blynyddol.

## **5. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

- 5.1 Adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn ac nid yw'n effeithio'n negyddol ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymwneud â'i gynnwys.

## **6. YMGYNGHORI**

- 6.1 Nid yw hyn y berthnasol. Serch hynny, bydd angen ymgynghori ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd yn ystod y 12 mis nesaf.

## **7. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL**

- 7.1 Mae unrhyw oblygiadau ariannol wedi'u hamlinellu yn adroddiad y cabinet.

## **8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL**

- 8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol ar hyn o bryd.

## **9. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

- 9.1 Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gysylltiedig â Chynllun Corfforaethol CBSRhCT, yn benodol mewn perthynas â'r flaenoriaeth ganlynol:
- Ffyniant: Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.
    - Sicrhau bod gyda ni ysgolion da fel bod modd i bob plentyn gael addysg wych.

9.2 Bydd rhoi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith yn cyfrannu at gyflawni saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae sylw dyledus wedi'i roi i'r Pum Dull o Weithio, sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf honno.

## 10. **CASGLIAD**

10.1 Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod addysg Gymraeg ar gael i bob disgybl ni waeth beth yw eu hanghenion fel disgybl, o'r blynyddoedd cynnar, trwy'r ysgol gynradd ac uwchradd, ac ymlaen at addysg bellach ac addysg uwch. Mae hyn yn cyd-fynd â'r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yn nogfen 'Cymraeg 2050'.

10.2 Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd angen datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd ac ymgynghori arno. Bydd modd i wybodaeth ynglŷn â hyn gael ei drafod mewn cyfarfod o'r Grŵp Llywio yn y dyfodol.

### **Gwybodaeth Arall:**

***Pwyllgor Craffu Perthnasol*** – Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

**FEL SY WEDI'I DIWYGIO GAN**

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**16 MAWRTH 2021**

**CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG – DIWEDDARIAD  
BLYNYDDOL 2020**

**ADRODDIAD AR Y CYD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU  
DEMOCRATAIDD A'R CYFARWYDDWR ADDYSG A GWASANAETHAU  
CYNHWYSIANT**

**Papurau Cefndir**

- Cabinet – [28 Ionawr 2021](#)



**RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**MUNICIPAL YEAR 2020/2021**

**CABINET**

**28<sup>TH</sup> JANUARY 2021**

**WELSH IN EDUCATION STRATEGIC PLAN – ANNUAL UPDATE 2020**

**REPORT OF THE DIRECTOR OF EDUCATION AND INCLUSION SERVICES**

**AUTHOR:** Gaynor Davies, Director of Education and Inclusion Services

**1. PURPOSE OF REPORT**

- 1.1 The purpose of this report is to provide Members with an update on the actions outlined in Rhondda Cynon Taf County Borough Council's (RCTCBC's) Welsh in Education Strategic Plan (WESP) for the period between 2017 and 2020 as approved by the Welsh Government (WG) on the 15th of March 2018. The previous 2019 to 2020 annual update was due to be the last annual update for this WESP, however, due to the Covid-19 pandemic, this WESP has been extended to cover the period between 2020 to 2021.

**2. RECOMMENDATIONS**

It is recommended that Members:

- 2.1 Note the contents of this report.
- 2.2 Consider and agree the annual update provided within this report.

**3. REASONS FOR RECOMMENDATIONS**

- 3.1 To provide Cabinet with an update on the actions outlined in RCTCBC's WESP for the extended period between 2020 to 2021.

**4. BACKGROUND**

- 4.1 The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013<sup>1</sup> placed a duty on all Local Authorities in Wales to consult on, produce and review three year plans that provided the strategic direction for the planning and delivery of Welsh medium and Welsh language education in their locality. Since RCTCBC's 2017 to 2020 WESP was initially prepared and submitted to the WG in 2016, there have been significant changes in the Welsh medium education sector at local and national levels. Changes have been mainly influenced by WG legislation, in particular the new Welsh in Education Action Plan – 2017 to 2021 and further implementation of the 21<sup>st</sup> Century

---

<sup>1</sup> [The School Standards and Organisation \(Wales\) Act 2013](#)

Schools and Colleges Programme<sup>2</sup>. The impact of these changes will not be fully evident in the County Borough of Rhondda Cynon Taf (RCT) until well beyond the duration of this WESP. In addition, the WG has updated the regulations regarding WESP's. The Welsh in Education Strategic Plan (Wales) Regulations 2019<sup>3</sup> and The Welsh in Education Strategic Plans (Wales) (Amendment) (Coronavirus) Regulations 2020<sup>4</sup> focus on four key proposals, the principal two being:

- Extending the duration of the WESP from its current three year implementation cycle to a ten year implementation cycle (2022 to 2032).
- Removal of the current duty on Local Authorities to plan their provision of Welsh medium education based on demand with the requirement that Local Authorities achieve targets set by the WG, which aim to increase the percentage of year one learners in Welsh medium education over the duration of the WESP.

- 4.2 RCTCBC welcomes these proposals, but it is mindful that in order to deliver on any agreed targets, various influences must be aligned and external challenges addressed.
- 4.3 Notwithstanding the significant changes in the Welsh medium education sector at local and national levels, along with the complexities of the global Covid-19 pandemic, RCTCBC has continued to support the agreed actions as outlined in its current WESP, with the aim of increasing and improving its Welsh medium education provision and speakers.
- 4.4 Integral to achieving these goals is ensuring there are good schools so all children and young people have equitable access to good English and Welsh medium and Welsh language education. RCTCBC will deliver this by supporting children to have the best start in life and be ready for learning through an improved early years' system and childcare offer and by investing in new and significantly improved 21<sup>st</sup> Century Schools.
- 4.5 RCTCBC remains committed to ensuring the availability of Welsh medium education, from the initial early years through to primary and secondary education then progressing through to higher and further education, for all learners whatever their learning need in line with achieving the vision of one million people in Wales being Welsh speakers by 2050 as set out in Cymraeg 2050: A Million Welsh Speakers<sup>5</sup> (Cymraeg 2050).
- 4.6 This is evident in RCTCBC's ambitious Band B 21<sup>st</sup> Century Schools and Colleges Programme, which comprises a range of projects to increase Welsh medium capacity in the County Borough of RCT.

## **5. CURRENT POSITION**

---

<sup>2</sup> [21<sup>st</sup> Century Schools and Colleges Programme](#)

<sup>3</sup> [The Welsh in Education Strategic Plan \(Wales\) Regulations 2019](#)

<sup>4</sup> [The Welsh in Education Strategic Plans \(Wales\) \(Amendment\) \(Coronavirus\) Regulations 2020](#)

<sup>5</sup> [Cymraeg 2050: A Million Welsh Speakers](#)

5.1 The WESP includes seven outcomes setting out how Local Authorities are expected to improve Welsh medium and Welsh language education in the locality. The priorities are:

- **Outcome 1:** More seven year old children being taught through the medium of Welsh.
- **Outcome 2:** More learners continuing to improve their language skills on transfer from primary to secondary school.
- **Outcome 3:** More learners aged 14 to 16 studying for qualifications through the medium of Welsh.
- **Outcome 4:** More learners aged 14 to 19 study subjects through the medium of Welsh, in schools, colleges and work based learning.
- **Outcome 5:** More learners with advanced skills in Welsh.
- **Outcome 6:** Welsh medium provision for learners with additional learning needs (ALN).
- **Outcome 7:** Workforce planning and continuing professional development.

**STATUTORY SCHOOL AGED LEARNERS WHO ACCESS THEIR EDUCATION THROUGH THE MEDIUM OF WELSH ACROSS THE FIVE LOCAL AUTHORITY AREAS THAT COMPRISE THE CENTRAL SOUTH CONSORTIUM JOINT EDUCATION SERVICE**

5.2 The table that follows outlines the total percentage of statutory school aged learners (aged five to fifteen) who access their learning through Welsh medium primary, middle and secondary schools across each of the five Local Authority areas that comprise the Central South Consortium Joint Education Service (CSC JES) for the previous three academic years and is derived from the Pupil Level Annual School Census (PLASC):

| <b>Total Percentage of Statutory School Aged Learners who Access their Learning Through Welsh Medium Primary, Middle and Secondary Schools</b> |   |             |             |
|--|---|-------------|-------------|
| <b>Local Authority</b>   | <b>Total Percentage of Statutory School Aged Learners</b> |             |             |
|  | <b>2018</b>   | <b>2019</b> | <b>2020</b> |
| <b>Bridgend County Borough Council</b>   | 7.8%  | 7.5%        | 7.4%        |
| <b>Cardiff City Council</b>  | 14.8%   | 15.0%       | 15.3%       |
| <b>Merthyr Tydfil County Borough Council</b>   | 7.3%  | 7.6%        | 7.72%       |
| <b>Rhondda Cynon Taf County Borough Council</b>  | 18.8%   | 18.0%       | 18.8%       |
| <b>Vale of Glamorgan Council</b>   | 12.4%   | 12.7%       | 12.8%       |
| <b>CSC JES</b>   | 13.9%   | 14.0%       | 14.2%       |

5.3 The data demonstrates stability in the total percentage of statutory school aged learners who access their learning through Welsh medium primary, middle and secondary schools across each of the five Local Authority areas that comprise the CSC JES for the previous three academic years.

- 5.4 RCTCBC has the highest percentage statutory school aged learners who access their learning through Welsh medium primary, middle and secondary schools across each of the five Local Authority areas that comprise the CSC JES for the previous three academic years.

### **SURPLUS CAPACITY**

- 5.5 Each Local Authority in Wales has a statutory responsibility to ensure that there is a sufficient supply of suitable school places to meet statutory requirements for early years, primary, secondary and post 16 provision for parents/carers that choose to educate their children through the medium of English or Welsh. To meet this requirement, RCTCBC has responsibility for the pupil admissions of English medium schools and Welsh medium schools and funds a number of voluntary aided schools that manage their own admissions.
- 5.6 The capacities of all school provision is kept under regular, annual review by RCTCBC's Directorate of Education and Inclusion Services using data obtained from PLASC, school forecasts, annual admission requests and live birth information from Cwm Taf University Health Board. Any increase in learner populations, particularly within Welsh medium provision, is closely monitored and, if the increase is sustained and clear within the catchment area of a particular school, consideration is given to making the required increase in capacity, by whatever means is most appropriate and most suited to that particular school.
- 5.7 The majority of the Welsh medium primary schools in the County Borough of RCT currently have surplus places. There is currently 28.1% surplus capacity in Welsh medium primary schools. However, there are a number of primary schools where growth in capacity is needed. As such, action has or is currently being taken to address these issues. For example, RCTCBC:
- Has committed to invest £3.69 million at Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdar to provide a further 48 places.
  - Has brought together the primary and secondary schools to form the new Ysgol Garth Olwg to become a 3 to 19 all through school, to enable the primary school to expand into the surplus space available in the secondary school.
  - Is currently expanding Dolau Primary School as a result of planned housing development in the area – this new provision will provide 540 Welsh medium primary places.
  - Is increasing the capacity at Penderyn Primary School to become a Welsh medium only primary school – the capacity of the school will increase in September 2021.
  - Committed to invest in building a new Welsh medium primary school in Greater Pontypridd area of RCT on the Heol Y Celyn Primary School site, increasing the number of Welsh medium places available in the area. (It should be noted that at the time the WESP Annual Update was submitted to the WG the decision by the Court of Appeal on this proposal was still pending. However, since this date, the Court of Appeal have

subsequently found in favour of RCTCBC on this and the other proposals that were subject to a Judicial Review).

5.8 Furthermore, RCTCBC has also committed to increasing the quality and availability of early years Welsh medium provision co-located on primary school sites by spending £4 million on:

- Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon – Creation and establishment of a new childcare setting into dedicated premises on the school site to expand identified need in the community.
|  | <p>Mae Menter Iaith yn cefnogi pobl ifainc sy'n siarad Cymraeg i gyflwyno sioe radio wythnosol ar GTFM bob dydd Sul (gyda dros 1,000 o wrandawyr).</p> <p>Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i ddisgyblion y Chweched Dosbarth mewn achlysuron amrywiol gan gynnwys cystadlaethau chwaraeon a phenwythnosau preswyl.</p> | <p>Mae gan yr Urdd 70 o Wirfoddolwyr rhwng 16 a 25 oed sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo darpariaeth Gymraeg.</p>  | <p>YEPS ym mhob un o'r pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, i'r garfan newydd o ddisgyblion Blwyddyn Deuddeg.</p>   |
| <p>Hyrwyddo'r digwyddiadau.</p> <p>Cofnodi nifer y bobl ifainc sy'n bresennol a gwerthuso trwy holiaduron ac arolygon.</p> | <p>Achlysuron sy'n cael eu hyrwyddo trwy'r ysgolion/colegau, gwefan Wicid, YEPS a'r cyfryngau cymdeithasol:</p> <p>Menter Iaith - 25+ o bobl ifainc.</p> <p>Urdd - 40+ o bobl ifainc.</p> <p>YEPS - Dim ond ers mis Medi 2018 mae cyfleoedd gwirfoddoli wedi cael eu cynnig.</p>   | <p>Achlysuron sy'n cael eu hyrwyddo trwy'r ysgolion/colegau, gwefan Wicid, YEPS a'r cyfryngau cymdeithasol:</p> <p>Urdd - 70 o wirfoddolwyr.</p> <p>YEPS - 6 o wirfoddolwyr.</p> | <p>Dydy gweithgareddau corfforol ddim wedi'u trefnu oherwydd cyfyngiadau cyfredol Covid-19.</p> <p>Mae YEPS wedi datblygu partneriaeth i'w gwenud hi'n haws i bobl ifainc ym Mwrdeistref Sirol RhCT gyrchu cerddoriaeth a drama gyfrwng Cymraeg. Mae performwyr ifainc o bob rhan o Gymru yn cael eu hyrwyddo trwy wefan WICID.</p> |

|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
| <p>Cyflwyno 'Cymraeg Bob Dydd' i annog pobl ifainc sy'n astudio'r Gymraeg yn ail iaith i ymgymryd ag astudiaeth bellach i'w hannog i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol.</p> <p>Cofnodi nifer y bobl ifainc sy'n bresennol a gwerthuso trwy holiaduron ac arolygon.</p> | <p>Cyflwynodd yr Urdd sesiynau codi ymwybyddiaeth i 350 o bobl ifainc yng Ngholeg Cymunedol Tonypany, Ysgol Gymunedol Aberdâr ac Ysgol Gyfun Aberpennar.</p> <p>Mae'r ysgolion uwchradd wedi cysylltu â Gweithiwr Ieuenctid yr Urdd i ddefnyddio'r cynnig o £500 i hyrwyddo'r Gymraeg, e.e. Tafwyl, Eisteddfod a dod â thiworiaid allanol i mewn i hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol.</p> <p>Bydd ceisiadau ar gyfer 2018/2019 yn cael eu hanfon at Uwch Garfan Rheoli'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Chynhwysiant CBSRhCT ac adrannau Cymraeg mewn ysgolion.</p> | <p>Mae'r Urdd wedi cyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth iaith yn yr ysgolion canlynol:</p> <p>Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru</p> <p>Ysgol Gyfun Aberpennar</p> <p>Ysgol Gymunedol Aberdâr</p> <p>Ysgol Nant-gwyn</p> <p>Ysgol Uwchradd Pontypridd</p> <p>Ysgol Gyfun Treorci</p> | <p>Gan fod Gweithwyr Ieuenctid o'r Urdd wedi cael eu rhoi ar y cynllun ffyrlo o ganlyniad i gyfyngiadau cyfredol Covid-19, does dim sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi cael eu cynnal.</p> <p>Mae YEPS wedi cefnogi Gyrfa Cymru i greu fideo addysgol i ddisgyblion ysgolion uwchradd Cymraeg a Saesneg i hyrwyddo buddion gyrfa dwyieithog.</p> |
| <p>Cyflwyno achlysuron a gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg i bobl ifainc gan gynnwys cyfleoedd preswyl,</p>  | <p>Cafodd clybiau ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg YEPS eu cynnig ym mhob un o'r pedair ysgol uwchradd</p>  | <p>Mae gan yr Urdd 350 aelod rhwng 16 a 25. Mae'r aelodau yma'n cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau gan gynnwys achlysuron chwaraeon,</p>   | <p>Cyn cyfyngiadau Covid-19 ar gyfartaledd, roedd 40 o bobl ifainc yn mynd i Glwb Ieuenctid mynediad agored wythnosol yng Nghanolfan Ieuenctid Garth Olwg. O</p>   |

|   |   |  |  |
|---|---|--|--|
| <p>eisteddfodau, chwaraeon ac achrediad.</p>  | <p>cyfrwng Cymraeg yn ystod y tymor.</p> <p>Cynigwyd gweithgareddau gwyliau haf trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer ysgolion Cymraeg a Saesneg, gan gynnwys cerdded ceunentydd, rafftio ac adeiladu carfan. Cynigiwyd cyfanswm o 241 o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda 269 wedi cymryd rhan, a 41.0% o'r rhain wedi'u nodi'n pobl ifainc sy'n agored i niwed.</p> <p>Cyflwynwyd cyrsiau achrededig (Addysg Gysylltiedig â Gwaith ac ABCh) i 45 o bobl ifainc mewn tair ysgol uwchradd Gymraeg.</p> | <p>diwylliannol, teithiau preswyl a dysgu achrededig.</p> <p>Cafodd clybiau ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg YEPS eu cynnig ym mhob un o'r pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ystod y tymor.</p> <p>Cynigwyd gweithgareddau gwyliau haf trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer ysgolion Cymraeg a Saesneg, gan gynnwys cerdded ceunentydd, rafftio ac adeiladu carfan. Cynigiwyd cyfanswm o 666 sesiwn trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda dros 1000 o bobl yn cymryd rhan a 44.0% o'r rhain wedi'u nodi'n bobl ifainc sy'n agored i niwed.</p> | <p>ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19 cyfredol cynigiwyd cyfle i'r bobl ifainc yma gymryd rhan mewn darpariaeth rithwir.</p> <p>Mae gweithgareddau ar ôl ysgol a darpariaeth wyliau ar gael i'r disgyblion ym mhob un o'r pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Mae Menter Iaith yn cefnogi pobl ifainc i ddarparu sesiynau radio Cymraeg wythnosol.</p> <p>Mae Menter Iaith yn cynllunio, ffilmio a golygu fideos i bobl ifainc trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> |
| <p>Mapio'r ddarpariaeth gyfredol gyfrwng Cymraeg sy'n cael ei chynnig gan Awdurdodau Lleol a sefydliadau cymunedol, gan nodi bylchau ac amlygu meysydd angen.</p> | <p>Mae Gweithgor yn rhannu gwybodaeth am ddarpariaeth gyfredol ac wedi nodi'r angen sylweddol am ddarpariaeth gyda'r nos a darpariaeth ôl-16. Mae'r YEPS bellach yn cynnig Clwb Ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Garth</p>  | <p>Erbyn hyn mae YEPS yn cynnig Clybiau Ieuenctid cyfrwng Cymraeg yng Ngarth Olwg gyda 35+ yn bresennol ac ym Mhenderyn gyda 15+ yn bresennol. Doedd y clwb yn Nhonysguboriau ddim wedi</p>  | <p>Oherwydd cyfyngiadau cyfredol Covid-19, mae'r holl ddarpariaeth bellach yn rithwir.</p> <p>Hyrwyddir darpariaeth trwy wefan Wicid a llwyfannau</p>  |



Sicrhau bod y ddarpariaeth a gynigir yn cael ei hysbysebu ar Dewis.

Olwg gyda 25+ yn bresennol ac ym Mhenderyn gyda 15+ yn bresennol. Mae'r Urdd, Menter Iaith a'r YEPS yn cynnig darpariaeth gyda'r nos yn Nhonysguboriau. Mae'r clybiau yma hefyd yn agored i'r rheiny sy'n dysgu Cymraeg.

Mae Menter Iaith a'r Urdd yn cynnig darpariaeth ôl-16 yn Nhreforci ac ym Mhontypridd yn dilyn yr ymarfer mapio.

Mae'r YEPS wedi diweddarau gwybodaeth ar Dewis a gwefan Wicid. Mae'r Gweithgor wedi nodi y byddai hyrwyddo'r darpariaethau i bobl ifainc hefyd yn effeithiol gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, felly mae defnydd wedi cael ei wneud o Twitter, Snapchat, Facebook ac Instagram.

parhau gan fod y nifer a aeth yno ddim yn ddigonol.

Mae'r Urdd a'r Menter Iaith yn cynnal Fforymau Ieuencid yn Llanhari, Rhydywaun a Garth Olwg. Mae'r Fforymau Ieuencid yma'n trefnu cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifainc fel bod ganddyn nhw gyfleoedd pellach i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan yr Urdd 70 o Wirfoddolwyr rhwng 16 a 25 oed sy'n cefnogi.

Rhennir gwybodaeth gan bartneriaid yn y Gweithgor Strategaeth Gwasanaethau Cymorth Ieuencid, er mwyn sicrhau bod darpariaeth gynhwysfawr yn cael ei chynnig i bobl ifainc a bod cyfle digonol i gymryd rhan trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei hyrwyddo ar wefan YEPS a

cyfryngau cymdeithasol YEPS a Menter Iaith.

|  |  |   |   |   |
|--|--|---|---|---|
|  |  |   | llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.  |   |
|  | Sefydlu cysylltiadau â Fforwm leuenctid CBSRhCT a Fforymau leuenctid eraill ynghylch hyrwyddo darpariaeth Gymraeg. | Mae Menter Iaith yn cefnogi Fforymau leuenctid ym mhob un o'r pedair ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg. Mae unigolion o'r Fforymau leuenctid hyn yn mynychu Fforwm leuenctid YEPS a gynhelir bob chwarter.             | Mae Menter Iaith yn cefnogi Fforymau leuenctid ym mhob un o'r pedair ysgol uwchradd Gymraeg. Mae'r bobl ifainc o'r Fforymau leuenctid yma'n trefnu darpariaeth i ddysgwyr eraill i gymdeithasu yn y Gymraeg.        | Dydy'r Fforymau leuenctid ddim wedi cwrdd rhwng mis Mawrth a mis Medi eleni o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19. Mae'r YEPS bellach yn cyfarfod yn fisol ac mae Menter Iaith yn hyrwyddo eu Fforwm ym mhob un o'r pedair ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg.<br><br>Unwaith y bydd cefnogaeth Menter Iaith ar gyfer Fforymau leuenctid wedi'i ailsefydlu, byddan nhw'n cymryd rhan yn Fforwm leuenctid YEPS. |
|  | Gweithio ar y cyd i gydlynu a darparu Rhaglenni Gwyliau trwy gyfrwng y Gymraeg.                                    | Mae hyn yn cael ei ddatblygu bob tymor, yn unol â Rhaglen YEPS. Mae YEPS, yr Urdd a Menter Iaith yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ei gilydd ynghyd â gwefan Wicid i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifainc. | Mae hyn yn cael ei ddatblygu bob tymor, yn unol â Rhaglen YEPS. Mae YEPS, yr Urdd a Menter Iaith yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ei gilydd ynghyd â gwefan Wicid i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifainc. | Eleni mae'r holl ddarpariaeth wyliau wedi bod yn rhithwir. Mae'r galw am ddarpariaeth rithwir gyfrwng Cymraeg wedi bod yn llawer llai na darpariaeth gorfforol. Mae rhai gweithgareddau rhithwir wedi cael eu cynnig yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan gynnwys Clwb leuenctid Rhithwir Garth Olwg.  |

|  |  |   |   |   |
|--|--|---|---|---|
|  |  |   | Caiff gwybodaeth gan bartneriaid yn y Gweithgor Strategaeth Gwasanaethau Cymorth leuenctid ei rhannu i sicrhau bod darpariaeth gynhwysfawr yn cael ei chynnig i bobl ifainc sydd â chyfle digonol i gymryd rhan yn y Gymraeg.   |   |
|  | Hyrwyddo gweithgareddau sy'n cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefannau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. | Mae hyn yn cael ei ddatblygu bob tymor, yn unol â Rhaglen YEPS. Mae YEPS, yr Urdd a Menter Iaith yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ei gilydd ynghyd â gwefan Wicid i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifainc. | <p>Mae hyn yn cael ei ddatblygu bob tymor, yn unol â Rhaglen YEPS. Mae YEPS, yr Urdd a Menter Iaith yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ei gilydd ynghyd â gwefan Wicid i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifainc.</p> <p>Cymerodd dros 100 o bobl ifainc ran yng ngweithgareddau YEPS trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae'r Urdd a'r Menter Iaith yn cynnal achlysuron blynyddol i bobl ifainc.</p> | Mae'r holl ddarpariaeth wedi'i hyrwyddo i bobl ifainc trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol YEPS, yr Urdd a Menter Iaith ynghyd â gwefan Wicid. |
|  | Nodi hyrwyddwyr (pobl ifainc ac oedolion fel ei gilydd) a all mynd i achlysuron                                      | Mae'r Gweithgor Cymraeg wedi canolbwyntio ar  | Mae pobl ifainc o Fforymau leuenctid Menter Iaith yn hyrwyddo cyfleoedd ym  | Dydy YEPS na Menter Iaith ddim wedi mynd i unrhyw achlysuron cymunedol eleni  |

|   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|
| <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen 28</p>     | <p>cymunedol i ymgysylltu â'r cyhoedd a hyrwyddo gweithgareddau sy'n cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol RhCT.</p>   | <p>hyrwyddo darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae pobl ifainc o Fforymau Ieuenctid Menter Iaith yn hyrwyddo cyfleoedd ym Mwrdeistref Sirol RhCT i bobl ifainc yn eu hysgolion.</p> <p>Roedd staff YEPS wedi mynd i sawl achlysur cymunedol yn ystod yr haf i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifainc, gan gynnwys darpariaeth yn y Gymraeg.</p>   | <p>Mwrdeistref Sirol RhCT i bobl ifainc yn eu Hysgolion.</p> <p>Roedd staff YEPS wedi mynd i sawl achlysur cymunedol yn ystod yr haf i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifainc, gan gynnwys darpariaeth yn y Gymraeg.</p>  | <p>oherwydd cyfyngiadau cyfredol Covid-19.</p>  |
| <p><b>Deiliant 5:</b></p> <p><b>Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg.</b></p> | <p>Sefydlu Gweithgor Iaith Gymraeg a fydd yn datblygu Strategaeth ar y cyd erbyn mis Medi 2017 sy'n galluogi'r Gymraeg i fod yn iaith gweithgareddau cymdeithasol a hamdden.</p> <p>Cyfarfodydd Gweithgor Iaith Cymru i'w cynnal bob chwarter, gydag agenda a chofnodion penodol.</p> | <p>Sefydlwyd y Gweithgor Iaith Gymraeg gyda Gweithwyr Ieuenctid o YEPS, yr Urdd a Menter Iaith. Yn rhan o'r Cynllun Gweithredu mae'r Gweithgor Iaith Gymraeg wedi gweithio ar y cyd i gynnig sawl cyfle cymdeithasol i bobl ifainc ym Mwrdeistref Sirol RhCT i gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon, hamdden a diwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau ar ôl ysgol ym mhob un o'r pedair ysgol</p> | <p>Dydy'r Gweithgor Iaith Gymraeg ddim wedi cyfarfod. Fodd bynnag, bydd yr Urdd a Menter Iaith yn rhan o Grŵp Chwaraeon, Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant, yn rhan o'r Strategaeth Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid. Bydd hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar draws yr holl ddarpariaethau. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal bob tymor.</p> | <p><b>Mae'r Grŵp Chwaraeon, Hamdden, Celfyddydau a Diwylliant wedi parhau i gwrdd, fodd bynnag, dydy'r Urdd ddim wedi gallu bod yn bresennol gan fod ei staff ar y cynllun ffyrlo.</b></p> <p><b>Dydy darpariaeth gymunedol Gymraeg gydlynol ddim wedi'i threfnu ar gyfer eleni oherwydd cyfyngiadau cyfredol Covid-19. Cynigiwyd cefnogaeth a darpariaeth rithwir i bobl</b></p> |

Cwblhau Cynllun Gweithredu ochr yn ochr â'r Strategaeth i'w diweddarau bob chwarter yn unol â'r Strategaeth.

uwchradd cyfrwng Cymraeg, darpariaeth wyliau a dau Glwb Ieuenctid cyfrwng Cymraeg (Tonysguboriau a Garth Olwg), sy'n cynnig darpariaeth gyda'r nos ar gyfer pobl ifainc sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr Cymraeg.

Cefnogodd yr Urdd a YEPS Menter Iaith ym Mharti Ponty, a oedd yn achlysur a gynhaliwyd ym Mhontypridd i hyrwyddo'r Gymraeg.

Bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei greu yn dilyn y cyfarfod fel bod gwahanol sefydliadau yn atebol am y ddarpariaeth Gymraeg maen nhw'n ei chynnig.

Cefnogodd yr Urdd a YEPS Menter Iaith ym Mharti Ponty, a oedd yn achlysur a gynhaliwyd ym Mhontypridd i hyrwyddo'r Gymraeg.

ifainc, gan gynnwys clwb ieuenctid rhithwir.

Tudalen way

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2017–2020**

#### **DIWEDDARIAD CYNNYDD - RHAGFYR 2020**

##### **CYFLWYNIAD**

Yn unol â chais Llywodraeth Cymru (LIC), mae'r ddogfen yma'n darparu diweddariad ar y camau sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) am y cyfnod rhwng 2017 a 2020 a gafodd ei gymeradwyo gan LIC ar 15 Mawrth 2018. Y diweddariad blaenorol, sef un 2019 i 2020, oedd i fod y diweddariad olaf ar gyfer y CSCA yma, ond oherwydd Covid-19, mae cyfnod y CSCA wedi'i ymestyn i gynnwys y cyfnod 2020 i 2021. Mae gofyn bod diweddariad yn cael ei gyflwyno i LIC erbyn 20 Rhagfyr 2020 fan bellaf.

Ers paratoi CSCA CBSRhCT 2017 i 2020 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn 2016, mae newidiadau sylweddol wedi bod yn y sector addysg gyfrwng Gymraeg, a rheiny ar lefelau lleol a chenedlaethol. Deddfwriaeth LIC sydd wedi dylanwadu'n bennaf ar y newidiadau yma, yn enwedig y Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg - 2017 i 2021 newydd<sup>1</sup>, a hefyd gweithredu Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21<sup>ain</sup> Ganrif<sup>2</sup> Ni fydd ffrwyth llafur y newidiadau hyn yn gwbl amlwg ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) nes ymhell ar ôl i'r CSCA cyfredol ddod i ben. Yn ogystal, mae LIC wedi diweddarau'r rheoliadau ynghylch CSCAau. Mae Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019<sup>3</sup> yn canolbwyntio ar bedwar cynnig allweddol, a'r prif ddau yw:

- Ymestyn hyd cylch gweithredu'r CSCA o'i dair blynedd gyfredol i ddeng mlynedd.
- Disodli'r ddyletswydd gyfredol sydd ar Awdurdodau Lleol i gynllunio darpariaeth eu haddysg gyfrwng Gymraeg yn seiliedig ar alw ar yr amod bod Awdurdodau Lleol yn cyflawni targedau sydd wedi'u gosod gan LIC. Nod y targedau yma yw cynyddu canran y disgyblion sydd yn eu blwyddyn gyntaf o addysg gyfrwng Gymraeg dros gyfnod y CSCA yma.

Mae CBSRhCT yn croesawu'r cynigion yma, ond yn effro i'r ffaith fod yn rhaid alinio dylanwadau amrywiol a mynd i'r afael â heriau allanol er mwyn cyflawni unrhyw dargedau cytûn.

Er gwaethaf newidiadau sylweddol i'r sector addysg gyfrwng Gymraeg ar lefelau lleol a chenedlaethol, ynghyd â chymhlethdodau byd-eang yn sgil pandemig Covid-19, mae CBSRhCT wedi parhau i gefnogi'r camau cytûn sydd wedi'u hamlinellu yn ei CSCA cyfredol, gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr a hefyd darpariaeth addysg gyfrwng Gymraeg a rhagori arno.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae CBSRhCT am adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni hyd yma a sicrhau bod pob tref a chymuned yn RhCT yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae. Uchelgais CBSRhCT yw bod pawb mor iach, annibynnol a llewyrchus â phosibl trwy

---

<sup>1</sup> [Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg - 2017 i 2021](#)

<sup>2</sup> [Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif](#)

<sup>3</sup> [Rheoliadau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg \(Cymru\) 2019](#)

gydol eu bywydau. Mae agor y drws i addysg dda, datblygu sgiliau a chynnig cyfleoedd cyflogaeth o safon i gyd yn feysydd blaenoriaeth allweddol.

Mae sicrhau ysgolion da yn ganolog i gyflawni'r nodau hyn fel bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad i addysg gyfrwng Gymraeg ac addysg Gymraeg gadarn. Bydd CBSRhCT yn cyflawni hyn trwy gynorthwyo plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd a bod yn barod i ddysgu trwy system blynyddoedd cynnar sydd wedi gweld gwelliant, cynnig gofal plant a hefyd trwy fuddsoddi mewn Ysgolion 21ain Ganrif newydd sydd wedi gwella'n sylweddol.

## **Y SEFYLLFA BRESENNOL**

### **DISGYBLION OEDRAN YSGOL STATUDOL SY'N DERBYN ADDYSG GYFRWNG GYMRAEG AR DRAWS ARDAL Y PUM AWDURDOD LLEOL SY'N RHAN O WASANAETH ADDYSG AR Y CYD CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE**

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu cyfanswm y canran o ddisgyblion oedran ysgol statudol (pump i bymtheg oed) sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd cyfrwng Cymraeg ar draws pob un o bum Awdurdod Lleol yr ardal sy'n rhan o Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD), yn ystod y tair blynedd academaidd diwethaf. Mae'r wybodaeth yn deillio o Gyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgyblion (CYBLD):

| <b>Cyfanswm y canran o Ddisgyblion Oedran Ysgol Statudol (Pump i Bymtheg Oed) sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion Cynradd, Canol ac Uwchradd Cyfrwng Cymraeg.</b> |  |             |             |
|--|--|-------------|-------------|
| <b>Awdurdod Lleol</b>  | <b>Cyfanswm y canran o Ddisgyblion Oedran Ysgol Statudol</b> |             |             |
|  | <b>2018</b>  | <b>2019</b> | <b>2020</b> |
| <b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</b>   | 7.57%  | 7.46%       | 7.40%       |
| <b>Cyngor Dinas Caerdydd</b>   | 14.81%   | 15.05%      | 15.30%      |
| <b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful</b>   | 7.33%  | 7.63%       | 7.72%       |
| <b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf</b>  | 18.80%   | 18.90%      | 18.81%      |
| <b>Cyngor Bro Morgannwg</b>  | 12.38%   | 12.69%      | 12.79%      |
| <b>Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De</b>  | 13.92%   | 14.08%      | 14.16%      |

Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yng nghyfanswm y canran o ddisgyblion statudol oedran ysgol (rhwng pump a phymtheg oed) sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd cyfrwng Cymraeg ar draws ardal y pum Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r Gwasanaeth Addysg ar y Cyd yn ystod y tair blynedd academaidd diwethaf.



Mae gan CBSRhCT y ganran uchaf o ddisgyblion oedran ysgol statudol (pump i bymtheg oed) sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd cyfrwng Cymraeg ar draws ardal y pum Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r Gwasanaeth Addysg ar y Cyd yn ystod y tair blynedd academaidd diwethaf.

**DEILLIANT 1: CYNNYDD YN Y NIFER O DDISGYBLION SAITH OED SY'N CAEL EU HADDYSGU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG**

**YSGOLION CYNRADD**

Mae gan CBSRhCT un deg saith o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn sicrhau mynediad i bawb. Mae dwy ysgol bob oed i blant 3 i 19 oed: Ysgol Garth Olwg ac Ysgol Llanhari, tair ysgol gynradd y ddwy iaith ar gyfer plant 3 i 11 oed: Ysgol Gynradd Dolau, Ysgol Gynradd Heol y Celyn ac Ysgol Gynradd Penderyn, a 12 ysgol gynradd ar gyfer plant 3 i 11 oed. Mae pob un o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion yma'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r tabl nesaf yn amlinellu cyfanswm y disgyblion oedran ysgol gynradd sydd wedi mynychu ysgolion yn CBSRhCT yn ystod y tair blynedd academaidd ddiwethaf. Maen nhw wedi'u rhannu'n gyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ac mae'r wybodaeth yn deillio o'r CYBLD:

| <b>Cyfanswm Disgyblion Oedran Ysgol Gynradd sy'n Mynychu Ysgolion yn CBSRhCT wedi'i rannu'n Gyfrwng Saesneg a Chyfrwng Cymraeg</b> |                  |          |                  |          |                  |          |
|--|------------------|----------|------------------|----------|------------------|----------|
| <b>Categori</b>  | <b>Blwyddyn</b>  |          |                  |          |                  |          |
|  | <b>2017/2018</b> |          | <b>2018/2019</b> |          | <b>2019/2020</b> |          |
|  | <b>Nifer</b>     | <b>%</b> | <b>Nifer</b>     | <b>%</b> | <b>Nifer</b>     | <b>%</b> |
| <b>Cyfanswm y disgyblion sy'n Mynychu Ysgolion Cynradd Cyfrwng Saesneg</b>   | 18,241           | 80.95%   | 18,153           | 80.96%   | 18,078           | 81.07%   |
| <b>Cyfanswm y Disgyblion sy'n Mynychu Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg</b>   | 4,291            | 19.04%   | 4,269            | 19.03%   | 4,220            | 18.93%   |
| <b>Cyfanswm y Disgyblion sy'n Mynychu Ysgolion Cynradd</b>   | <b>22,532</b>    |          | <b>22,422</b>    |          | <b>22,763</b>    |          |

Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng disgyblion oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a'r rheiny sy'n mynychu addysg Gyfrwng Gymraeg yn CBSRhCT yn ystod y tair blynedd academaidd diwethaf.

Mae'r nifer o lefydd sydd ar gael ym mhob ysgol yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant CBSRhCT. Defnyddir data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), rhagolygon ysgol, ceisiadau derbyn blynyddol a gwybodaeth genedigaethau byw Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae unrhyw gynnydd mewn poblogaethau disgyblion, yn enwedig o fewn darpariaeth gyfrwng Gymraeg, yn cael ei fonitro'n ofalus. Os yw'r cynnydd yn glir ac yn cael ei gynnal o fewn dalgylch ysgol benodol, mae cynyddu nifer y llefydd angenrheidiol yn cael ei ystyried yn y ffordd sydd fwyaf priodol ac sydd fwyaf addas i'r ysgol benodol honno.

Ar hyn o bryd mae gan y mwyafrif o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol RhCT lefydd dros ben. Fodd bynnag, mae yna nifer o ysgolion cynradd lle mae angen cynyddu'r nifer o lefydd. O ganlyniad i hynny, mae camau'n cael eu cymryd ar hyn o bryd, neu eisoes wedi'u cymryd, i fynd i'r afael â'r materion hyn. Er enghraifft, mae CBSRhCT wedi:

- Ymrwymo i fuddsoddi £3.3 miliwn yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr i ddarparu 60 lle ychwanegol.
- Uno ysgol gynradd ac uwchradd Garth Olwg i fod yn ysgol 3-19 oed, er mwyn galluogi'r ddarpariaeth gynradd i ehangu i'r lle sydd dros ben yn yr ysgol uwchradd;
- Ar hyn o bryd mae Ysgol Gynradd Dolau yn cael ei hehangu gan fod cynlluniau ar y gweill i ddatblygu tai yn yr ardal. Bydd y ddarpariaeth newydd yma'n darparu 540 o lefydd cynradd cyfrwng Cymraeg.
- Bydd Ysgol Gynradd Penderyn yn troi'n ysgol gyfrwng Gymraeg yn unig ym mis Medi 2021 gan gynyddu llefydd darpariaeth Gymraeg yn yr ysgol.

Yn ogystal, mae CBSRhCT wedi ymrwymo i gynyddu ansawdd ac argaeledd darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar ar safleoedd ysgolion cynradd trwy wario £3.5miliwn ar y canlynol:

- Creu cyfleuster gofal plant newydd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr.
- Symud cyfleuster gofal plant sydd eisoes yn bodoli yn Ysgol Llanhari o hen dŷ'r gofalwr i leoliad newydd ar safle'r ysgol.
- Sicrhau gwelliant sylweddol i gyfleusterau gofal plant a oedd eisoes yn bodoli yn YGG Evan James.

## DISGYBLION BLWYDDYN DAU

Mae'r tabl nesaf yn amlinellu cyfanswm y disgyblion oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn CBSRhCT. Mae'r data wedi'i rannu yn ôl grŵp blwyddyn a Chyfnod Allweddol am y tair blynedd academaidd diwethaf ac yn deillio o'r CYBLD:

| <b>Cyfanswm y Dysgwyr Oedran Ysgol Gynradd sy'n Mynychu Ysgolion Cynradd Canolig Cymru yn CBSRhCT Wedi'i rannu yn ôl Grŵp Blwyddyn a Chyfnod Allweddol</b> |                                  |                  |                  |                  |
|--|----------------------------------|------------------|------------------|------------------|
| <b>Cyfnod Allweddol</b>  | <b>Grŵp blwyddyn</b>             | <b>Blwyddyn</b>  |                  |                  |
|  |                                  | <b>2017/2018</b> | <b>2018/2019</b> | <b>2019/2020</b> |
| <b>Cyfnod Sylfaen</b>  | <b>Cyn-feithrin</b>              | 73               | 24               | 27               |
|  | <b>Cyn-feithrin (rhan-amser)</b> | 0                | 19               | 29               |
|  | <b>Y Feithrinfa</b>              | 519              | 421              | 406              |
|  | <b>Meithrin (rhan-amser)</b>     | 0                | 140              | 130              |
|  | <b>Derbyn</b>                    | 554              | 517              | 565              |

|   |                            |              |              |              |
|---|----------------------------|--------------|--------------|--------------|
|   | <b>Derbyn (rhan-amser)</b> | 0            | 1            | 0            |
|   | <b>Blwyddyn Un</b>         | 530          | 537          | 506          |
|   | <b>Blwyddyn Dau</b>        | 543          | 516          | 534          |
| <b>Cyfanswm y Cyfnod Sylfaen</b>            |                            | <b>2,219</b> | <b>2,015</b> | <b>2,038</b> |
| <b>Cyfanswm Rhan Amser y Cyfnod Sylfaen</b> |                            | <b>0</b>     | <b>160</b>   | <b>159</b>   |
| <b>Cyfnod Allweddol Dau</b>                 | <b>Blwyddyn Tri</b>        | 512          | 533          | 507          |
|   | <b>Blwyddyn Pedwar</b>     | 532          | 499          | 521          |
|   | <b>Blwyddyn Pump</b>       | 539          | 528          | 486          |
|   | <b>Blwyddyn Chwech</b>     | 489          | 534          | 509          |
| <b>Cyfanswm Cyfnod Allweddol Dau</b>        |                            | <b>2,072</b> | <b>2,094</b> | <b>2,023</b> |
| <b>Cyfanswm yr Ysgolion Cynradd</b>         |                            | <b>4,291</b> | <b>4,269</b> | <b>4,220</b> |

Mae'r data'n dangos gostyngiad bach o 22 disgybl yng nghyfanswm disgyblion ysgolion cynradd rhwng y blynyddoedd academaidd 2017/2018 (4,291) i 2018/2019 (4,269), a gostyngiad o 49 disgybl rhwng y blynyddoedd academaidd 2018/2019 (4,269) i 2019/2020 (4,220).

Mae'r data hefyd yn dangos nifer y dysgwyr saith oed (Blwyddyn Dau) sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhwng y blynyddoedd academaidd 2017/2018 (543) a 2019/2020 (516), roedd gostyngiad o 27 yn y nifer o ddysgwyr (4.97%). Fodd bynnag, rhwng y blynyddoedd academaidd 2018/2019 (516) a 2019/2020 (534), roedd cynnydd o 18 dysgwyr (+3.48%).

Mae hyn yn is na'r targed a osodwyd yn CSCA 2017 i 2020 a oedd yn nodi y byddai 630 o ddisgyblion saith oed (Blwyddyn Dau) yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y flwyddyn academaidd 2019/2020.

## **DEILLIANT 2: MWY O DDISGYBLION YN PARHAU I WELLA EU SGILIAU IAITH WRTH DROSGWLWYDDO O'R YSGOL GYNRADD I'R YSGOL UWCHRADD**

### **YSGOLION UWCHRADD**

Mae gan CBSRhCT bedair ysgol uwchradd gyfrwng Gymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol i sicrhau mynediad i bawb. Mae dwy ysgol bob oed i blant 3 i 19 oed: Ysgol Garth Olwg ac Ysgol Llanhari a dwy ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion 11 i 19 oed: Ysgol Gyfun Cwm Rhondda ac Ysgol Gyfun Rhydywaun. Mae disgyblion sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hefyd yn cael mynediad i addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gyfun Rhydywaun. Mae pob disgybl sy'n mynychu'r ysgolion yma yn dysgu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r tabl nesaf yn amlinellu cyfanswm y disgyblion oedran ysgol uwchradd sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg a'r rheiny sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn CBSRhCT yn ystod y tair blynedd academaidd diwethaf. Mae'r wybodaeth yn deillio o'r CYBLD:

| <b>Cyfanswm y disgyblion Oedran Ysgol Uwchradd sy'n Mynychu Ysgolion yn CBSRhCT wedi'u rhannu'n Cyfrwng Saesneg a Chyfrwng Cymraeg</b> |                  |          |                  |          |                  |          |
|--|------------------|----------|------------------|----------|------------------|----------|
| <b>Categori</b>  | <b>Blwyddyn</b>  |          |                  |          |                  |          |
|  | <b>2017/2018</b> |          | <b>2018/2019</b> |          | <b>2019/2020</b> |          |
|  | <b>Nifer</b>     | <b>%</b> | <b>Nifer</b>     | <b>%</b> | <b>Nifer</b>     | <b>%</b> |
| <b>Cyfanswm y disgyblion sy'n Mynychu Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Saesneg</b>  | 12,550           | 80.65%   | 12,685           | 80.57%   | 12,868           | 80.37%   |
| <b>Cyfanswm y Disgyblion sy'n Mynychu Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg</b>  | 3,010            | 19.34%   | 3,058            | 19.42%   | 3,141            | 19.62%   |
| <b>Cyfanswm y Disgyblion sy'n Mynychu Ysgolion Uwchradd</b>  | <b>15,560</b>    |          | <b>15,743</b>    |          | <b>16,009</b>    |          |

Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng disgyblion oedran ysgol uwchradd sy'n mynychu ysgolion uwchradd Saesneg a'r rheiny sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn CBSRhCT yn ystod y tair blynedd academaidd diwethaf.

Mae'r nifer o lefydd sydd ar gael ym mhob ysgol yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Gwasanaeth Addysg gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD/PLASC), rhagolygon ysgol, ceisiadau derbyn blynyddol a gwybodaeth genedigaethau byw gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol. Mae unrhyw gynnydd mewn poblogaethau disgyblion, yn enwedig o fewn darpariaeth gyfrwng Gymraeg, yn cael ei fonitro'n ofalus. Os yw'r cynnydd yn glir ac yn cael ei gynnal o fewn dalgylch ysgol benodol, mae cynyddu nifer y llefydd angenrheidiol yn cael ei ystyried yn y ffordd sydd fwyaf priodol ac sydd fwyaf addas i'r ysgol benodol honno.

Mae gan y mwyafrif o ysgolion uwchradd Cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol RhCT ddigon o lefydd dros ben. Fodd bynnag, mae un ysgol uwchradd lle mae angen cynyddu nifer y llefydd. Ar hyn o bryd felly, mae'r camau canlynol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater:

- Mae Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21<sup>ain</sup> Ganrif CBSRhCT wedi gwneud cais am £12.16 miliwn i gynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol Gyfun Rhydywaun o 1,040 dysgwr i 1,230. Caiff hyn ei gyflawni trwy ychwanegu ystafelloedd addysgu ychwanegol ynghyd â chyfleusterau chwaraeon newydd i ategu'r cae chwaraeon 3G a gwblhawyd yn ddiweddar. Bydd yr ychwanegiadau yma'n darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i Ysgol Gyfun Rhydywaun a'r gymuned leol, gan gynyddu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad ehangach. Rhagwelir y bydd y dosbarthiadau addysgu newydd arfaethedig yn cael eu cwblhau yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/2023.

## **DISGYBLION BLWYDDYN NAW**

Mae'r tabl nesaf yn amlinellu cyfanswm disgyblion oedran uwchradd sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn CBSRhCT, yn ôl grŵp blwyddyn a Chyfnod Allweddol am y tair blynedd academaidd diwethaf. Mae'r wybodaeth wedi deillio o'r CYBLD:

| <b>Cyfanswm y disgyblion Oedran Ysgol Uwchradd sy'n Mynychu Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg yn CBSRhCT yn ôl Grŵp Blwyddyn a Chyfnod Allweddol</b> |                                |                  |                  |                  |
|--|--------------------------------|------------------|------------------|------------------|
| <b>Cyfnod Allweddol</b>  | <b>Grŵp blwyddyn</b>           | <b>Blwyddyn</b>  |                  |                  |
|  |                                | <b>2017/2018</b> | <b>2018/2019</b> | <b>2019/2020</b> |
| <b>Cyfnod Allweddol Tri</b>  | <b>Blwyddyn Saith</b>          | 545              | 577              | 588              |
|  | <b>Blwyddyn Wyth</b>           | 533              | 538              | 554              |
|  | <b>Blwyddyn Naw</b>            | 504              | 527              | 523              |
| <b>Cyfanswm Cyfnod Allweddol Tri</b>   |                                | <b>1,582</b>     | <b>1,642</b>     | <b>1,665</b>     |
| <b>Cyfnod Allweddol Pedwar</b>   | <b>Blwyddyn Deg</b>            | 491              | 496              | 513              |
|  | <b>Blwyddyn Un ar ddeg</b>     | 434              | 485              | 489              |
| <b>Cyfanswm Cyfnod Allweddol Tri</b>   |                                | <b>925</b>       | <b>981</b>       | <b>1,002</b>     |
| <b>Cyfnod Allweddol Pump / Chweched</b>  | <b>Blwyddyn Deuddeg</b>        | 300              | 241              | 289              |
|  | <b>Blwyddyn Tair ar Ddeg</b>   | 203              | 213              | 184              |
|  | <b>Blwyddyn Pedair ar Ddeg</b> | 0                | 1                | 1                |
| <b>Cyfanswm Cyfnod Allweddol Pump / Chweched Dosbarth</b>  |                                | <b>503</b>       | <b>455</b>       | <b>474</b>       |
| <b>Cyfanswm Ysgol Uwchradd</b>   |                                | <b>3,010</b>     | <b>3,058</b>     | <b>3,141</b>     |

Mae'r data'n dangos cynnydd yng nghyfanswm disgyblion ysgolion uwchradd. Rhwng y blynyddoedd academaidd 2017/2018 (3,010) i 2018/2019 (3,058) roedd cynnydd o 48 dysgwr a rhwng y blynyddoedd academaidd 2018/2019 (3,058) i 2019/2020 (3,141), roedd cynnydd o 83 dysgwr.

Mae'r data hefyd yn dangos nifer y disgyblion un deg pedwar oed (Blwyddyn Naw) sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhwng y blynyddoedd academaidd 2017/2018 (504) a 2019/2020 (527), roedd cynnydd o 23 dysgwr (+ 4.56%). Fodd bynnag, rhwng y blynyddoedd academaidd 2018/2019 (527) a 2019/2020 (523), roedd gostyngiad o 4 dysgwr (0.75%).

Mae hyn yn uwch na'r targed a osodwyd yn CSCA 2017 i 2020, sef y byddai 520 o ddisgyblion pedair ar ddeg oed (Blwyddyn Naw) yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y flwyddyn academaidd 2019/2020.

## **CYFRADDAU CADW**

Mae'r tabl nesaf yn dangos y newid o bob Cyfnod Allweddol am y tair blynedd academaidd ddiwethaf yn y PcRh. Mae'r wybodaeth yn deillio o CYBLD:

| <b>Trosglwyddo o Bob Cyfnod Allweddol am y Tair blynedd diwethaf yn CBSRhCT</b> |                  |                  |                  |
|---|------------------|------------------|------------------|
| <b>Cyfnod Pontio</b>  | <b>Blwyddyn</b>  |                  |                  |
|   | <b>2017/2018</b> | <b>2018/2019</b> | <b>2019/2020</b> |
| <b>Y Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2</b>                                    | 97.71%           | 98.16%           | 98.26%           |
| <b>Cyfnod Allweddol Dau i Gyfnod Allweddol Tri</b>                              | 111.68%          | 113.91%          | 110.11%          |
| <b>Cyfnod Allweddol Tri i Gyfnod Allweddol Pedwar</b>                           | 95.53%           | 98.41%           | 97.34%           |
| <b>Cyfnod Allweddol Pedwar i Gyfnod Allweddol Pump</b>                          | 62.24%           | 55.53%           | 59.59%           |

Mae dadansoddiad o ddata trosglwyddo yn dangos bod trosglwyddo disgyblion rhwng Cyfnodau Allweddol ddim yn broblem sylweddol yn CBSRhCT.

### **DEILLIANT 3: MWY O FYFYRWYR 14-16 OED YN ASTUDIO AR GYFER CYMWYSTERAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG**

Sylwch nad oes data diweddar ar gael ar gyfer Deilliant 3 gan nad yw Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r mesurau hyn bellach. Fodd bynnag, mae modd gweld diweddariadau pellach yn Atodiad Un - Diweddariad Cynnydd - Rhagfyr 2020.

### **DEILLIANT 4: MWY O FYFYRWYR 14-19 OED YN ASTUDIO PYNCIAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG, MEWN YSGOLION, COLEGAU AC WRTH DDYSGU MEWN LLEOLIADAU BYD GWAITH.**

Sylwch does dim data diweddar ar gyfer Deilliant 4 gan nad yw Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r mesurau hyn bellach. Fodd bynnag, mae modd gweld diweddariadau pellach yn Atodiad Un - Diweddariad Cynnydd - Rhagfyr 2020.

### **DEILLIANT 5: MWY O FYFYRWYR SYDD Â SGILIAU UWCH YN Y GYMRAEG**

Sylwch does dim data diweddar ar gyfer Deilliant 5 gan nad yw Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r mesurau hyn bellach. Fodd bynnag, mae modd gweld diweddariadau pellach yn Atodiad Un - Diweddariad Cynnydd - Rhagfyr 2020.

### **DEILLIANT 6: DARPARIAETH GYFRWNG CYMRAEG AR GYFER DISGYBLION SYDD AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)**

Mae newidiadau sylweddol ar y gweill yng Nghymru mewn perthynas â'r ddarpariaeth statudol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion disgyblion ag AAA/anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fe gafodd Ddeddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu ac Addysg Ychwanegol (Cymru) 2018<sup>4</sup> (Deddf 2018) ei chyflwyno ym mis Ionawr 2018. O dan Ddeddf 2018, mae hi'n ofynnol bod Awdurdodau Lleol yn parhau i adolygu trefniadau

<sup>4</sup>[Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\)](#)

cynnal disgyblion ag AAA ac ADY yn eu hardal ac i ystyried a ydyn nhw'n ddigonol. Mae hyn yn cynnwys gofyniad statudol i gymryd pob cam rhesymol i greu system o gynhaliadaeth ddwyieithog i ddisgyblion ag AAA ac ADY. Bydd Deddf 2018 yn cael ei chefnogi gan reoliadau newydd, gan gynnwys deddfwriaeth eilaidd a Chod ADY statudol newydd (Y Cod Newydd). Mae Cod Drafft ADY Cymru - Rhagfyr 2018<sup>5</sup> (Y Cod Drafft) yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Dylai diwallu anghenion disgyblion sydd ag AAA a ADY fod yn rhan o ddull ysgol gyfan i wella darpariaeth yr ysgol.
- Rhaid cefnogi disgyblion i gymryd rhan mewn addysg brif ffrwd a'r Cwricwlwm Cenedlaethol gymaint â phosibl lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Mae'n debyg y bydd y Cod Newydd yn cael ei weithredu ym mis Medi 2021, a than hynny mae'n ofynnol bod Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â Chod Ymarfer AAA Cymru 2002<sup>6</sup> (Cod 2002), sef y cod cyfredol i gyflawni eu dyletswyddau statudol tuag at blant ag AAA ac ADY.

Yn CBSRhCT, mae cyfanswm o £3.4 miliwn o Gyllid Anghenion Ychwanegol (ANF) ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd i sicrhau bod darpariaeth brif ffrwd statudol i ddisgyblion yn gadarn ac i gefnogi cynhwysiant prif ffrwd i ddisgyblion sydd ag anghenion difrifol a pharhaus.

Mae galw am leoliadau mwy arbenigol ar ddisgyblion sydd ag anghenion mwy arwyddocaol a sy'n cael anawsterau o ran ymdopi ag addysg prif ffrwd. Mae gan CBSRhCT ystod o ddarpariaethau arbenigol sy'n cynnwys:

- 44 o ddsbarthiadau Cynnal Dysgu
- 2 Uned Atgyfeirio Disgyblion (UAD).
- 4 Ysgol Arbennig

Mae Paneli Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant CBSRhCT yn cytuno ar leoliadau o fewn y darpariaethau arbenigol hyn.

Mae'r ystod o Ddsbarthiadau Cynnal Dysgu sy'n cael eu darparu gan RhCT ac sydd ynghlwm ag ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd yn rhagorol. Fodd bynnag, yng ngoleuni gofynion Deddf 2018, mae pryderon ynghylch gwaharddiadau cynyddol, a chynnydd mewn ceisiadau am leoliadau ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY/SEBD). Oherwydd hynny, teimlir bod angen gwella'r ddarpariaeth DCD gyfredol i fynd i'r afael â'r materion uchod. Yn ogystal, mae ysgolion yn nodi lefelau cynyddol o ddisgyblion prif ffrwd ag anawsterau iechyd meddwl ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Dyma gadarnhaodd dadansoddiad o ddata:

- Does dim digon o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn y sector uwchradd ar hyn o bryd.
- Ar hyn o bryd does dim darpariaeth arbenigol benodol ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol.

---

<sup>5</sup> [Cod Drafft ADY Cymru - Rhagfyr 2018](#)

<sup>6</sup> [Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002](#)

Ar hyn o bryd mae CBSRhCT yn gwario oddeutu £4.1 miliwn yn flynyddol i ddarparu 44 o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu. Ar hyn o bryd mae tua 362 o ddisgyblion, ag ystod o anghenion, yn cyrchu'r ddarpariaeth yma ym Mwrdeistref Sirol RhCT.

Ar hyn o bryd mae disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag AAA ac ADY sylweddol a fyddai'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu cefnogi gan garfan beripatetig arbenigol - Carfan Anghenion Cymhleth Cymru. Mae Carfan Anghenion Cymhleth Cymru, sy'n cynnwys athro arbenigol Cymraeg ei iaith a dau Gynorthwy-ydd Cynnal/Cymorth Dysgu, yn darparu cefnogaeth trwy fodel cyflwyno cynhwysol lle mae disgyblion yn cael cymorth arbenigol yn eu lleoliadau prif ffrwd.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2019/2020 cefnogodd Carfan Anghenion Cymhleth Cymru 14 o ddisgyblion rhwng wyth mlwydd oed (Blwyddyn Tri) ac un deg pedwar blwydd oed (Blwyddyn Naw):

- Roedd wyth yng Nghyfnod Allweddol Dau.
- Roedd chwech yng Nghyfnod Allweddol Tri.

Mae dadansoddiadau data yn awgrymu bod disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth gan Garfan Anghenion Cymhleth Cymru yn gwneud cynnydd sy'n debyg i gynnydd eu cyfoedion mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Saesneg. Cynhaliwyd arolwg o'r ddarpariaeth yn Nhymor yr Hydref 2019 ac fe amlygodd yr arolwg fod y model yma o gynhwysiant sydd wedi'i fabwysiadu gan ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Fodd bynnag, mae'n destun pryder nodi, oherwydd diffyg darpariaeth DCD cyfrwng Cymraeg, bod yn rhaid i un disgybl symud o addysg gyfrwng Cymraeg i addysg gyfrwng Saesneg yn ystod y flwyddyn academaidd 2018/2019, tra bod yn rhaid i ddau ddisgybl symud o addysg gyfrwng Cymraeg i Addysg gyfrwng Saesneg yn ystod y flwyddyn academaidd 2019/2020 er mwyn cyrchu darpariaeth arbenigol DCD. Er gwybodaeth, mae adborth gan ysgolion yn awgrymu bod rhai rhieni/cynhalwyr plant ag AAA ac ADY weithiau'n dewis anfon eu plant i ysgol gynradd gyfrwng Saesneg cyn trosglwyddo o Gam Allweddol Dau i Gam Allweddol Tri oherwydd diffyg darpariaeth arbenigol benodol Gymraeg mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae hi'n debygol felly bod nifer y plant a phobl ifanc ag AAA ac ADY yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu tangynrychioli am y rheswm yma.

Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, cymeradwywyd adroddiad gan Gabinet CBSRhCT ar 17 Rhagfyr 2019<sup>7</sup> a oedd yn amlinellu cynigion ar gyfer newid ac yn ceisio:

- Gwella continwwm y ddarpariaeth sy'n mynd i'r afael yn effeithiol â'r angen am ddarpariaeth Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol Arbenigol yng Nghyfnod Allweddol Tri a Chyfnod Allweddol Pedwar.
- Creu darpariaeth DCD arbenigol ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol Tri a Chyfnod Allweddol Pedwar sydd ag AAA ac ADY sylweddol.

---

<sup>7</sup> [Adroddiad Y Cabinet - 17 Rhagfyr 2019 - Adolygiad o Ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i ddisgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol.](#)



Roedd adroddiad Cabinet yn cymeradwyo'r broses o ddechrau ymgynghoriad ar gynigion i wella darpariaeth DCD ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol Tri a Chyfnod Allweddol Pedwar sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol, trwy sefydlu DCD yn Ysgol Gymraeg Garth Olwg.

Oherwydd effaith pandemig Covid 19, fe ddaeth y cynigion yma i ben ac felly ar 25 Mehefin 2020, roedd Cabinet CBSRhCT wedi cytuno i fwrw ymlaen gyda chynnig diwygiedig i ymestyn peilot cynharach i ariannu ysgolion uwchradd prif ffrwd i sefydlu eu cwricwlwm amgen eu hunain ar gyfer dysgwyr sydd ag Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol sylweddol. O ganlyniad, ym mis Medi 2020, darparwyd cyllid i Ysgol Gymraeg Garth Olwg i sefydlu darpariaeth amgen fewnol yn yr ysgol sy'n sicrhau bod modd i ddisgyblion sy'n cyflwyno gydag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol, ddiwallu eu hanghenion yn eu hysgol brif ffrwd Gymraeg leol.

## **DEILLIANT 7: CYNLLUNIO'R GWEITHLU A DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS**

Nodyn Briffio Comisiynydd Y Gymraeg: Mae'r ddogfen Iaith Gymraeg a'r Gweithlu Addysg Statudol yng Nghymru<sup>8</sup> a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020 yn amlinellu pwysigrwydd sicrhau niferoedd digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg er mwyn cyrraedd y weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yn y ddogfen Cymraeg 2050. Felly, mae'r nodyn briffio yn amlinellu nifer o argymhellion.

Er mwyn creu mwy o siaradwyr Cymraeg, mae ein system addysg yn ddibynnol ar ei gweithlu a rhaid i ni weithio i sicrhau ein bod yn creu gweithlu â sgiliau ieithyddol cadarn, sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi disgyblion sy'n derbyn addysg gyfrwng Gymraeg. Yn y flwyddyn 2020, ar hyn o bryd mae CBSRhCT yn cyflogi 12,457 o bobl, y mae 5,290 (42.4%) ohonynt yn staff yn yr ysgol. Mae'r data yn y tabl nesa'n dangos nifer a chanran y staff sy'n dweud eu bod yn rhugl neu'n weddol rugl yn y Gymraeg. Roedd yr wybodaeth yma'n gywir ar 17 Awst 2020:

| <b>Nifer y Staff sy'n Dweud eu Bod yn Rhugl neu'n weddol Rhugl yn y Gymraeg</b> |                         |   |          |                             |          |   |          |
|---|-------------------------|---|----------|-----------------------------|----------|---|----------|
| <b>Nifer y Gweithwyr sydd â Sgiliau Iaith Gymraeg</b>                           |                         | <b>Rhugl (Cymraeg Lefel Pedwar a Phump)</b> |          | <b>Eithaf (Cymraeg Tri)</b> |          | <b>Rhugl Lefel Cyfanswm (Cymraeg Lefel Tri, Pedwar a Phump)</b> |          |
|   |                         | <b>Nifer</b>                                | <b>%</b> | <b>Nifer</b>                | <b>%</b> | <b>Nifer</b>  | <b>%</b> |
| <b>Categori</b>   | <b>Cyfanswm y Staff</b> |   |          |                             |          |   |          |
| <b>Pob Aelod o Staff</b>  | 12,457                  | 1,317                                       | 10.5%    | 318                         | 2.5%     | 1,635   | 13.1%    |
| <b>Staff Ysgol</b>  | 5,290                   | 742   | 14.0%    | 175                         | 3.3%     | 917   | 17.3%    |
| <b>Staff sydd ddim yn</b>   | 7,167                   | 575   | 8.0%     | 143                         | 1.9%     | 718   | 10.0%    |

<sup>8</sup> [Comisiynydd Y Gymraeg - Nodyn Briffio - Yr Iaith Gymraeg a'r Gweithlu Addysg Statudol yng Nghymru - 6 Awst 2020.](#)

|                                       |  |  |  |  |  |  |  |
|---------------------------------------|--|--|--|--|--|--|--|
| <b>gweithio<br/>mewn<br/>ysgolion</b> |  |  |  |  |  |  |  |
|---------------------------------------|--|--|--|--|--|--|--|

Mae'r tabl yn dangos bod gan 1,635 (13.1%) o staff ysgol sgiliau iaith Gymraeg rhugl neu weddol rugl (Sgiliau Cymraeg Lefel Tri, Pedwar a Phump).

### **CASGLIAD**

Mae gan CBSRhCT y ganran uchaf o ddisgyblion oedran ysgol statudol (pump i bymtheg oed) sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd cyfrwng Cymraeg ar draws ardal y pum Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r Gwasanaeth Addysg ar y Cyd yn ystod y tair blynedd academaidd diwethaf.

Mae data'n awgrymu bod rhai mesurau wedi gweld cynnydd amlwg. Mae cynnydd wedi bod yn nifer y disgyblion saith oed (Blwyddyn Dau) sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng Cymraeg rhwng y blynyddoedd academaidd 2018/2019 (516) a 2019/2020 (534) o 18 dysgwr (+ 3.48% ). Er y bu gostyngiad bach yn nifer y disgyblion un deg pedwar oed (Blwyddyn Naw) sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg rhwng y blynyddoedd academaidd 2018/2019 (527) a 2019/2020 (523) o 4 dysgwr (0.75 %).

Yn ogystal, o ddadansoddi data trosglwyddo, dydy hi ddim yn ymddangos bod trosglwyddo disgyblion rhwng Cyfnodau Allweddol yn broblem sylweddol yn CBSRhCT.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2019/2020 cefnogodd Carfan Anghenion Cymhleth Cymru 14 o ddisgyblion rhwng wyth mlwydd oed (Blwyddyn Tri) ac un deg pedwar blwydd oed (Blwyddyn Naw):

- Roedd wyth yng Nghyfnod Allweddol Dau.
- Roedd saith yng Nghyfnod Allweddol Tri.

Mae dadansoddiadau data yn awgrymu bod disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth gan Garfan Anghenion Cymhleth Cymru yn gwneud cynnydd sy'n debyg i gynnydd eu cyfoedion mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Saesneg. Cynhaliwyd arolwg o'r ddarpariaeth yn Nhymor yr Hydref 2019 ac fe amlygodd yr arolwg fod y model yma o gynhwysiant sydd wedi'i fabwysiadu gan ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae CBSRhCT yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod addysg gyfrwng Gymraeg ar gael, o'r blynyddoedd cynnar cychwynnol i addysg gynradd ac uwchradd ac yna symud ymlaen i addysg uwch ac addysg bellach, i bob dysgwr beth bynnag fo'i anghenion dysgu, yn unol â chyflawni gweledigaeth miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn y ddogfen Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg<sup>9</sup>

<sup>9</sup> [Cymraeg 2050 – A Million Welsh Speakers](#)